

Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd 2006 - 2026



Adroddiad Monitro Blynyddol 1af

Hydref 2017



Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd

Adroddiad Monitro Blynyddol 1^{af} 2017

Yn seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod
1^{af} Ebrill 2016 i 31^{ain} Mawrth 2017

Cynnwys

	Tudalen
1. Crynodeb Gweithredol	3
2. Cyflwyniad	7
3. Newidiadau Cyd-destunol	11
4. Proses Monitro'r CDLI	19
5. Dadansoddiad Polisi Monitro'r CDLI	23
• Canlyniad	
• Dadansoddiad	
• Argymhellion	
6. Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd	159
7. Casgliadau	183
Atodiad 1: Tabl yn nodi crynodeb o'r canfyddiadau	187

1. Crynodeb Gweithredol

Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd (CDLI) ar 28^{ain} Ionawr 2016. Fel rhan o broses y cynllun datblygu statudol, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB).

Mae'r AMB yn darparu'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y CDLI, ac yn y pen draw, mae'n penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae hefyd yn caniatáu i'r Cyngor asesu'r effaith a gaiff y CDLI ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir, a nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r cynllun.

Hwn yw'r AMB cyntaf i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd, ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1^{af} Ebrill 2016 i 31^{ain} Mawrth 2017. Gan mai dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol ac mai hwn yw'r AMB cyntaf i gael ei baratoi, mae'n darparu datganiad sefyllfa tymor byr. Felly mae'r AMB hwn yn darparu gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol, y gellir ei ddefnyddio i ddangos y tueddiadau sy'n ymddangos mewn AMB'au dilynol.

Canfyddiadau Allweddol y Broses Monitro Blynyddol Gyntaf 2016-2017

Gwybodaeth Gyd-destunol

Yn Adran 3, cynhwysir crynodeb o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd ers mabwysiadu'r Cynllun, ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol, ynghyd â thueddiadau economaidd cyffredinol. At ei gilydd, nid yw'r un o'r newidiadau a nodwyd hyd yn hyn yn awgrymu angen am adolygiad cynnar o'r Cynllun. Bydd goblygiadau rhai o'r newidiadau cyd-destunol yn digwydd yn ystod y tymor hwy, a bydd yr AMB'au dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a rhoi ystyriaeth bellach i unrhyw newidiadau a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol - Dadansoddiad Polisi

Mae Adran 5 yn asesu sut mae polisïau strategol y Cynllun a'r polisïau ategol cysylltiedig yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro allweddol a nodwyd, a p'un a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflenwi. Galluogodd hyn y Cyngor i wneud dyfarniad gwybodus o gynnydd y Cynllun wrth gyflawni'r targedau/ monitro'r canlyniadau a pholisïau yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn darparu trosolwg gweledol o effeithiolrwydd polisïau yn ystod y cyfnod monitro, yn seiliedig ar y raddfa goleuadau traffig a ddefnyddir yn yr asesiad:

Parhau i fonitro (Gwyrdd)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes unrhyw achos i'w hadolygu.	
Angen Hyfforddiant (Glas)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar swyddogion neu aelodau.	
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Porffor)	
Gall y dangosyddion awgrymu bod angen darparu rhagor o ganllawiau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes yn y Cynllun.	
Ymchwil Pellach (Melyn)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, a bod angen ymchwil ac archwiliad pellach.	
Adolygiad Polisi (Oren)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwil ac archwiliad pellach cyn cadarnhau'r penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.	
Adolygiad Cynllun (Coch)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio'n llawn i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun a'i wneud yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.	

Prif ganfyddiadau

Fel y nodir uchod, mae'n bwysig nodi mai hwn yw'r AMB cyntaf i'w baratoi, ac mae AMB eleni yn darparu datganiad sefyllfa blwyddyn tymor byr a data gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn AMB'au dilynol.

Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r AMB cyntaf ar gyfer blwyddyn 1 yn gyffredinol gadarnhaol, gyda'r mwyafrif o'r dangosyddion yn cael eu dangos yn wyrdd, sy'n arwydd bod y mwyafrif o bolisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft:

- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gwrdd â'r newid moddol 50:50 ar gyfer yr holl bwrpasau teithio erbyn 2026 dros y cyfnod monitro, a rhagorwyd ar y targedau a nodwyd yn yr AMB i bob pwrpas teithio.
- Bu'r defnydd o dir cyflogaeth yn gryf dros y cyfnod monitro a chyflawnwyd y targedau a nodwyd yn yr AMB.
- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gynhyrchu rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd (CCA) i gefnogi'r polisïau yn y Cynllun mabwysiedig, ac mae Cynllun Seilwaith Caerdydd wedi cael ei ddiweddarau. Bydd y gwaith ar y rhaglen CCA hon yn parhau trwy'r deuddeg mis nesaf a cheir tystiolaeth yn yr AMB nesaf.

Ceir rhai dangosyddion nad ydynt yn cael eu dangos fel rhai gwyrdd ac mae'r rhain yn cynrychioli meysydd lle mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddeall ac ymdrin yn llawn â materion perthnasol.

Er enghraifft, nid yw tai a gwblhawyd o Safleoedd Strategol a neilltuwyd yn y CDLI wedi bod yn dod ymlaen ar y cyfraddau a nodwyd yn wreiddiol gan Ddatblygwyr. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio o safle i safle, ond daeth yn amlwg bod oedi'n digwydd rhwng mabwysiadu'r CDLI a thai newydd yn cael eu cwblhau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/materion technegol cyfreithiol rhwng Datblygwyr a pherchnogion tir, a hefyd cymhlethdod sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau Adran 106 atodol sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor, fel y nodir yn y CDLI.

Fodd bynnag, gwnaed gwaith sylweddol eisoes wrth ymdrin â'r mater hwn er mwyn ysgogi tafll-lwybr gwell o ddarpariaeth. Mae deialog ragweithiol eisoes yn digwydd gyda'r holl Ddatblygwyr perthnasol, gyda'r nod o alluogi a chyflenwi cartrefi newydd o fewn y fframwaith uwchgyllunio a chynllunio seilwaith a nodir yn y CDLI. Mae'r sefyllfa bresennol yn fwy calonogol gyda sawl caniatâd cynllunio bellach wedi ei roi, a gweithgaredd Rheoli Datblygiad parhaus yn digwydd ar ystod o Safleoedd Strategol a gwahanol allfeydd o fewn y safleoedd. Ystyrir felly y bydd y dull rhagweithiol hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, ac y bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth barhaus. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau ffurfiol blynyddol rheolaidd.

Yn ychwanegol, cafwyd oedi yn y gwaith sy'n mynd yn ei flaen i adnabod safleoedd i ddiwallu'r angen a nodwyd o ran safleoedd parhaus a thramwy i Sipsiwn a Theithwyr oherwydd yr angen i ymgymryd ag ymchwiliadau manwl ar safleoedd. Mae'r ymchwiliadau safle hyn bellach wedi cyrraedd cam datblygedig. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn helpu i hysbysu'r ystyriaethau ar y ffordd ymlaen yn y dyfodol agos.

Monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG)

Mae Adran 6 yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro'r AG. Mae hyn yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd ac mae'n darparu gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol.

Casgliadau

Er ei bod yn anodd pennu tueddiadau pendant mewn perfformiad polisi, casgliad allweddol yr AMB cyntaf hwn yw y cafwyd cynnydd da yn gyffredinol wrth gyflawni'r targedau a'r canlyniadau monitro a nodwyd, ac nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen adolygiad llawn neu rannol o'r CDLI ar y cam cynnar hwn yn ei weithrediad.

Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol a dyma'r AMB cyntaf i'w baratoi ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Mae'r AMB hwn yn darparu'r gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol a chasgliadau rhagarweiniol y gall AMB'au yn y dyfodol eu defnyddio i ddangos sut mae tueddiadau yn dod i'r amlwg.

Argymhellir bod yr AMB hwn yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â'r gofynion statudol. Dylai'r Cyngor barhau i fonitro'r CDLI trwy baratoi AMB dilynol. Bydd angen monitro yn y dyfodol er mwyn pennu effeithiolrwydd fframwaith gofodol a fframwaith polisi'r Cynllun, yn enwedig mewn perthynas â chyflenwi tai, gan gynnwys dyraniadau safleoedd tai strategol, darparu tai fforddiadwy, a'r cynnydd ar safleoedd cyflogaeth strategol.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob pedair blynedd. Dim ond os yw os casgliadau'r AMB, neu amgylchiadau eithriadol eraill, yn nodi fel arall y bydd adolygiad o'r CDLI yn digwydd cyn yr adolygiad ffurfiol.

2. Cyflwyniad

Mae'r broses Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) yn darparu'r sail ar gyfer monitro effeithiolrwydd y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ac mae'n helpu i hysbysu p'un a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Ei nod yw dangos i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflawni a p'un a yw polisiâu'r Cynllun yn gweithredu'n effeithiol. Mae hefyd yn galluogi'r Cyngor i asesu pa effaith y mae'r CDLI yn ei chael ar lesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y Sir ac mae'n nodi unrhyw newidiadau cyd-destunol o bwys a allai ddylanwadu ar weithredu neu adolygu'r Cynllun.

Mae monitro yn rhan barhaus o'r broses gwneud y cynllun. Mae'n darparu'r cysylltiad rhwng casglu tystiolaeth, strategaeth y cynllun a llunio polisiâu, gweithredu polisi, gwerthuso a chynllunio'r adolygiad.

Mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd

O dan y Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol (2004) a'r Rheoliadau cysylltiedig, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol (ACL'au) gynhyrchu CDLI. Mabwysiadwyd Gynllun Datblygu Lleol Caerdydd yn ffurfiol gan y Cyngor ar 28^{ain} Ionawr 2016. Mae'r CDLI yn darparu'r fframwaith defnydd tir sy'n sail i'r penderfyniadau a wneir ynghylch datblygiadau yn y ddinas yn y dyfodol, gan gynnwys ceisiadau cynllunio.

Hwn yw'r AMB cyntaf i gael ei baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd ac mae'n seiliedig ar ddata a gasglwyd ar gyfer y cyfnod 1^{af} Ebrill 2016 – 31^{ain} Mawrth 2017.

Y Gofyniad ar gyfer Monitro Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004

Mae gan y Cyngor rwymedigaeth statudol, o dan adran 61 o Ddeddf 2004, i gadw'r holl faterion y disgwylir iddynt effeithio ar ddatblygiad ei ardal o dan adolygiad. Yn ogystal, o dan adran 76 o'r Ddeddf, mae gan y Cyngor ddyletswydd i gynhyrchu gwybodaeth am y materion hyn ar ffurf Adroddiad Monitro Blyneddol (AMB) i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Hydref bob blwyddyn yn dilyn mabwysiadu'r cynllun. Felly mae paratoi AMB yn rhan annatod o'r broses cynllun datblygu statudol.

Er mwyn monitro perfformiad y CDLI yn gyson, dylid ystyried cynlluniau yn erbyn set safonol o ddangosyddion a thargedau monitro. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi rheoliadau a chanllawiau ar gynnwys gofynnol AMB'au.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Cafodd y Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) eu diwygio i symleiddio rhai agweddau o weithdrefnau'r cynllun datblygu lleol; fodd bynnag, nid yw'r rhain yn effeithio ar broses fonitro'r CDLI. O dan Reoliad 37 mae'n ofynnol i'r AMB:

- Nodi'r polisiâu nad ydynt yn cael eu gweithredu;

Ac i bob polisi:

- Nodi'r rhesymau pam nad yw'r polisi yn cael ei weithredu;
- Nodi'r camau (os o gwbl) y bwriedir eu cymryd i alluogi'r polisi i gael ei weithredu;
- Archwilio p'un a oes angen diwygio'r cynllun i ddisodli neu ddiwygio'r polisi.

Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r AMB fonitro'r dangosyddion craidd a nodwyd trwy fanylu ar:

- Y cyflenwad tir ar gyfer tai o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai gyfredol, a'r;
- Nifer (os o gwbl) o anheddau net fforddiadwy ychwanegol a thai marchnad cyffredinol a adeiladwy yn ardal yr ACLI.

Mae'r rhain ar gyfer blwyddyn yr AMB ac am y cyfnod llawn ers i'r CDLI gael ei fabwysiadu gyntaf.

Mae Dangosyddion Allbwn Craidd eraill ar gyfer CDLI yn cynnwys:

- Cyfanswm yr unedau tai a ganiateir ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r ddarpariaeth dai gyffredinol
- Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a neilltuwyd fel % o'r holl ddyraniadau cyflogaeth
- Swm y datblygiad manwerthu, swyddfeydd a hamdden mawr (metr sgwâr) a ganiateir o fewn a thu allan i ffiniau canol trefi a dosbarth sefydledig
- Maint yr agregau tir-enlledig a ganiateir yn unol â'r Datganiad Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau, yn cael ei fynegi fel canran o'r holl gapasiti sydd ei angen fel y nodwyd yn y Datganiad Technegol Rhanbarthol (MTAN).

Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015)

Noda Llawlyfr y CDLI mai'r agweddau sy'n ddefnyddiol eu cynnwys mewn AMB yw:

- Prif ganfyddiadau, ar ffurf Crynodeb Gweithredol 1-2 dudalen.
- Newid cyd-destunol arwyddocaol, h.y. adolygiad o faterion strategol ehangach sy'n effeithio ar yr ardal leol a'r cyd-destun y mae'r CDLI yn gweithredu ynddo, gan gynnwys ffyniant unrhyw ddiwydiannau lleol sylweddol, canllawiau cynllunio cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg, neu gais cynllunio sylweddol
- Monitro cynaliadwyedd yn gysylltiedig ag Adroddiad yr AG a'r broses asesu integredig (gweler adran 9.2.2).
- Monitro strategaeth, i asesu a yw'r cynllun yn cyflawni ei brif amcanion, ac a yw "ar y trywydd iawn" o ran lefel y gweithredu, e.e. lefel y datblygiadau tai newydd neu'r nifer sy'n manteisio ar safleoedd mawr.
- Monitro polisi, i dynnu sylw at unrhyw bolisiau nad ydynt yn gweithredu'n effeithiol, ac i dynnu sylw at sut y bydd materion o'r fath yn cael sylw.
- Casgliadau ac argymhellion; e.e. nodi unrhyw welliannau/ newidiadau i rannau allweddol o'r cynllun y byddai angen eu hystyried mewn adolygiad yn y dyfodol a diwygio'r cynllun posibl. Gallai ymatebion priodol eraill gynnwys nodi'r angen am CCA neu ymchwil pellach a chasglu tystiolaeth.

Dywed y Llawlyfr nad yw'n realistig nac yn angenrheidiol monitro'r holl bolisiau - byddai hyn yn arwain at ddogfen ddiangen o fawr a chymhleth. Bydd angen cynnwys rhai

meysydd allweddol yn gyson bob blwyddyn a mater i'r Awdurdod benderfynu arno yw hyn, ar sail yr elfennau hynny sy'n hanfodol i gyflawni strategaeth y cynllun.

Noda'r Llawlyfr y dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn darparu rhwyddineb dadansoddi rhwng adroddiadau olynol ac adeiladu ar y canlyniadau blaenorol. Bydd defnydd da o ddeunydd darluniadol fel siartiau, graffiau a mapiau hefyd yn golygu bod yr AMB yn fwy hygyrch.

Noda'r Llawlyfr ei bod yn bwysig bod gan yr AMB ddimensiwn dadansodol. Mae'n bwysig hefyd ymgorffori gwybodaeth ansodol o ymgynghoriadau â rhanddeiliaid allweddol, er enghraifft, barn arweinwyr cymunedol am eu hardaloedd, ac asesiad gwneuthurwyr y cynllun o dueddiadau, amodau a materion sy'n gyrru newid.

Noda'r Llawlyfr ei bod yn bwysig ystyried pam fod angen gwybodaeth, ac i strwythuro'r dadansoddiad yn unol â hynny. Efallai y bydd y cwestiynau canlynol yn berthnasol:

- Pa faterion newydd sydd wedi digwydd yn yr ardal neu mewn polisi lleol/cenedlaethol (newidiadau polisi allweddol cyd-destunol a chenedlaethol diweddar, rhagolygon yn y dyfodol)?
- Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLI a'i bolisiau a thargedau allweddol?
- Pa safleoedd sydd wedi'u datblygu neu eu hoedi o ran disgwyliadau'r cynllun ar leoliad ac amseriad?
- Beth fu effeithiolrwydd cyflwyno polisiau, ac o wrth-annog datblygiad anaddas?

Fframwaith Monitro CDLI Caerdydd

Darperir Fframwaith Monitro ym Mhennod Chwech ac Atodiad 9 y CDLI sy'n cynnwys cyfres o 5 dangosydd cyd-destunol a 102 o ddangosyddion craidd a lleol, gyda thargedau cyfatebol a sbardunau ar gyfer gweithredu pellach mewn perthynas â pholisiau strategol y Cynllun. Mae hefyd yn nodi'r cysylltiadau rhwng amcanion y Cynllun, polisiau strategol a pholisiau eraill y Cynllun. Datblygwyd y dangosyddion yn unol â Rheoliadau a chanllawiau monitro Llywodraeth Cymru a nodir uchod. Mae'r Fframwaith Monitro yn ffurfio sail yr AMB.

Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd yn 2011)

Yn ogystal, rhaid i'r CDLI a'r AMB gydymffurfio â Chyfarwyddebau a Rheoliadau Ewropeaidd. Mae'r Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Terfynol, Ionawr 2016, yn nodi set arall o ddangosyddion (26) a ddefnyddir i fonitro cynnydd ar faterion cynaliadwyedd. Er eu bod wedi'u cysylltu â'i gilydd, nodir y rhain ar wahân i Fframwaith Monitro Polisi'r CDLI ac fe'u defnyddiwyd yn yr AMB i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI.

Mae cwblhau'r AMB yn cyd-fynd â'r gofynion ar gyfer monitro perfformiad cynaliadwyedd y Cynllun trwy'r Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Strategol (2004) a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (fel y'u diwygiwyd yn 2011).

Fformat a Chynnwys yr AMB

Dyluniwyd yr AMB i fod yn ddogfen gryno a hygyrch, y gellir ei defnyddio fel pwynt cyfeirio cyfleus ar gyfer pob maes polisi strategol.

Mae strwythur yr AMB fel a ganlyn:

Adran 1 Crynodeb Gweithredol - Yn darparu crynodeb ysgrifenedig cryno o'r canfyddiadau monitro allweddol.

Adran 2 Cyflwyniad - Yn amlinellu'r angen am AMB, ei bwrpas a'i strwythur.

Adran 3 Gwybodaeth Gyd-destunol - Yn darparu trosolwg byr o'r wybodaeth gyd-destunol berthnasol a allai, er ei bod y tu allan i gylch gorchwyl y Cynllun, effeithio ar berfformiad fframwaith polisi'r CDLI. Darperir gwybodaeth gyd-destunol polisi-benodol yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol, gan gynnwys newidiadau i'r fframwaith polisi ar lefel genedlaethol neu leol.

Adran 4 Proses Monitro'r CDLI - Esbonio'r broses fonitro a gynhaliwyd.

Adran 5 Monitro'r CDLI - Dadansoddiad polisi - Adroddiadau ar y 107 o ddangosyddion monitro'r CDLI a gytunwyd yn ystod proses archwilio'r CDLI, a'u hamlinellu yn Adroddiad yr Arolygydd.

Adran 6 Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd - Yn darparu asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn 28 o ddangosyddion monitro'r AG.

Adran 7 Casgliadau ac Argymhellion – Yn amlinellu trosolwg cyffredinol o'r holl ddangosyddion a pherfformiad y Cynllun yn ystod y flwyddyn gyntaf ar ôl ei fabwysiadu.

Cyhoeddi – Cyhoeddir yr AMB ar wefan y Cyngor.

Monitro yn y Dyfodol

Dylai strwythur eang yr AMB aros yr un fath o flwyddyn i flwyddyn er mwyn darparu rhwyddineb dadansoddi rhwng adroddiadau olynol. Fodd bynnag, o gofio bod y broses fonitro yn dibynnu ar ystod eang o wybodaeth ystadegol sy'n deillio o ffynonellau'r Cyngor yn ogystal â ffynonellau allanol, gallai unrhyw newidiadau i'r ffynonellau hyn wneud rhai dangosyddion yn aneffeithiol neu'n rhai sydd wedi dyddio. Yn unol â hynny, gall y fframwaith monitro esblygu dros gyfnod y Cynllun a bydd yr AMB yn cael ei ddefnyddio fel modd o nodi unrhyw newidiadau anochel o'r fath i'r fframwaith.

Mae'n ofynnol i'r Cyngor gychwyn adolygiad llawn o'r CDLI bob pedair blynedd ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Dim ond os yw os casgliadau'r AMB, neu amgylchiadau eithriadol eraill, yn nodi fel arall y bydd adolygiad o'r CDLI yn digwydd cyn yr adolygiad ffurfiol.

3. Newidiadau Cyd-destunol

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb byr o'r deunydd cyd-destunol perthnasol a gyhoeddwyd yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Mae'n cynnwys deddfwriaeth genedlaethol a chynlluniau, polisiau a strategaethau perthnasol ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol. Amlinellir unrhyw oblygiadau cyffredinol posibl i'r CDLI yn ei gyfanrwydd lle bo'n briodol. Hefyd amlinellir y tueddiadau economaidd cyffredinol a ddigwyddodd ers mabwysiadu'r CDLI, ynghyd â chynnydd ar y prif ganllawiau cynllunio atodol.

Darperir gwybodaeth gyd-destunol sy'n benodol i'r maes polisi CDLI neilltuol yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol er rhywyddineb cyfeirio, ac felly ni chaiff ei ailadrodd yma.

Newidiadau Deddfwriaethol

Deddf Cynllunio (Cymru) 2015

Derbyniodd Deddf Cynllunio (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Gorffennaf 2015 a daeth i rym fesul cam rhwng Hydref 2015 a Ionawr 2016. Mae'n amlinellu cyfres o newidiadau deddfwriaethol i gyflwyno diwygio'r system gynllunio yng Nghymru, i sicrhau ei bod yn deg, yn wydn ac yn galluogi datblygiad. Mae'r Ddeddf yn ymdrin â 5 o amcanion allweddol sy'n cynnwys cryfhau'r dull o gynllunio a arweinir gan y cynllun. Mae'n cyflwyno sail gyfreithiol ar gyfer paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDS). Mae'r FfDC yn gynllun defnydd tir cenedlaethol a fydd yn nodi polisiau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â datblygu a defnyddio dir yng Nghymru. Rhagwelir y bydd hwn yn cael ei gynhyrchu yn 2018/9 pan fydd yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Bydd y CDS'au yn ymdrin â materion trawsffiniol ar lefel ranbarthol megis tai, cyflogaeth a gwastraff, a rhaid iddynt gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC. Cyfeiria'r Rheoliadau at dair ardal cynllunio strategol, gan gynnwys De-ddwyrain Cymru. Rhagwelir y bydd Caerdydd yn rhan o'r ardal gynllunio strategol hon, gan alinio â chynigion Bargaen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd sy'n dod i'r amlwg. Bydd gan y CDLI rôl hanfodol yn y system sy'n dilyn y cynllun. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i CDLI'au gydymffurfio'n gyffredinol â'r FfDC ac unrhyw CDS sy'n cynnwys y cyfan neu ran o ardal yr awdurdod.

Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) (Diwygio) 2015

Gwnaed diwygiadau i Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 mewn ymateb i ganlyniad Ymarfer Mireinio'r CDLI ac maent yn anelu at symleiddio rhai agweddau o broses y cynllun datblygu lleol.

Mae'r Rheoliadau diwygiedig yn:

- Dileu'r gofyniad statudol i hysbysebu camau ymgynghori yn y wasg leol;
- Caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol wneud diwygiadau i'r cynllun datblygu lleol lle nad yw'r materion dan sylw o arwyddocâd digonol i warantu'r weithdrefn lawn, heb fynd drwy'r broses adolygu lawn;
- Dileu'r angen i alw am safleoedd amgen ac ymgynghori arnynt yn dilyn yr ymgynghoriad adneuo; a

- Gwneud mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol.

Daeth y Rheoliadau CDLI diwygiedig i rym ar 28 Awst 2015, ac ynghyd â pholisi a'r canllawiau cysylltiedig ym Mholisi Cynllunio Cymru (PCC) a'r Llawlyfr CDLI diwygiedig, y nod yw gwneud y broses CDLI yn fwy effeithlon ac effeithiol (h.y. galluogi paratoi a diwygio'r cynllun yn gyflymach heb osod cyfarwyddiadau dianghenraid). Nid oes gan y Rheoliadau diwygiedig unrhyw oblygiadau i'r CDLI cyfredol, ond bydd angen eu hystyried mewn perthynas ag unrhyw adolygiad o'r Cynllun a byddant yn cael ystyriaeth bellach yn ôl yr angen.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Derbyniodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015 a daeth i rym ar 1^{af} Ebrill 2016. Mae'r Ddeddf yn cryfhau'r trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant Cymru trwy sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth galon y llywodraeth a chyrrff cyhoeddus. Ei nod yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â nifer o nodau llesiant gan gynnwys gwella iechyd, diwylliant, treftadaeth a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer paratoi Cynlluniau Llesiant Lleol, a fydd yn disodli'r Cynlluniau Integredig Sengl. O ystyried bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor sylfaenol graidd y CDLI (ac AAS) mae cysylltiadau clir rhwng dyheadau'r CDLI a'r Ddeddf/ Cynlluniau Llesiant Lleol. Yn wir, ystyrir y bydd sylfaen dystiolaeth y CDLI, AAS/ AG a'r AMB yn llywio Cynllun Llesiant Lleol y Cyngor. Wrth symud ymlaen, bydd egwyddorion datblygu cynaliadwy yn parhau i lywio unrhyw adolygiad o'r Cynllun.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Derbyniodd y Ddeddf hon Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016 a daeth i rym ar 21^{ain} Mai 2016. Mae'n eistedd ochr yn ochr â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ran hyrwyddo defnydd cynaliadwy, rheoli a datblygu adnoddau Cymru. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cyflwyno deddfwriaeth newydd ar gyfer yr amgylchedd ac yn darparu fframwaith ailadroddol sy'n sicrhau y bydd rheoli adnoddau naturiol Cymru'n gynaliadwy yn ystyriaeth graidd wrth wneud penderfyniadau. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) baratoi Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol sy'n darparu asesiad o adnoddau naturiol ac yn ystyried i ba raddau y maent yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy. Bydd CNC hefyd yn cynhyrchu sylfaen dystiolaeth leol (Datganiadau Ardal) i helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Cenedlaethol ac yn nodi sut yr ymdrinnir â'r rhain. Rhoddir ystyriaeth bellach i unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI yn ôl yr angen.

Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016

Derbyniodd Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ym mis Mawrth 2016. Mae'r Ddeddf yn gwneud newidiadau pwysig i ddwy brif gyfraith y DU sy'n darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer diogelu a rheoli'r amgylchedd hanesyddol: Deddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979 a Deddf Cynllunio

(Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990. Bydd y Ddeddf yn rhoi amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig ac henebion cofrestredig; gwella rheolaeth gynaliadwy o'r amgylchedd hanesyddol; a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd i benderfyniadau a wneir am yr amgylchedd hanesyddol. Er bod rhai o fesurau'r Ddeddf wedi dod i rym ym mis Mai 2016, bydd y rhan fwyaf angen is-ddeddfwriaeth neu baratoadau eraill cyn iddynt gael eu dwyn i rym yn nes ymlaen yn 2017 neu yn 2018. Rhoddir ystyriaeth bellach i unrhyw oblygiadau i'r CDLI yn ôl yr angen.

Diwygiadau Polisi Cynllunio Cenedlaethol

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 8, Ionawr 2016)

Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Bolisi Cynllunio Cymru (PCC) ym mis Ionawr 2016. Mae'r prif newidiadau a geir yn Argraffiad 8 yn ymwneud â'r materion canlynol:

Cynlluniau Datblygu Lleol (Pennod 2):

Cyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig o Bennod 2 ar 25 Medi 2015 yn dilyn mireinio'r broses CDLI. Mae'n ystyried newidiadau cysylltiedig i Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2005, i'r canllawiau yn Llawlyfr y Cynllun Datblygu Lleol (Argraffiad 2, 2015) a thynnu'n ôl Gynlluniau Datblygu Lleol Cymru: Polisi ar Paratoi CDLIau (2005).

Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (Pennod 4):

Diweddarwyd Pennod 4 i gymryd i ystyriaeth Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r diwygiadau yn mewnosod gwybodaeth ar ddarpariaethau'r Ddeddf, gan gynnwys y saith nod llesiant a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Hefyd diweddarwyd y disgrifiad o ofynion deddfwriaethol ar gyfer datblygu cynaliadwy yn y system gynllunio. Dengys y newidiadau hefyd sut mae amcanion polisi cynllunio Llywodraeth Cymru yn cysylltu â'r nodau llesiant. Fe'i diweddarwyd hefyd i adlewyrchu darpariaethau iaith Gymraeg Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, sy'n cryfhau'r ystyriaeth a roddir i'r iaith Gymraeg yn y system gynllunio.

Mwynau (Pennod 14):

Mae'r Bennod newydd hon yn integreiddio polisiau cynllunio Llywodraeth Cymru ar ddatblygu mwynau, a gynhwyswyd yn flaenorol ym Mholisi Cynllunio Mwynau Cymru (2001). Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r polisi presennol fel rhan o'r ymarfer integreiddio hwn, a diddymwyd Polisi Cynllunio Mwynau Cymru o ganlyniad.

Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 9 Tachwedd 2016)

Cyhoeddwyd Argraffiad 9 o *Bolisi Cynllunio Cymru* (PCC) ym mis Tachwedd 2016. Mae'r argraffiad hwn o PCC yn ymgorffori penodau diwygiedig llawn ar 'Yr Amgylchedd Hanesyddol' ac ar 'Ddatblygiadau Manwerthu a Masnachol', ynghyd â newidiadau i ystyried darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a'r ffaith bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wedi dod i rym. Mae'r prif newidiadau i PCC fel a ganlyn:

Cyflwyniad (Pennod 1)

Diweddarwyd hwn i adlewyrchu cyflwyno'r 'Fframwaith Perfformiad Cynllunio' a disgwyliadau'r polisi apeliadau dilysu.

Cynlluniau Datblygu Lleol (Pennod 2)

Diweddarwyd Pennod 2 i ystyried newidiadau mewn deddfwriaeth, gan gynnwys darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015. Hefyd mae rhai elfennau gweithdrefnol a drafodir yn Llawlyfr y CDLI (Argraffiad 2, 2015) wedi'u dileu.

Gwneud a Gorfodi Penderfyniad Cynllunio (Pennod 3)

Symleiddiwyd Pennod 3 o ganlyniad i gyhoeddi'r Llawlyfr Rheoli Datblygu. Mae'r bennod ddiwygiedig hefyd yn cynnwys cyfeiriad at 'Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol' ar ôl i'r Rheoliadau perthnasol ddod i rym yn ymwneud â Deddf Cynllunio (Cymru) 2015.

Cynllunio ar gyfer Cynaliadwyedd (Pennod 4)

Diweddarwyd Pennod 4 i gynnwys pwrpas statudol y system gynllunio a gyflwynwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015. Bu gwelliannau hefyd i gymryd i ystyriaeth bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn dod i rym, ac ynghylch Datganiadau Dylunio a Mynediad, sy'n gysylltiedig â Deddf Cynllunio (Cymru).

Yr Amgylchedd Hanesyddol (Pennod 6)

Diwygiwyd Pennod 6 yn llawn ar y cyd â Cadw yn dilyn yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd yn gynharach eleni, a derbyn Cydsyniad Brenhinol i Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Datblygiad Manwerthu a Masnachol (Pennod 10)

Adnewyddwyd Pennod 10 i ddiweddarau polisi cynllunio Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygiad manwerthu a masnachol. Mae'r gofyniad yn parhau i ystyried canolfannau manwerthu a masnachol yn gyntaf a defnyddiau ategol, yn ogystal â'r gofynion ar gyfer angen manwerthu a phrofion dilyniannol ac ymgymryd ag asesiadau effaith lle bo'n briodol. Mae Nodyn Cyngor Technegol 4, *Manwerthu a Datblygu Masnachol* diwygiedig yn cyd-fynd â'r Bennod newydd

Nodiadau Cyngor Technegol (TANs)

Diweddarwyd TAN 12 Dylunio a Chanllawiau ar Ddadansoddiad Cyd-destun Safle ym mis Mawrth 2016 a TAN4 Datblygiadau Manwerthu a Masnachol ym mis Tachwedd 2016. Darperir goblygiadau posibl i'r CDLI o'r newidiadau i'r ddau TAN hyn yn yr adran dadansoddi polisi perthnasol.

Cyd-destun Rhanbarthol

Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Nodwyd De-ddwyrain Cymru fel ardal prifddinas-ranbarth newydd yng Nghymru, yn cwmpasu Awdurdodau Lleol Caerdydd a De-ddwyrain Cymru. Fel y nodwyd yn yr adroddiad 'Sbarduno Economi Cymru'1, bwriedir i Brifddinas-Ranbarth annog y deg awdurdod lleol a phartneriaid allweddol eraill ar ei ffiniau i weithio gyda'i gilydd a

chydweithredu ar broiectau a chynlluniau i'r ardal. Sefydlwyd bwrdd pontio er bod y cynnydd yn parhau ar gam cynnar, ac ar hyn o bryd nid yw'r canlyniadau posibl ar gyfer y CDLI yn glir. Yn yr un modd, mae'r Awdurdodau sy'n ffurfio'r Brifddinas-Ranbarth yn parhau i weithio ar gais Bergen Ddinesig i ariannu projectau a anelir at hybu cystadleurwydd y rhanbarth dros yr 20 mlynedd nesaf. Yn bwysig iawn, llofnodwyd y ddogfen Bergen Ddinesig gan y 10 arweinydd awdurdodau lleol, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys a'r Prif Weinidog, ym mis Mawrth 2016. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd agenda Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, y Cais Bergen Ddinesig, ac unrhyw oblygiadau dilynol ar gyfer y CDLI mewn AMB'au dilynol lle bo'n briodol.

Cyd-destun Lleol

Adroddiad Uchelgais y Brifddinas

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Gorffennaf 2017 ac mae'n nodi cynllun pum mlynedd gweinyddol y Cyngor ar gyfer y ddinas. Amlinellir gweledigaeth y Cyngor i Gaerdydd ddod yn ddinas flaenllaw ar lwyfan y byd. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedwar prif faes:

- **Gweithio dros Gaerdydd** - Sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yma yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas, ac elwa ohono.
- **Gweithio dros Gymru** - Mae Cymru lwyddiannus angen prifddinas lwyddiannus.
- **Gweithio dros y dyfodol** - Rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy.
- **Gweithio dros wasanaethau cyhoeddus** - Sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy yn wyneb gofynion cynyddol a chyllidebau llai.

Diweddariad ar Ardoll Seilwaith Cymunedol Caerdydd (CIL)

Dechreuodd yr ymgynghoriad ar Atodlen Codi Tâl Drafft CIL yn ystod y cyfnod arolygu presennol. Gan fod y mater hwn bellach wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn aros am canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar y mater hwn cyn penderfynu sut i fynd ymlaen â'r camau nesaf yn y broses baratoi. Mae'r canllawiau hyn i fod i gael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru yn gynnar yn 2018. Rhoddir ystyriaeth bellach i gynnydd y CIL ac unrhyw oblygiadau dilynol i'r CDLI mewn AMB'au dilynol, lle bo'n briodol.

Tueddiadau Economaidd Cyffredinol

Gweithgaredd Economaidd

Yn y tablau isod, gweler y data gweithgaredd economaidd allweddol ar gyfer Caerdydd a Chymru o ddyddiad sylfaen y CDLI 2006 i'r cyfnod monitro cyfredol. Mae'r data'n dangos bod Caerdydd wedi profi perfformiad economaidd gwell mewn perthynas â'r dangosyddion hyn, gyda dangosyddion cyflogaeth, diweithdra ac enillion i gyd yn uwch na dyddiad sylfaen y CDLI yn 2006. Fodd bynnag, ni ystyrir bod newidiadau o'r fath

mor arwyddocaol fel bod ganddynt unrhyw oblygiadau i'r CDLI. Ystyrir y dangosyddion economaidd hyn mewn AMB'au dilynol a chofnodir unrhyw oblygiadau posibl.

Economaidd Weithgar – Mewn Cyflogaeth

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 - Mawrth 2007	66.7%	69.1%
Ebrill 2007 - Mawrth 2009	68.9%	69.3%
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	69.5%	68.4%
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	68.15	66.6%
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	64.7%	66.4%
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	65.5%	66.7%
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	65.5%	67.6%
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	69.4%	69.5%
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	65.6%	69.3%
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	69.2%	71.1%
Hydref 2015 - Medi 2016	67.9%	71.1%

Ffynhonnell: Nomis

Economaidd Weithgar – Di-waith

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 - Mawrth 2007	6.2%	5.3%
Ebrill 2007 - Mawrth 2008	6.1%	5.6%
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	6.9%	6.8%
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	8.7%	8.3%
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	8.9%	8.4%
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	9.1%	8.4%
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	10%	8.3%
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	8.1%	7.4%
Ebrill 2014 – Mawrth 2015	8.4%	6.8%
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	6.7%	5.4%
Hydref 2015 – Medi 2016	5.3%	4.7%

Ffynhonnell: Nomis

Tâl Wythnosol Gros Gweithwyr Llawn-amser (Enillion yn ôl Aelwyd)

	Caerdydd	Cymru
Ebrill 2006 - Mawrth 2007	£442.2	£414.8
Ebrill 2007 - Mawrth 2009	£453.2	£424.8
Ebrill 2008 – Mawrth 2009	£483.0	£444.6
Ebrill 2009 – Mawrth 2010	£499.3	£456.2
Ebrill 2010 – Mawrth 2011	£498.5	£455.1
Ebrill 2011 – Mawrth 2012	£495.4	£454.9
Ebrill 2012 – Mawrth 2013	£503.6	£475.3
Ebrill 2013 – Mawrth 2014	£496.4	£480.0

Ebrill 2014 – Mawrth 2015	£519.0	£487.6
Ebrill 2015 – Mawrth 2016	£531.4	£498.3

Ffynhonnell: Nomis

Prisiau Tai

Fel y dangosir yn y tabl isod, mae data'r Gofrestrfa Tir yn nodi bod prisiau tai cyfartalog cyffredinol wedi cynyddu yng Nghaerdydd dros y cyfnod monitro presennol, ac eithrio chwarter 3 2016 (Gorffennaf i Fedi). Yn dilyn hynny, roedd prisiau cyfartalog ym mis Chwefror 2016 o £232,476 yn uwch na phris gwaelodlin 2006 (£177,469). Dengys y data isod bod prisiau tai wedi codi 9% yn ystod y cyfnod monitro.

Pris Tŷ ar Gyfartaledd yng Nghaerdydd 2006 i 2017

Cyfnod Amser	Pris Tŷ ar Gyfartaledd
2006	£177,469
2007	£184,136
2008	£174,278
2009	£173,100
2010	£183,498
2011	£181,529
2012	£181,690
2013	£190,048
2014	£195,390
2015	£202,970
Chwarter 1 2016	£213,444
Chwarter 2 2016	£216,949
Chwarter 3 2016	£209,904
Chwarter 4 2016	£213,726
Ionawr 2017	£215,652
Chwefror 2017	£232,476

Ffynhonnell: Y Gofrestrfa Tir

Canllawiau Cynllunio Atodol

Mabwysiadwyd nifer o ddogfennau Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi meysydd polisi allweddol y CDLI yn ystod y cyfnod monitro cyfredol. Y rhain yw:

- Tai Amlfeddiannaeth
- Cyfleusterau Casglu a Storio Gwastraff
- Lleoli Cyfleusterau Rheoli Gwastraff
- Rhwymedigaethau Cynllunio
- Adeiladau Uchel
- Canllaw Dylunio Preswyl

Yn ychwanegol, paratowyd ac ymgynghorwyd ar nifer o CCAau yn ystod y cyfnod monitro. Rhagwelir y byddant yn cael eu symud ymlaen i'w cymeradwyo gan y Cabinet a'r Cyngor yn ystod y cyfnod monitro nesaf. Y rhain yw:

- CCA Gofal Plant
- Cynllunio ar gyfer Iechyd
- Canllawiau Dylunio Mewnlenwi
- Canllawiau Estyniadau ac Addasiadau Preswyl
- Seilwaith Gwyrdd (gan gynnwys Nodiadau Canllaw Technegol sy'n ymwneud â Mannau Agored, Ecoleg a Bioamrywiaeth, Coed, Priddoedd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Choridoriau Afonydd)
- Diogelu Busnes a Thir Diwydiannol ac Eiddo
- Defnyddiau Bwyd, Diod a Hamdden

Mae'r gwaith ar CCAs arall yn parhau ac adroddir ar gynnydd ar y rhain yn yr AMB nesaf.

Crynodeb

Fel y manylir uchod, mae deddfwriaeth newydd a chynlluniau, polisiau a strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol wedi dod i'r amlwg yn ystod y cyfnod monitro presennol, a gallai rhai ohonynt fod ag oblygiadau ar gyfer gweithredu'r CDLI yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r newidiadau cyd-destunol a nodwyd hyd yn hyn yn awgrymu angen am adolygiad cynnar o'r Cynllun. Bydd AMB'au dilynol yn parhau i ddarparu diweddariadau ar ddeunydd cyd-destunol perthnasol a allai effeithio ar weithredu'r Cynllun yn y dyfodol.

4. Proses Monitro'r CDLI

Sut gaiff y CDLI ei fonitro?

Mae Adran 5 yn ystyried i ba raddau y mae strategaeth y CDLI yn cael ei gwireddu gan gyfeirio at berfformiad polisiâu penodol yn erbyn y dangosyddion, y targedau a'r sbardunau sydd o fewn fframwaith monitro'r CDLI. Mae strwythur yr adran fel a ganlyn:

Amcan strategol

Dyma'r man cychwyn ar gyfer y broses fonitro. Mae'r AMB yn dyblygu pob un o'r 4 amcan cyffredinol CDLI a nodir isod, y mae polisiâu'r CDLI yn llifo ohonynt.

- **Amcan 1** – Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt a darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflenwi datblygiad
- **Amcan 2** – Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt
- **Amcan 3** – Cyflenwi'r anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydlynol sy'n parchu amgylchedd Caerdydd ac yn ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd
- **Amcan 4** – Creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n ffurfio rhan o ddinas gynaliadwy

Gwybodaeth gyd-destunol

Amlinellir y wybodaeth gyd-destunol arwyddocaol sydd wedi ei chyhoeddi ers mabwysiadu'r Cynllun, lle mae'n berthnasol i bolisi strategol penodol. Bydd hyn yn galluogi'r AMB i benderfynu p'un a yw newidiadau cyd-destunol wedi effeithio ar berfformiad polisi. Gall y rhain gynnwys deddfwriaeth newydd neu ddiwygiedig, cynlluniau, polisiâu neu strategaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, yn ogystal â thueddiadau cymdeithasol ac economaidd allanol a allai effeithio ar gyflawni'r CDLI, fel amodau economaidd. Mae unrhyw newidiadau o'r fath y tu allan i gylch gorchwyl y CDLI.

Dangosyddion

Mae fframwaith monitro'r CDLI yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion craidd a lleol a fydd yn llywio cynnydd a chyflawniad polisi. Arweiniwyd y dewis o'r dangosyddion hyn gan yr angen i nodi dangosyddion allbwn sy'n gallu mesur gweithgareddau ffisegol mesuradwy sy'n uniongyrchol gysylltiedig â gweithredu polisiâu'r CDLI.

Mae nifer o'r dangosyddion craidd naill ai'n cael eu rhagnodi gan Reoliad 37 CDLI neu'n cael eu hargymell yn y Llawlyfr CDLI oherwydd y gallant alluogi asesiad o weithrediad polisi cenedlaethol. Nodwyd dangosyddion craidd pellach ar sail eu gallu i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol ynghylch p'un a yw cyflenwi'r strategaeth CDLI yn mynd rhagddo fel y rhagwelir.

Atega'r dangosyddion lleol y dangosyddion craidd, ac maent wedi'u dewis yn seiliedig ar argaeledd ac ansawdd y data a'u perthnasedd i'r ardal lleol. Hefyd cynhwyswyd rhai dangosyddion cyd-destunol lleol sy'n cynnwys nodweddion allweddol lleol, yn erbyn y rhai y mae polisiâu'r CDLI yn gweithredu.

Targedau

Mae'r dangosyddion polisi yn gysylltiedig â thargedau cyfatebol sy'n darparu meincnod ar gyfer mesur gweithredu polisi. O ystyried hyd cyfnod y cynllun, mae angen cynnwys targedau 'carreg filltir' i benderfynu a yw'r Cynllun yn symud yn ei flaen tuag at gwrdd â'r strategaeth gyffredinol. Mae'r amserlen a bennir i dargedau o'r fath yn ymwneud yn bennaf â chyflenwi'r datblygiad disgwylidig. Bydd y Cyngor yn ymchwilio i unrhyw bolisi sy'n methu â chyrraedd ei darged. Bydd lefel yr ystyriaeth a roddir i bolisiau o'r fath yn yr AMB yn dibynnu ar y rhesymau a nodwyd ar gyfer methiant, ac arwyddocâd y polisi ar gyfer cyflenwi strategaeth y cynllun cyffredinol.

Sbardunau

Hefyd cynhwyswyd lefelau sbardun ar gyfer rhai targedau i helpu i fesur perfformiad y cynllun yn fwy cywir. Byddant yn rhoi syniad pryd nad yw'r targedau polisi yn cael eu diwallu, neu lle mae cynnydd annigonol tuag at eu diwallu.

Dadansoddiad

O ystyried y dangosyddion, targedau, sbarduno a monitro canlyniadau perthnasol, mae'r AMB yn asesu p'un a yw polisiau'r Cynllun yn cael eu gweithredu fel y bwriedir, ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Mae hyn yn cynnwys adnabod ac ymchwilio ymhellach i unrhyw bolisi sy'n methu â chyrraedd ei darged a/neu sydd wedi cyrraedd ei bwynt sbarduno. Fodd bynnag, nid yw'r ffaith bod polisi yn cyrraedd ei lefel sbarduno yn awgrymu bod y polisi'n methu'n awtomatig. Bydd y dadansoddiad yn ystyried a all perfformiad o'r fath fod o ganlyniad i amgylchiadau eithafol, neu a ellir ei gyfiawnhau yng nghyd-destun y fframwaith polisi cyffredinol. Mewn rhai achosion, bu'n anodd nodi tueddiadau ystyrion oherwydd y swm cyfyngedig o ddata sydd ar gael - o ganlyniad, mae rhai o'r casgliadau a luniwyd yn rhagarweiniol a bydd angen eu dilysu yn erbyn cyfnod hwy o fonitro. Mewn achosion lle nad yw'r Cyngor wedi gallu monitro dangosydd neu lle y disodlwyd dangosydd, darperir eglurhad yn yr adran sy'n ymdrin â'r dadansoddi polisi perthnasol.

Argymhellion

Gan ystyried y dadansoddiad polisi, darperir argymhellion priodol gan gynnwys datganiad o unrhyw gamau angenrheidiol sydd angen eu cyflawni. Os canfyddir bod y polisiau'n methu, bydd yr AMB yn nodi argymhellion clir ynglŷn â beth sydd angen ei wneud, os unrhyw beth, i ymdrin â hyn.

Canfyddiadau cyffredinol i bob amcan strategol

Yn olaf, ar gyfer pob amcan strategol, darperir datganiad perfformiad cyffredinol a rhoddir casgliad ynghylch p'un a yw'r amcan penodol hwnnw'n cael ei gyflawni trwy gyfuniad o bolisiau a nodwyd.

Sgôr Goleuadau Traffig Perfformiad Polisi

Fel cymorth gweledol wrth fonitro effeithiolrwydd polisïau strategol y Cynllun ac i ddarparu trosolwg cyfeirio cyflym o berfformiad polisi, cynhwyswyd graddfa 'goleuadau traffig' ar gyfer dangosyddion perthnasol fel a ganlyn:

Parhau i fonitro (Gwyrdd)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes unrhyw achos i'w hadolygu.	
Angen Hyfforddiant (Glas)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLI yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar swyddogion neu aelodau.	
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Porffor)	
Gall y dangosyddion awgrymu bod angen darparu rhagor o ganllawiau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes yn y Cynllun.	
Ymchwil Pellach (Melyn)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisïau'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, a bod angen ymchwil ac archwiliad pellach.	
Adolygiad Polisi (Oren)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisïau'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwil ac archwiliad pellach cyn cadarnhau'r penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.	
Adolygiad Cynllun (Coch)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio'n llawn i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun a'i wneud yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.	

Fframwaith Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd

Mae Monitro'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ehangu'r asesiad o berfformiad y CDLI yn erbyn amcanion monitro Arfarniad o Gynaliadwyedd (AG). Mae'r AG yn nodi 26 o ddangosyddion a ddatblygwyd i fesur effeithiau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol y CDLI. Nodir hyn yn Adran 6 yr AMB.

Yn yr adran hon, ceir asesiad manwl o p'un a weithredir polisiau strategol y Cynllun, a'r polisiau ategol cysylltiedig, fel y bwriedir ac a yw amcanion a strategaeth y CDLI yn cael eu cyflawni. Darperir argymhellion priodol yn dilyn hynny, ynghyd â chymau gweithredu angenrheidiol i ymdrin ag unrhyw faterion gweithredu polisi a nodwyd trwy'r broses fonitro. Yn unol â'r CDLI, nodir y dadansoddiad yn nhrefn polisi strategol.

5. Monitro'r CDLI Dadansoddiad polisi

Dangosyddion Cyd-destunol

Dangosyddion cyd-destunol	Targed	Sbardun	Canlyniad
Cyfradd diweithdra blynyddol	Cyfradd diweithdra blynyddol yn gostwng	Cyfradd diweithdra blynyddol yn cynyddu am 2 flynedd neu fwy yn olynol	5.3%
Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru	Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru yn gostwng	Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru yn cynyddu am 2 flynedd neu fwy yn olynol	Mae data'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru diweddaraf o 2015 yn dangos bod 12% o boblogaeth Caerdydd yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru
Lefel troseddau a gofnodwyd gan yr Heddlu yng Nghaerdydd	Cyfraddau Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn gostwng	Cyfraddau Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn cynyddu am ddwy flynedd neu fwy yn olynol.	Nid oes data ONS ar gael ar hyn o bryd ar gyfer 2017. Yn y chwarter a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2016, roedd cyfraddau troseddau i fyny yng Nghaerdydd (ac yn ardal heddlu De Cymru) o'i gymharu â'r chwarter cyfatebol yn 2015. Cynyddodd cyfraddau troseddau yng Nghaerdydd o 23.08 troseddau fesul mil o drigolion i 25.72 o droseddau fesul mil o drigolion
Canran yr oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgaredd corfforol	Canran yr oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgaredd corfforol yn cynyddu'n flynyddol dros gyfnod y Cynllun	Canran yr oedolion sy'n cwrdd â chanllawiau a argymhellir ar gyfer gweithgaredd corfforol yn gostwng am ddwy flynedd yn olynol	Dywedodd 62% o oedolion eu bod wedi bod yn gorfforol egnïol am fwy na 150 munud yn yr wythnos flaenorol Dywedodd 23% o oedolion eu bod wedi bod yn gorfforol egnïol am lai na 30 munud yn yr wythnos flaenorol
Cyfradd Lleihau Gwastraff	Cyfradd Lleihau gwastraff o 1.2% yn flynyddol i 2050	Cyfradd Lleihau gwastraff yn gostwng o dan 1.2% am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	Cynyddodd swm y gwastraff cartref a gasglwyd ac a gynhyrchwyd rhwng 2014/15 a 2015/16 3% o 170,715 i 177,457 tunnell fetrig

Amcan 1 – Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt a darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflenwi datblygiad

Cyfeirnod OB1 EC1

Polisiau CDLI perthnasol: KP2, KP9, EC1 – EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad	
Craidd Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth.	Dim	Dim	Cyfanswm yr arwynebedd tir a ddyrannwyd = 132 ha Datblygiad cyflogaeth a ganiateir ar safleoedd a ddyrannwyd (Ebrill 2016 i Ebrill 2017) = 11.6 ha. Mae hyn yn cyfateb i 9%	
Dadansoddiad				
Yn y tabl isod ceir dadansoddiad o dir cyflogaeth a ganiatawyd yn ystod y cyfnod monitro ar safleoedd a ddyrannwyd:				
Rhif y cais	Cynnig	Cyfeiriad	Arwynebedd y Safle (ha)	Statws
16/02731/MJR	Codi fflatiau preswyl a swyddfeydd cyfnewidfa trafniadaeth	Tir i'r Gogledd o Orsaf Rheilffordd Ganolog Caerdydd	1.14	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 01/03/2017)
16/01584/MJR	Adeilad swyddfeydd newydd	Tir yn Stryd John, Butetown	0.84	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 22/02/2017)
16/01749/MJR	Adeilad swyddfeydd masnachol defnydd cymysg	Rhif 4 Capital Quarter, Tyndall Street, Cei'r Iwerydd	0.69	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 23/11/2016)
08/02716/C	Datblygiad Swyddfeydd	Plot E04 Callaghan Square	2.4	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd

	(caniatâd amlinellol)			caniatâd 17/11/2016)
14/02733/MJR	Datblygiad preswyl defnydd cymysg yn cynnwys 15,500 metr sgwâr o B1	Gogledd-orllewin Caerdydd	2 (oddeutu)	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 20/03/2017)
14/00852/MJR	Datblygiad defnydd cymysg mawr	Tir i'r Gogledd o Gyffordd 33, M4, Cregiau	6.5	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 08/02/2017)
		Cyfanswm	11.6	

Y tir cyflogaeth a ganiatwyd (ha) ar safleoedd a neilltuwyd yn ystod y cyfnod 1^{af} Ebrill 2016 hyd at 31^{ain} Mawrth 2017, fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth, oedd 9%. Sylwch fod gan ardal sylweddol o'r dyraniad hwn eisoes ôl troed datblygu presennol, neu ei fod eisoes wedi'i ddatblygu yn ystod cyfnod y cynllun CDLI. Ymhellach, disgwylir i gyfran sylweddol o ddatblygiad defnydd preswyl neu gymysg ddod ymlaen, yn ogystal â chynlluniau cyflogaeth yn y parth hwn.

Yn Ardal Fenter Canol Caerdydd, mae nifer sylweddol o geisiadau cynllunio wedi cael caniatâd erbyn hyn, ac mae defnydd tir hefyd wedi bod yn uchel. Mae'r datblygiad ar gyfer datblygiadau swyddfeydd aml-lawr dwysedd uchel, yn unol â Pholisi KP2 (A) Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Bellach, rhoddwyd caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y ddarpariaeth gyflogaeth ofynnol ar Safleoedd Strategol KP2(C) Gogledd-orllewin Caerdydd a KP2(D) i'r Gogledd o Gyffordd 33 ar yr M4.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC2

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP9, EC1-EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
<p>Craidd Y tir cyflogaeth a ddefnyddir yn flynyddol (wedi ei seilio ar waith a gyflawnwyd) yng Nghaerdydd (yn cynnwys ar Safleoedd Strategol - Polisi KP2)</p>	<p>Swyddfeydd (B1) = 27,000-33,400 metr sgwâr yn flynyddol.</p> <p>Diwydiannol (B1 b/c, B2, B8) = 4 i 7 ha yn flynyddol</p>	<p>Swyddfeydd (B1) = defnydd yn fwy na 10% uwchben neu islaw'r targed am 2 flynedd neu fwy yn olynol (B1b/c, B2, B8) = defnydd yn fwy na 10% uwchben neu islaw'r targed am ddwy flynedd neu fwy yn olynol.</p>	<p>Faint o swyddfeydd a ddefnyddir (Ebrill 2016 i Ebrill 2017) = 9760 metr sgwâr (gweler y dadansoddiad)</p> <p>Nifer o ddiwydiannau sy'n manteisio (Ebrill 2016 i Ebrill 2017) = 12.3 ha</p>
Dadansoddiad			
<p>Mae faint o swyddfeydd a ddefnyddir yn seiliedig ar y nifer a gwblhawyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2016 i 31^{ain} Mawrth 2017. Yn y cyfnod hwn cwblhawyd 9790 metr sgwâr o arwynebedd llawr swyddfa trwy ddatblygu'r Capital Quarter, Rhif 2, Tyndall Street. Er bod hyn yn is na'r targed a osodwyd, mae'n bwysig nodi bod Un Sgwâr Canolog yng nghanol y ddinas wedi'i gwblhau yn ddiweddar ym mis Chwefror 2016 sy'n cyfateb i arwynebedd llawr swyddfa o 16,000 metr sgwâr. Ymhellach, mae Fusion Point 3, Dumballs Road hefyd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd (8,830 metr sgwâr), gyda dyddiad cwblhau disgwylidig yn ystod Haf 2017. Yn olaf, mae Capital Quarter Rhif 3, Tyndall Street, yn cael ei adeiladu (8,700 metr sgwâr) gyda'r disgwyliad y bydd wedi'i gwblhau ar gyfer Gaeaf 2017. Pe byddai'r ffigyrau hyn yn cael eu hystyried, byddai hyn yn darparu 33,530 metr sgwâr pellach o arwynebedd llawr swyddfa.</p> <p>Gan ystyried y ffigyrau hyn, credir bod marchnad swyddfeydd Caerdydd yn gryf, ac nid oes unrhyw bryderon mewn perthynas â'r dangosydd hwn.</p> <p>Mae'r nifer o ddiwydiannau sy'n manteisio yn fwy na'r targed sy'n seiliedig ar y nifer a gwblhawyd yn ystod y cyfnod Ebrill 2016 i Ebrill 2017. Fodd bynnag, gellir priodoli 11.2 ha o'r ffigwr hwn i gwblhau Canolfan Ddosbarthu Aldi, Parc Busnes Capital, Gwynllŵg. Nid oes unrhyw bryderon mewn perthynas â'r dangosydd hwn.</p>			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC3

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, EC1-EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Y maint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth mewn safleoedd cyflogaeth lleol a phrif safleoedd cyflogaeth (Polisi EC1)	Dim colled o dir cyflogaeth (Polisi EC1) oni bai bod hynny'n unol â Pholisi EC3.	Colled o un neu fwy o eiddo a feddiennir neu dir ar brif safleoedd cyflogaeth neu safleoedd cyflogaeth lleol (Polisi EC1) oni bai bod hynny'n unol â Pholisi EC3	Dim colli tir cyflogaeth ar safleoedd gwarchoddedig EC1, ac eithrio datblygiadau a ystyriwyd yn ddefnydd ategol o dan Bolisi EC2, neu a ystyriwyd er mwyn bodloni Polisi EC3.
Dadansoddiad			
<p>Mewn perthynas â defnyddiau ategol, cymeradwywyd nifer o gampfeydd ar raddfa fach yn ogystal â dau crèche, yn ychwanegol at un defnydd A3. Ystyriwyd bod yr holl ddatblygiadau hyn yn gyfleusterau ategol priodol yn unol â Pholisi EC2.</p> <p>Cymeradwywyd tair ystafell arddangos cerbydau yn Ardal Heol Penarth/ Hadfield Road (EC1:10). Fodd bynnag, mae'r cynlluniau'n ymgorffori gweithdai, mewn perthynas â thrin/ atgyweirio cerbydau. Byddai hyn yn golygu defnydd B2. O'r herwydd, ni wnaeth y cynlluniau hyn achosi pryderon polisi defnydd tir.</p> <p>Ystyrir felly bod polisi EC1 a EC3 yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.</p>			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC4

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2(A), KP9, EC1 – EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Darpariaeth gyflogaeth ar Safleoedd a Neilltuwyd – (KP2 A – Ardal Fenter Canol Caerdydd)	Dwyseddau cyflogaeth i B1 yn defnyddio o leiaf 14.5 fesul metr sgwâr (gwerth allanol gros)	Nid oes sbardun wedi ei osod hyd yma ond bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.	<p>O fewn y Safle a neilltuwyd (KP2 A) mae 9760 metr sgwâr o arwynebedd llawr swyddfa wedi'i gwblhau (Ebrill 2016 – Ebrill 2017)</p> <p>23,380 metr sgwâr o arwynebedd llawr swyddfa wrthi'n cael ei adeiladu.</p> <p>Mae 157,897 metr sgwâr pellach o arwynebedd llawr swyddfa ar y gweill gyda chaniatâd cynllunio.</p> <p>Am ddadansoddiad unigol, gweler yr adran dadansoddi.</p> <p>I grynhoi, mae nifer sylweddol o geisiadau cynllunio wedi cael caniatâd erbyn hyn, ac mae defnydd tir hefyd wedi bod yn uchel. Mae'r datblygiad ar gyfer datblygiad swyddfeydd aml-lawr dwysedd uchel, yn unol â Pholisi KP2 (A) Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol.</p>

Dadansoddiad

O fewn y Safle a Neilltuwyd (KP2 A) cwblhawyd 9760 metr sgwâr o arwynebedd llawr swyddfa (Ebrill 2016 – Ebrill 2017) (*Noder bod 16,000 metr sgwâr pellach wedi'i gwblhau ym mis Chwefror tu allan i'r cyfnod monitro*)

Ar hyn o bryd mae 23,380 metr sgwâr o arwynebedd llawr swyddfa yn cael ei adeiladu.

Mae 157,897 metr sgwâr pellach o arwynebedd llawr swyddfa ar y gweill gyda chaniatâd cynllunio.

Defnydd

Rhif y cais	Cynnig	Cyfeiriad	Arwynebedd llawr (metr sgwâr)	Statws
13/02267/DCI	Adeilad Swyddfa 6-7 llawr gyda pharcio tanddaearol a gwaith tirlunio	Bloc G, Capital Quarter, Tyndall Street, Cei'r Iwerydd	9760	Wedi'i Gwblhau
14/00385/DCI	Datblygiad Swyddfeydd 9 llawr	1 Sgwâr Canolog, Canol y Ddinas	16,000	Wedi'i Gwblhau (Chwef 2016)
15/02766/MNR	Datblygiad Swyddfeydd 6-7 llawr gyda pharcio ar y llawr isaf	Bloc H, Capital Quarter, Tyndall Street, Cei'r Iwerydd	8700	Yn cael ei adeiladu
16/00857/MJR	Datblygiad swyddfeydd	Fusion Point 3, Dumballs Road	8830	Yn cael ei adeiladu
14/2405/DCI	Dymchwel Marland House, Canolfan Gyfryngau a datblygiad swyddfeydd (Plot 2)	Tir tua'r Gogledd o Orsaf Rheilffordd Ganolog Caerdydd, yn ymgorffori gorsaf bws Caerdydd, Marland House	14,550	Yn cael ei adeiladu

Safleoedd gyda chaniatâd cynllunio

Rhif y cais	Cynnig	Cyfeiriad	Arwynebedd llawr swyddfa (metr sgwâr)	Statws
16/02731/MJR	Codi fflatiau preswyl a swyddfeydd cyfnewidfa trafndiaeth	Tir i'r Gogledd o Orsaf Rheilffordd Ganolog Caerdydd	12,052	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 01/03/2017)
16/01584/MJR	Adeilad swyddfeydd newydd	Tir yn Stryd John, Butetown	40,000	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 22/02/2017)
16/01749/MJR	Adeilad swyddfeydd masnachol defnydd cymysg	Rhif 4 Capital Quarter, Tyndall Street, Cei'r Iwerydd	11,022	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 23/11/2016)
08/02716/C	Datblygiad Swyddfeydd (caniatâd amlinellol)	Plot E04 Callaghan Square	42,883	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 17/11/2016)
14/00430/DCI	Cais hybrid 2150 o anheddau, 48,350 metr sgwâr o swyddfeydd masnachol	Tir yn Dumballs Road, Butetown	48,350	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 02/07/2014)
14/01026/DCI	Datblygiad Swyddfeydd 6 Llawr	Crawshay Court, 6 Curran Road, Butetown	3,590	Heb gychwyn eto (Rhoddwyd caniatâd 16/07/2014)

I grynhoi, mae nifer sylweddol o geisiadau cynllunio wedi cael caniatâd erbyn hyn, ac mae defnydd tir hefyd wedi bod yn uchel. Mae'r datblygiad ar gyfer datblygiadau swyddfeydd aml-lawr dwysedd uchel, yn unol â Pholisi KP2 (A) Ardal Fenter Canol Caerdydd a'r Hyb Trafnidiaeth Rhanbarthol.

Felly ystyrir bod polisi KP2 A yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC5

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2(C), KP9, EC1 – EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Darpariaeth gyflogaeth ar Safleoedd a neilltuwyd – (KP2 C – Gogledd-orllewin Caerdydd)	15,000 metr sgwâr (B1 & B1 (b&c))	Ni osodwyd targed ar hyn o bryd ond bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.	15,500 metr sgwâr B1(a), B1(b) & B1(c) wedi'i gynnwys mewn cais cynllunio (cyf 14/02733/MJR) cymeradwywyd 20/03/2017
Dadansoddiad			
<p>Rhodddwyd caniatâd cynllunio 14/02733/MJR 20/03/2017 i'r datblygiad preswyl defnydd cymysg ar y safle strategol hwn, sy'n cynnwys y lefel targed o arwynebedd llawr B1.</p> <p>Felly ystyrir bod polisi KP2 C yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn</p>			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC6

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2 (D&E), KP9, EC1 – EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Darpariaeth gyflogaeth ar Safleoedd a Neilltuwyd – (KP2 D&E - l'r Gogledd o C33 & l'r De o Creigiau)	3 ha ger C33 + 2.5ha gofod cyflogaeth leol hyblyg	Ni osodwyd targed ar hyn o bryd ond bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.	6.47ha o ofod cyflogaeth yn cynnwys cyfnewidfa wedi'i gynnwys mewn cais cynllunio (cyf 14/00852/MJR) cymeradwywyd 28/02/2017
Dadansoddiad			
<p>Rhodddwyd caniatâd cynllunio 14/00852/MJR 28/02/2017 i'r datblygiad preswyl defnydd cymysg ar y safle strategol hwn, sy'n cynnwys y lefel targed o arwynebedd llawr cyflogaeth.</p> <p>Felly ystyrir bod polisi KP2 D&E yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn</p>			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC7

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2 (F), KP9, EC1 – EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Darpariaeth gyflogaeth ar Safleoedd a Neilltuwyd – (KP2 F - Gogledd-ddwyrain Caerdydd)	6.5ha B1 & B1 (b&c) o ofod cyflogaeth	Nid oes sbardun wedi ei osod hyd yma ond bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.	Ni chyflwynwyd cais hyd yn hyn
Dadansoddiad			
Ni chyflwynwyd cais hyd yn hyn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC8

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2 (H), KP9, EC1 – EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Darpariaeth gyflogaeth ar Safleoedd a Neilltuwyd – (KP2 H – I'r De o Barc Busnes Llanelwng)	80,000 i 90,000 metr sgwâr (B1 (b)/(c))	Nid oes sbardun wedi ei osod hyd yma ond bydd hyn yn cael ei adolygu unwaith y bydd rhagor o fanylion ar gael.	Ni chyflwynwyd cais hyd yn hyn
Dadansoddiad			
Ni chyflwynwyd cais hyd yn hyn. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC9

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP9, EC1 - EC7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Nifer net y swyddi sydd i gael eu creu dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun (Cyfanswm = 40,000 dros gyfnod y Cynllun cyfan, crëwyd 20,900 o swyddi rhwng 2006 a 2015)	19,100 erbyn 2026 neu 1,736 yn flynyddol. Y targed yw creu 1,750 o swyddi'n flynyddol dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun.	Os yw creu swyddi newydd yn flynyddol yn gostwng fwy na 10% yn is na'r gyfradd ddisgwyliedig o 1,750 o swyddi am 2 flynedd neu fwy yn olynol.	Cyfanswm swyddi yng Nghaerdydd - 202,000 yn 2015 (ffigyrau diweddaraf Nomisweb.co.uk, Mai 2017)
Dadansoddiad			
Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC10

Polisiâu CDLI perthnasol: R1-R8

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Unedau A1 (manwerthu) gweithredol o fewn Canolfannau Ardal a Lleol yn parhau i fod y prif ddefnydd.	Unedau A1 yn cynnwys 40% o bob uned o fewn Canolfannau Ardal a Lleol (Lefel Sylfaen yn 2013).	Unedau A1 yn cynnwys llai na 40% o bob uned mewn canolfan.	Canolfannau Ardal – Cyfartaledd o 46% unedau manwerthu A1 gweithredol o fewn canolfannau. Canolfannau Lleol – Cyfartaledd o 47% unedau manwerthu A1 gweithredol o fewn canolfannau. Am ddadansoddiad unigol, gweler yr adran ddadansoddi.

Dadansoddiad

Canolfannau Ardal

<i>Canolfan Ardal</i>	<i>Cyfanswm nifer yr unedau</i>	<i>Nifer o unedau gweithredol A1 (manwerthu)</i>	<i>Canran unedau A1 gweithredol (manwerthu)</i>
Albany Road/Wellfield Road	197	98	50%
Heol y Plwca	164	67	41%
Clifton Street	98	50	60%
Heol Ddwyreiniol y Bont-faen	195	85	44%
Crwys Road/Woodville Road	132	51	39%
Stryd Bute/James Street	61	19	31%
Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd	94	50	53%
Heol Penarth/Clare Road	68	35	51%

Llaneirwg	20	8	40%
Draenen Pen-y-graig	7	4	57%
Whitchurch Road	119	45	38%
		Cyfartaledd	46%

Y ganran gyfartalog o unedau manwerthu A1 gweithredol o fewn Canolfannau Ardal yw 46 y cant. Mae mwyafrif y Canolfannau Ardal yn rhagori ar y targed o 40 y cant ac eithrio Bute St/James Street, Crwys Road/Woodville Road ac Whitchurch Road.

Cydnabyddir bod gan Stryd Bute/ James Street yn hanesyddol elfen fawr o fwytai/caffis o ystyried y lleoliad o fewn Mermaid Quay, Bae Caerdydd. Nid yw bod 9% islaw'r targed o 40% o ran unedau manwerthu gweithredol yn achosi pryder yn yr achos hwn. Mae hyn oherwydd y bu cynnydd o 4% mewn manwerthu A1 yn y ganolfan hon ers 2013 (fel y gwelir o'r dystiolaeth ym Mhapur Technegol Cefndirol Rhif 7 Medi 2013). Mae hyn hefyd wedi digwydd yn Crwys Road, lle bu cynnydd o 3% mewn unedau manwerthu gweithredol. Mae Whitchurch Road hefyd wedi gweld cynnydd bach o 2%. Mae'r ddwy ganolfan olaf felly'n sicr ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed o 40% yn ystod cyfnod y cynllun.

Canolfannau Lleol

<i>Canolfan Leol</i>	<i>Cyfanswm nifer yr unedau</i>	<i>Nifer o unedau gweithredol A1 (manwerthu)</i>	<i>Canran o unedau gweithredol A1 (manwerthu)</i>
Birchgrove	44	19	43%
Stryd Bute (Sgwâr Loudoun)	10	8	80%
Heol y Gadeirlan	28	16	57%
Countisbury Avenue	35	19	54%
Caerau Lane	9	5	56%
Fairwater Green	16	7	44%
Gabalfa Avenue	15	5	33%
Grand Avenue	15	8	53%
Stryd Fawr, Llandaf	33	11	33%
Maelfa, Llanedern*	Amh.*	Amh.*	Amh.*
Heol Casnewydd, Tredelerch	46	22	48%
Pentref Rhiwbeina	46	25	54%
Salisbury Road	44	15	34%
Splott Road	37	11	30%
Station Road, Llanisien	29	15	52%
Station Road, Ystum Taf	25	12	48%
Station Road, Radur	14	8	57%
Tudor Street	34	12	35%
Willowbrook Drive	5	1	20%
Wilson Road	15	8	53%
		Cyfartaledd	47%

** Mae Canolfan Leol Maelfa yn mynd drwy ailddatblygiad defnydd cymysg ar hyn o bryd (Cais Cynllunio 11/1082/DCO)*

Y ganran gyfartalog o unedau manwerthu A1 gweithredol o fewn Canolfannau Lleol yw 47 y cant. Mae mwyafrif y Canolfannau Lleol yn rhagori ar y targed o 40 y cant ac eithrio Gabalfa Avenue, Stryd Fawr, Llandaf, Salisbury Road, a Tudor Street. Mae'r canolfannau hyn yn disgyn ychydig islaw'r trothwy o 40%. Creffir ar unrhyw ddefnydd arall nad yw'n ddefnydd siopa yn y canolfannau hyn yng ngoleuni'r dystiolaeth hon; fodd bynnag, bydd pob achos yn cael ei asesu yn ôl ei deilyngdod.

Mae Splott Road a Willowbrook Drive yn disgyn yn llawer is na'r targed o 40%. Mae Splott Road wedi gweld cyfradd llefydd gwag uchel dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac ymddengys bod y duedd hon yn parhau, er gwaethaf y dynodiad polisi manwerthu.

Mae Willowbrook Drive hefyd wedi methu â denu meddianwyr A1 newydd yn ystod cyfnod y cynllun, gyda dwy uned manwerthu fawr wedi bod yn wag ers dros 10 mlynedd. Mae'r llefydd gwag hirdymor hyn wedi denu gwahanol fathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel dwyn, difrod, graffiti, tipio anghyfreithlon a fandaliaeth.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Mae mwyafrif y canolfannau yn darparu swyddogaeth manwerthu gref. Craffwch yn ofalus ar geisiadau pellach ar gyfer newid defnydd unedau A1 yn y canolfannau lleol canlynol: Gabalfa Avenue, Stryd Fawr, Llandaf, Salisbury Road a Tudor Street. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC11

Polisiâu CDLI perthnasol: R2, R3

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Y gyfran o ffryntiadau siop Canol Dinas a ddiogelir gyda mwy na 50% o unedau (Siop) Dosbarth A1.	100%	90%	54 (84.4%) o 64 o ffryntiadau siop a ddiogelir yng nghanol y ddinas â dros 50% o Unedau Dosbarth A1.
Dadansoddiad			
<ul style="list-style-type: none">• Cyhoeddir Arolwg Defnydd Tir ac Arwynebedd Llwr Canol y Ddinas y Cyngor (LUFS) bob hydref.• Nododd arolwg Hydref 2016 bod 54 (84.4%) allan o 64 o ffryntiadau siop a ddiogelir yng nghanol y ddinas yn cynnwys dros 50% o unedau Dosbarth A1.• Dylid nodi bod y 10 o Ffryntiadau Siop a Ddiogelir a nodwyd fel rhai sy'n syrthio islaw'r trothwy o 50% yn ffryntiadau gwannach nad ydynt yn hanesyddol wedi cyflawni 50%, ond eu bod wedi'u cynnwys fel ffryntiadau a ddiogelir yn y CDLI oherwydd eu gwerth grŵp yn yr Ardal Siopa Ganolog (CSA).			
Argymhellion			
<ul style="list-style-type: none">• I ddiben symud y dangosydd hwn ymlaen, argymhellir bod 54 o ffryntiadau siop a ddiogelir yn cynrychioli'r targed 100% ar gyfer monitro'r meincnod hwn yn y dyfodol.• Nid oes unrhyw weithredu yn cael ei sbarduno dan y flwyddyn gyntaf o fonitro perfformiad.			

Cyfeirnod OB1 EC12

Polisiâu CDLI perthnasol: KP10, R1-R8

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Canran unedau manwerthu gwag ar y llawr isaf yn yr Ardal Siopa Ganolog, Canolfannau Ardal a Lleol	Nid yw'r lefelau llefydd gwag yn uwch na chyfartaledd cenedlaethol y DU (12%). Y lefelau llefydd gwag presennol yng Nghaerdydd yw 9% (Canol y Ddinas), 10% (Canolfannau Ardal) a 9% (Canolfannau Lleol)	Y lefelau llefydd gwag yn codi'n uwch na chyfartaledd cenedlaethol y DU am fwy na 2 flynedd yn olynol	<p>Canolfannau Ardal – Cyfartaledd o 6% o gyfradd llefydd gwag o fewn canolfannau.</p> <p>Canolfannau Lleol – Cyfartaledd o 7% o gyfradd llefydd gwag o fewn canolfannau.</p> <p>Am ddadansoddiad unigol, gweler yr adran dadansoddi.</p> <p>13.9% o unedau manwerth llawr isaf yr Ardaloedd Siopa Canolog (CSA) yn wag ar hyn o bryd (Hydref 2016). Mae hyn yn cyfateb i 9.4% o arwynebedd llawr manwerthu llawr isaf y CSA (metr sgwâr).</p>
Dadansoddiad			
Canolfannau Ardal			
Canolfan Ardal	Cyfanswm nifer yr unedau	Nifer yr unedau manwerthu gwag	Canran yr unedau manwerthu gwag
Albany Road/Wellfield Road	197	6	3%
Heol y Plwca	164	14	9%
Clifton Street	98	4	4%

Heol Ddwyreiniol y Bont-faen	195	7	4%
Crwys Road/Woodville Road	132	11	8%
Stryd Bute/James Street	61	10	16%
Merthyr Road, Yr Eglwys Newydd	94	4	4%
Heol Penarth/Clare Road	68	7	10%
Llaneirwg	20	1	5%
Draenen Pen-y-graig	7	0	0%
Whitchurch Road	119	8	7%
		Cyfartaledd	6%

Mae'r holl ganolfannau Ardal yn disgyn o dan y sbardun llefydd gwag o 10%, ac eithrio Stryd Bute/James Street sydd â chyfradd o 16% o lefydd gwag. Parhau i fonitro y ganolfan hon o ran gwelliannau'r flwyddyn nesaf.

Canolfannau Lleol

Canolfan Leol	Cyfanswm nifer yr unedau	Nifer yr unedau manwerthu gwag	Canran yr unedau manwerthu gwag
Birchgrove	44	2	5%
Stryd Bute (Sgwâr Loudoun)	10	0	0%
Heol y Gadeirlan	28	0	0%
Countisbury Avenue	35	1	3%
Caerau Lane	9	1	11%
Fairwater Green	16	1	6%
Gabalfa Avenue	15	1	7%
Grand Avenue	15	1	7%
Stryd Fawr, Llandaf	33	0	0%
Maelfa, Llanedern*	Amh.*	Amh.*	Amh.*
Heol Casnewydd, Tredelerch	46	2	4%
Pentref Rhiwbeina	46	3	7%
Salisbury Road	44	3	7%
Splott Road	37	7	19%
Station Road, Llanisien	29	0	0%
Station Road, Ystum Taf	25	1	4%
Station Road, Radur	14	0	0%
Tudor Street	34	5	15%
Willowbrook Drive	5	2	40%
Wilson Road	15	1	7%
		Cyfartaledd	7%

* Mae Canolfan Leol Maelfa yn mynd drwy ailddatblygiad defnydd cymysg ar hyn o bryd (Cais Cynllunio 11/1082/DCO)

Mae'r holl Ganolfannau Lleol yn disgyn o dan y sbardun llefydd gwag o 9% ac eithrio Caerau Lane, Tudor Street, Splott Road a Willowbrook Drive. Nodir mai dim ond 1 uned wag sydd yn Caerau Lane, felly nid yw hwn yn achos pryder. Mae gan

Tudor Street gyfradd llefydd gwag o 15%, a bydd yn parhau i gael ei fonitro ar gyfer gwelliannau'r flwyddyn nesaf.

Mae Splott Road a Willowbrook Drive yn mynd tu draw i'r sbardun o 9%. Nodir bod Splott Road wedi gweld cyfradd llefydd gwag uchel dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Mae Willowbrook Drive hefyd wedi methu â denu meddianwyr A1 newydd yn ystod cyfnod y cynllun, gyda dwy uned manwerthu mawr wedi bod yn wag ers dros 10 mlynedd. Mae'r llefydd gwag hirdymor hyn wedi denu gwahanol fathau o ymddygiad gwrthgymdeithasol fel dwyn, difrod, graffiti, tipio anghyfreithlon a fandaliaeth.

Bydd monitro dros y blynyddoedd nesaf yn dangos os yw'r tueddiadau hyn yn parhau.

Canol y Ddinas

Cyhoeddir Arolwg Defnydd Tir ac Arwynebedd Llawr Canol y Ddinas y Cyngor (LUFS) bob hydref.

Nododd arolwg Hydref 2016 bod 13.9% o unedau manwerthu llawr isaf yr Ardaloedd Siopa Canolog (CSA) ar hyn o bryd yn wag (ym mis Hydref 2016). Dylid nodi, fodd bynnag, bod hynny'n gyfystyr â dim ond 9.4% o arwynebedd llawr manwerthu llawr isaf y CSA (metr sgwâr).

Ystyrir bod lefel yr unedau gwag yng Nghanolfan Siopa'r Capitol wedi effeithio'n rhannol ar y ffigur a gofnodwyd yn 2016, sydd wedi codi o 21.4% (6 allan o 28 uned) yn 2013 i 46.4% (13 allan o 28 uned) yn 2016. Ystyrir bod y lefel uwch hon o lefydd gwag yn fater dros dro tra bod cynigion ailddatblygu'r ganolfan yn cael eu hystyried.

Gan fod yr arolwg yn cael ei gynnal dros gyfnod o 5 diwrnod, nid yw'n cydnabod lle gallai uned fod yn wag dros dro oherwydd bod newid mewn meddianwyr ar fin digwydd. Mae 2016 yn nodi blwyddyn gyntaf yr arolwg ar gyfer y CDLI, ac wrth iddo adeiladu flwyddyn ar ôl blwyddyn, bydd yn bosibl gwahaniaethu rhwng unedau gwag tymor byr a hirdymor.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Mae'r cyfraddau llefydd gwag yn bennaf islaw'r trothwy angenrheidiol. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC13

Polisiâu CDLI perthnasol: KP10, R1, R2, R3, R4, R5, R6, R7 & R8

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Nifer o Ddatblygiadau Manwerthu a ganiateir y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal nad ydynt yn unol â Pholisi R6 ac asesiad o angen a defnydd tynn o'r prawf dilyniannol	Dim Datblygiadau Manwerthu yn cael eu caniatáu tu allan i'r ardaloedd hyn (oni bai bod hynny'n unol â Pholisi R6 ac asesiad o angen a defnydd tynn o'r prawf dilyniannol)	1 neu fwy o Ddatblygiadau Manwerthu yn cael eu caniatáu tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a Chanolfannau Ardal nad ydynt yn unol â Pholisi R6 ac asesiad o angen a defnydd tynn o'r prawf dilyniannol	Cymeradwywyd 27 o geisiadau am ddatblygiad manwerthu y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal. Roedd asesiad o angen a phrawf dilynol ynghyd â 7 cais. Nid oedd yr 20 arall yn cynnwys asesiad oherwydd nad oedd yr amgylchiadau penodol yn ei wneud yn angenrheidiol (fel yr amlinellir isod).
Dadansoddiad			
<p>Yn ystod y cyfnod monitro cymeradwywyd 27 o geisiadau ar gyfer datblygiadau o fewn Dosbarth Defnydd A neu fel rhan o ddatblygiad defnydd cymysg, yn cynnwys Dosbarth Defnydd y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal. O'r rhain roedd 20 yn cynnwys arwynebedd llawr manwerthu ychwanegol ac nid oeddent wedi cyflwyno asesiad o angen nac wedi dangos eu bod yn bodloni'r prawf dilyniannol oherwydd nad oedd yr amgylchiadau penodol yn ei wneud yn angenrheidiol. Amlinellir y rhesymau dros hyn isod:-</p> <p>Ym mhob achos, roedd yr arwynebedd llawr manwerthu a gynigiwyd ar raddfa fach (llai na 200 metr sgwâr) ac ymhell islaw trothwy TAN4 o 2,500 metr sgwâr. Hefyd;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Roedd 1 cais ar ymyl y ganolfan, roedd yr adeilad eisoes â defnydd A2 ac roedd y newid defnydd yn ymwneud ag academi hyfforddi trin gwallt • Roedd 4 cais yn ategol i ddatblygiad llety preswyl a/neu fyfyrwyr a'r brifysgol • Roedd 4 cais yn cynnwys arwynebedd llawr manwerthu newydd mewn ardaloedd masnachol mewn adeiladau heb eu dynodi ond a oedd yn bodoli eisoes • Roedd 3 chais ar gyfer siopau coffi A3 manwerthu ar raddfa fach • Roedd 3 chais yn ddefnyddiau A3 a ystyriwyd oedd yn darparu cyfleusterau cyflenwol mewn maes cyflogaeth a ystyriwyd oedd yn unol â Pholisi EC2 			

- Roedd 3 chais yn ymwneud â nwyddau swmpus a ystyriwyd oedd yn unol â Pholisi R6 a pharagraff 5.287 y testun atodol
- Roedd 1 cais yn cynnwys ailgyflunio mewnol arwynebedd llawr mesanîn i wella mynediad a chylchrediad, ac;
- Roedd 1 cais yn arbenigo mewn natur ac yn ymwneud â siop fferm ar raddfa fach wedi'i lleoli mewn canolfan arddio.

Felly ystyrir bod polisi R6 yn gweithredu'n effeithiol. Bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r dangosydd hwn i bennu effeithiolrwydd y fframwaith polisi sy'n ymwneud â'r mater hwn.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC14

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Cyflawni rhaniad moddol 50:50 i bob taith erbyn 2026	Cynyddu'r gyfran o deithio cynaliadwy y rhaniad moddol o 1% y flwyddyn i bob pwrpas teithio: 1) Gwaith = 45.2% (2014) 2) Addysg = 57.8% (2014) 3) Siopa (Canol y Ddinas) = 67.1% (2014) 4) Siopa (Arall) = 43.2% (2014) 5) Hamdden = 58% (2014)	Methiant i gyflawni cynnydd blynyddol o 1% i bob pwrpas teithio am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	1) Gwaith: 2014 = 45.2% 2015 = 45.0% (-0.2%) 2016 = 48.1% (+3.1%) 2) Addysg: 2014 = 57.8% 2015 = 50.4% (-7.4%) 2016 = 59.6% (+9.2%) 3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 67.1% 2015 = 66.0% (-1.1%) 2016 = 67.9% (+1.9%) 4) Siopa (Arall): 2014 = 43.2% 2015 = 41.3% (-1.9%) 2016 = 45.6% (+4.3%) 5) Hamdden: 2014 = 58.0% 2015 = 54.8% (-3.2%) 2016 = 60.2% (+5.4%)


Dadansoddiad

Er na chyflawnwyd cynnydd blynyddol o 1% rhwng gwaelodlin 2014 a 2015, gyda gostyngiad yn y gyfran o deithio cynaliadwy i bob pwrpas teithio; bu cynnydd sylweddol ers hynny, rhwng 2015 a 2016. Mae'r cynnydd hwn yn llawer uwch na'r newid moddol blynyddol angenrheidiol o 1%, ac ym mhob achos mae'r gwerth yn 2016 hefyd yn sylweddol uwch nag yn 2014. Crynhoir y canlyniadau ar gyfer 2014 hyd at 2016 isod –

	2014	2015	2016	Newid 2014-2015	Newid 2015-2016	Newid 2014-2016
Gwaith	45.2%	45.0%	48.1%	-0.2%	+3.1%	+2.9%
Addysg	57.8%	50.4%	59.6%	-7.4%	+9.2%	+1.8%
Siopa (Canol y Ddinas)	67.1%	66.0%	67.9%	-1.1%	+1.9%	+0.8%

Siopa (Arall)	43.2%	41.3%	45.6%	-1.9%	+4.3%	+2.4%
Hamdden	58.0%	54.8%	60.2%	-3.2%	+5.4%	+2.2%

Er mwyn rhoi hyder pellach mai'r tueddiad cyffredinol yw bod teithio trwy ddulliau cynaliadwy yn cynyddu, lluniwyd isod y cyfartaledd treigl 5 mlynedd hanesyddol i bob pwrpas teithio –



O'r uchod gellir gweld tystiolaeth glir bod teithio i Waith a Siopa yn cael ei wneud fwyfwy drwy ddulliau cynaliadwy. Noder fod Hamdden ac Addysg wedi'u cynnwys yn yr uchod er mwyn cyflawnrwydd, ond dim ond cyn belled yn ôl â 2010 y mae'r data amrwd blynyddol ar gyfer y rhain yn ymestyn; felly ni ellir sefydlu cyfartaledd treigl 5 mlynedd cyn 2014, ac felly nid oes digon o ddata i bennu'r duedd hirdymor ar gyfer y rhain.

Ar hyn o bryd, cyflawnir 50:50 ar gyfer teithiau Addysg, teithiau Siopa (Canol y Ddinas) a theithiau Hamdden. Yn y cyfamser, mae teithiau Gwaith a Siopa (Arall) ar darged i gyrraedd 50:50 erbyn 2026 fel sydd ei angen.

Argymhellion

Parhau i weithio gyda datblygwyr i gyflawni'r seilwaith sy'n angenrheidiol i gwrdd â 50:50 ar draws yr holl bwrpasau teithio erbyn 2026. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC15


Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Canran o bobl sy'n cerdded (bob taith)	Cynnydd blynyddol yn y teithiau a wneir wrth gerdded i bob pwrpas teithio: 1) Gwaith = 15.9% (2014) 2) Addysg = 24.1% (2014) 3) Siopa (Canol y Ddinas) = 16.7% (2014) 4) Siopa (Arall) = 22.3% (2014) 5) Hamdden = 19% (2014)	Methiant i gyflawni cynnydd blynyddol i bob pwrpas teithio am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	1) Gwaith: 2014 = 15.9% 2015 = 16.6% (↑) 2016 = 17.9% (↑) 2) Addysg: 2014 = 24.1% 2015 = 22.6% (↓) 2016 = 27.6% (↑) 3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 16.7% 2015 = 16.5% (↓) 2016 = 18.4% (↑) 4) Siopa (Arall): 2014 = 22.3% 2015 = 22.2% (↓) 2016 = 23.5% (↑) 5) Hamdden: 2014 = 19.0% 2015 = 18.9% (↓) 2016 = 21.8% (↑)
Dadansoddiad			
Cyflawnwyd cynnydd blynyddol o 1% o ran cerdded i'r gwaith rhwng gwaelodlin 2014 a 2015, a gwaelodlin 2015 a 2016. Fodd bynnag, o ran pwrpas teithio arall, bu gostyngiad mewn cerdded rhwng gwaelodlin 2014 a 2015. Serch hynny, nid yn unig y gwelir bod gwerth 2016 yn uwch ym mhob achos na gwerth 2015, mae hefyd yn sylweddol uwch na 2014, gan nodi cynnydd cyffredinol mewn cerdded i bob pwrpas teithio. Crynhoir y canlyniadau ar gyfer 2014 hyd at 2016 isod –			

	2014	2015	2016	Newid 2014 i 2015	Newid 2015 i 2016	Newid 2014 i 2016
Gwaith	15.9%	16.6%	17.9%	0.7%	1.3%	2.0%
Addysg	24.1%	22.6%	27.6%	-1.5%	5.0%	3.5%
Siopa (Canol y Ddinas)	16.7%	16.5%	18.4%	-0.2%	1.9%	1.7%
Siopa (Arall)	22.3%	22.2%	23.5%	-0.1%	1.3%	1.2%
Hamdden	19.0%	18.9%	21.8%	-0.1%	2.9%	2.8%

Er mwyn rhoi hyder pellach mai'r tueddiad cyffredinol yw bod teithio drwy gerdded yn cynyddu, lluniwyd isod y cyfartaledd treigl 5 mlynedd hanesyddol i bob pwrpas teithio –



O'r uchod, gellir gweld mai'r duedd hirdymor yw bod cyfran y rhai sy'n cerdded i Waith a Siopa yn cynyddu. Noder fod Hamdden ac Addysg wedi'u cynnwys yn yr uchod er mwyn cyflawnrwydd, ond dim ond cyn belled yn ôl â 2010 y mae'r data amrwd blynyddol ar gyfer y rhain yn ymestyn; felly ni ellir sefydlu cyfartaledd treigl 5 mlynedd cyn 2014, ac felly nid oes digon o ddata i bennu'r duedd hirdymor ar gyfer y rhain.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC16


Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Canran o bobl sy'n beicio (bob taith)	Cynnydd blynyddol yn y teithiau a wneir gyda beic i bob pwrpas teithio: 1) Gwaith = 10.6% (2014) 2) Addysg = 9.5% (2014) 3) Siopa (Canol y Ddinas) = 5.9% (2014) 4) Siopa (Arall) = 5.7% (2014) 5) Hamdden = 10.1% (2014)	Methiant i gyflawni cynnydd blynyddol i bob pwrpas teithio am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	1) Gwaith: 2014 = 10.6% 2015 = 10.0% (↓) 2016 = 11.3% (↑) 2) Addysg: 2014 = 9.5% 2015 = 8.9% (↓) 2016 = 9.6% (↑) 3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 5.9% 2015 = 5.9% () 2016 = 6.6% (↑) 4) Siopa (Arall): 2014 = 5.7% 2015 = 5.3% (↓) 2016 = 6.0% (↑) 5) Hamdden: 2014 = 10.1% 2015 = 9.6% (↓) 2016 = 10.0% (↑)
Dadansoddiad			
<p>I bob pwrpas teithio, mae'r gyfran sy'n beicio naill ai wedi gostwng neu wedi aros yr un fath rhwng gwaelodlin 2014 a 2015. Fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n beicio wedi cynyddu ers 2015 a 2016, ac mae gwerthoedd 2016 hefyd yn uwch na rhai 2014, ac eithrio hamdden, gan ddangos cynnydd cyffredinol mewn beicio. Crynhoir isod y canlyniadau o 2014 i 2016 –</p>			


	2014	2015	2016	Newid 2014 i 2015	Newid 2015 i 2016	Newid 2014 i 2016
Gwaith	10.6%	10.0%	11.3%	-0.6%	1.3%	0.7%
Addysg	9.5%	8.9%	9.6%	-0.6%	0.7%	0.1%
Siopa (Canol y Ddinas)	5.9%	5.9%	6.6%	0.0%	0.7%	0.7%
Siopa (Arall)	5.7%	5.3%	6.0%	-0.4%	0.7%	0.3%
Hamdden	10.1%	9.6%	10.0%	-0.5%	0.4%	-0.1%

Er mwyn rhoi hyder pellach mai'r tueddiad cyffredinol yw bod teithio drwy feicio yn cynyddu, lluniwyd isod y cyfartaledd treigl 5 mlynedd hanesyddol i bob pwrpas teithio –



Dengys yr uchod bod cynnydd sylweddol yn y gyfran sy'n beicio ar gyfer bob pwrpas teithio, serch bod data hanesyddol Hamdden ac Addysg yn gyfyngedig fel na ellir sefydlu tueddiadau hirdymor ar gyfer y rhain yn ddibynadwy. Mae'n werth nodi fod y gyfran sy'n beicio bron wedi dyblu rhwng 2008 a 2016, tra bod y gyfran sy'n beicio ar gyfer teithiau siopa wedi treblu dros yr un cyfnod. Mae'r duedd hefyd yn dangos bod Caerdydd ar darged i gyflawni'r dyblu angenrheidiol yn nifer y beicwyr sy'n ofynnol gan y Strategaeth Beicio rhwng 2015 a 2016.

Er mwyn dangos ymhellach y cynnydd yn y lefelau o ddefnyddio beic, darperir isod y tueddiadau cyfartalog treigl 5 mlynedd ar gyfer y nifer beicwyr dyddiol sy'n croesi cordon Canol y Ddinas (12 awr 2-ffordd, yn seiliedig ar gyfrifon dosbarthedig y Cyngor). Mae hyn yn dangos bod nifer y beicwyr yng Nghanol y Ddinas wedi codi tua 65% rhwng 2002 a 2016, sy'n cyfateb i gynnydd cymharol o tua 5% y flwyddyn.



Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC17

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9


Newidiadau Cyd-destunol: Caewyd adeilad blaenorol Gorsaf Bws Caerdydd ym mis Awst 2015, a bydd yr Hyb Trafnidiaeth Integredig newydd yn cymryd ei le. Cafwyd gostyngiad mewn cymhorthdal bws ar gyfer 2014/2015, fel y trafodwyd yn yr Adroddiad Craffu Amgylcheddol ar 08/05/14 – Eitem Agenda 4 "Llwybrau Bws a Chymorthdaliadau", gyda gostyngiadau pellach yn 2015/2016, gan arwain at ostyngiad yn amlder y gwasanaeth ar rai gwasanaethau, a gostyngiad o ran darpariaeth gwasanaeth yn ystod y nos ac ar ddydd Sul. Yn y cyfamser, cyflwynwyd gwasanaethau traws-dinas newydd, gyda'r X1 ym mis Mai 2015, ac yna'r X11 ym mis Ionawr 2016, a'r X8 a X45 ym mis Mawrth 2017. Ceir rhestr o seilwaith sy'n cael ei ddarparu a'r arian a sicrhawyd yn OB1 EC21-22 ac SA4a.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Canran o bobl sy'n teithio gyda bws (bob taith)	Cynnydd blynyddol yn y teithiau a wneir gyda bws i bob pwrpas teithio: 1) Gwaith = 11.1% (2014) 2) Addysg = 13% (2014) 3) Siopa (Canol y Ddinas) = 29.4% (2014) 4) Siopa (Arall) = 8.6% (2014) 5) Hamdden = 11.2 (2014)	Methiant i gyflawni cynnydd blynyddol i bob pwrpas teithio am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	1) Gwaith: 2014 = 11.1% 2015 = 10.7% (↓) 2016 = 10.0% (↓) 2) Addysg: 2014 = 13.0% 2015 = 11.6% (↓) 2016 = 12.8% (↑) 3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 29.4% 2015 = 29.4% () 2016 = 26.7% (↓) 4) Siopa (Arall): 2014 = 8.6% 2015 = 8.4% (↓) 2016 = 8.9% (↑) 5) Hamdden: 2014 = 11.2% 2015 = 10.8% (↓) 2016 = 10.5% (↓)
Dadansoddiad			
Yn bwysig iawn, defnydd bws fel modd yw'r gyfran fwyaf (mwy na chwarter) o deithiau Siopa i Ganol y Ddinas, yn ail i'r rhai sy'n teithio mewn car. Mae lefelau defnydd bws yn gyffredinol wedi gostwng neu wedi aros yr un fath rhwng gwaelodlin 2014 a 2015. Er bod lefelau defnydd bws wedi cynyddu ers hynny ar gyfer teithiau			


Addysg a Siopa (Arall) rhwng 2015 a 2016, mae'r pwrpasau teithio eraill wedi gostwng mwy eto dros y cyfnod hwn. Crynhoir isod y canlyniadau o 2014 i 2016–

	2014	2015	2016	Newid 2014 i 2015	Newid 2015 i 2016	Newid 2014 i 2016
Gwaith	11.1%	10.7%	10.0%	-0.4%	-0.7%	-1.1%
Addysg	13.0%	11.6%	12.8%	-1.4%	1.2%	-0.2%
Siopa (Canol y Ddinas)	29.4%	29.4%	26.7%	0.0%	-2.7%	-2.7%
Siopa (Arall)	8.6%	8.4%	8.9%	-0.2%	0.5%	0.3%
Hamdden	11.2%	10.8%	10.5%	-0.4%	-0.3%	-0.7%

Mae'r uchod yn symptomatig o duedd hirdymor yn y dirywiad o ran defnydd bws, fel y dangosir yn y siart isod –



Fodd bynnag, nid yw'r dirywiad mewn defnydd bws yn benodol i Gaerdydd, ac mae'n dilyn y tueddiadau cenedlaethol o ran nifer teithiau bws yng Nghymru, fel y'u cyflwynir isod –



Fel tystiolaeth bellach, cyflwynir isod gymhariaeth o foddhad â bysiau rhwng 2009 a 2016, yn seiliedig ar ddata o Arolwg Holi Caerdydd. Mae hyn yn dangos gostyngiad cyffredinol sylweddol mewn lefelau boddhad â bysiau dros y cyfnod hwn. Wedi dweud hyn, mae'r boddhad cyffredinol gyda thrafnidiaeth gyhoeddus wedi cynyddu o 58% yn 2015 i 64% yn 2016 –

	2009	2016	Newid
Darparu Gwybodaeth Amser Real	62%	50%	-12%
Dibynadwyedd Gwasanaeth Bysiau	66%	55%	-11%
Cyflwr Gorsafoedd / Arosfannau Bysiau	60%	56%	-4%
Amllder Gwasanaeth Bysiau	70%	57%	-13%
Darparu Gwybodaeth PT	67%	55%	-12%
Gwasanaeth Bws yn gyffredinol	62%	57%	-5%

Yn y pen draw, fodd bynnag, mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar lefelau'r defnydd o fysiau, megis tagfeydd sy'n arwain at lai o ddibynadwyedd, ond hefyd maent yn destun i ffactorau allanol, megis prisiau cynyddol a phrisiau tanwydd cymharol.

Argymhellion

Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn archwilio dulliau i fesur amseroedd teithio bws a dibynadwyedd, ac i gymharu'r rhain rhwng bysiau a cheir, a sefydlu mesur o'r tagfeydd; gan ddefnyddio offer fel set ddata TrafficMaster DfT a'r VIX BusNet Operator Reports System. Ymhellach, mae'r Cyngor yn canfasio barn defnyddwyr ar ddarpariaeth bws trwy ei Arolwg Holi Caerdydd blynyddol, ac mae'n bwriadu casglu data helaeth ar gyfer y coridorau strategol. Gyda'i gilydd, dylai'r data hwn, a fydd ar gael cyn adroddiad y flwyddyn nesaf, helpu i egluro tueddiadau diweddar mewn defnydd bws, ac awgrymu cyfleoedd addas ar gyfer gwelliant.

Bydd y Cyngor yn parhau i weithio gyda datblygwyr, gweithredwyr bysiau a phartneriaid yn Llywodraeth Cymru, i ddarparu'r seilwaith a'r gwelliannau sydd eu hangen i annog cynnydd yn y defnydd o fysiau, fel rhan o'r targed a osodwyd i ddyblu nifer y teithiau a wneir drwy drafnidiaeth gyhoeddus erbyn 2026.

Cyfeirnod OB1 EC18

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.


Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Canran o bobl sy'n teithio gyda thrên (bob taith)	Cynnydd blynyddol yn y teithiau a wneir gyda thrên i bob pwrpas teithio: 1) Gwaith = 5.8% (2014) 2) Addysg = 5.2% (2014) 3) Siopa (Canol y Ddinas) = 10.6% (2014) 4) Siopa (Arall) = 3.8% (2014) 5) Hamdden = 8.7% (2014)	Methiant i gyflawni cynnydd blynyddol i bob pwrpas teithio am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	1) Gwaith: 2014 = 5.8% 2015 = 6.0% (↑) 2016 = 7.6% (↑) 2) Addysg: 2014 = 5.2% 2015 = 4.8% (↓) 2016 = 5.6% (↑) 3) Siopa (Canol y Ddinas): 2014 = 10.6% 2015 = 10.1% (↓) 2016 = 11.3% (↑) 4) Siopa (Arall): 2014 = 3.8% 2015 = 3.0% (↓) 2016 = 4.4% (↑) 5) Hamdden: 2014 = 8.7% 2015 = 7.5% (↓) 2016 = 8.8% (↑)

Dadansoddiad


Er bod y gyfran o deithiau i waith ar y rheilffordd wedi cynyddu rhwng gwaelodlin 2014 a 2015, gostyngodd y cyfrannau ar gyfer pwrpasau teithio eraill dros yr un cyfnod. Fodd bynnag, cynyddodd y gyfran rhwng 2015 a 2016, ac ym mhob achos, roedd yn uwch na'r gwerth ar gyfer 2014. Crynhoir isod y canlyniadau o 2014 i 2016—

	2014	2015	2016	Newid 2014 i 2015	Newid 2015 i 2016	Newid 2014 i 2016
Gwaith	5.8%	6.0%	7.6%	0.2%	1.6%	1.8%
Addysg	5.2%	4.8%	5.6%	-0.4%	0.8%	0.4%
Siopa (Canol y Ddinas)	10.6%	10.1%	11.3%	-0.5%	1.2%	0.7%
Siopa (Arall)	3.8%	3.0%	4.4%	-0.8%	1.4%	0.6%
Hamdden	8.7%	7.5%	8.8%	-1.2%	1.3%	0.1%

Gan archwilio'r uchod yn fanylach a chymryd y cyfartaledd treigl 5 mlynedd hanesyddol i bob pwrpas teithio, mae gennym y canlynol –



Gan gymharu'r data uchod â'r data cyhoeddus ar gyfer defnydd gorsaf rheilffordd Caerdydd (ORR), fel y darperir isod, gellir gweld bod y duedd mewn teithiau siopa ar y rheilffordd yn adlewyrchu'n agos y defnydd o'r orsaf, gyda lefelau defnydd wedi cynyddu tua 50% rhwng 2007 a 2016 –



Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC19

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn disgwyl mynediad i'r offer angenrheidiol i bennu amseroedd teithio bws a dibynadwyedd, sef set ddata TrafficMaster DfT a'r VIX BusNet Operator Reports System. Heb ddefnyddio'r rhain, nid yw'n ymarferol ar hyn o bryd i bennu amseroedd teithio bws a dibynadwyedd yn uniongyrchol. Felly, fel mesur interim ar gyfer adroddiad eleni, bydd lefelau boddhad defnyddwyr bws gydag amseroedd teithiau a dibynadwyedd fel y'u cofnodir yn Arolwg Holi Caerdydd, yn cael eu defnyddio fel procsi, hyd nes y bydd yr offer angenrheidiol ar gael. Diffinnir newidiadau cyd-destunol pellach sy'n ymwneud â defnyddio bysiau yn OB1 EC17, a gellir gweld rhestr o seilwaith a'r arian sydd wedi ei sicrhau yn OB1 EC21-22 ac SA4a.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Gwelliant yn yr amseroedd teithio ar fws	Gwelliant blynyddol o 1 y cant mewn amseroedd teithio i goridorau allweddol (Coridor y Gogledd Orllewin, Coridor y Gogledd-ddwyrain, Coridor Dwyreiniol a Choridor Deheuol) o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol	Methiant i gyflawni gwelliant blynyddol mewn amseroedd taith bws o 1% am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	Boddhad y Cyhoedd ynghylch amseroedd taith bws (Arolwg Holi Caerdydd): 2015 = 59.8% 2016 = 62.6% Newid = +2.7%
Dadansoddiad			
Mesurwyd boddhad o ran amseroedd taith bws, trwy grynhoi bob ateb 'Bodlon iawn' a 'Gweddol fodlon' o'r cwestiwn cyfatebol yn Arolwg Holi Caerdydd. Ceir crynodeb isod o'r cyfrifon –			
	2015	2016	
Bodlon iawn	682	557	
Gweddol fodlon	1,760	1,661	
Pob atebydd	4,082	3,545	
CYFANSWM Bodlon	2,442	2,218	Newid
CYFANSWM Bodlon (%)	59.8%	62.6%	2.7%
Argymhellion			
Defnyddio offer amgen i fonitro, wrth i'r rhain ddod ar gael.			

Cyfeirnod OB1 EC20

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn disgwyl mynediad i'r offer angenrheidiol i bennu amseroedd teithio bws a dibynadwyedd, sef set ddata TrafficMaster DfT a'r VIX BusNet Operator Reports System. Heb ddefnyddio'r rhain, nid yw'n ymarferol ar hyn o bryd i allu pennu amseroedd teithio bws a dibynadwyedd yn uniongyrchol. Felly, fel mesur interim ar gyfer adroddiad eleni, bydd lefelau boddhad defnyddwyr bws gydag amseroedd teithiau a dibynadwyedd fel y'u cofnodir yn Arolwg Holi Caerdydd, yn cael eu defnyddio fel procsi, hyd nes y bydd yr offer angenrheidiol ar gael. Diffinnir newidiadau cyd-destunol pellach sy'n ymwneud â defnyddio bysiau yn OB1 EC17, a gellir gweld rhestr o seilwaith a'r arian sydd wedi ei sicrhau yn OB1 EC21-22 ac SA4a.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad																								
Lleol Gwelliant o ran dibynadwyedd amseroedd teithio ar y bws	Gwelliant blynyddol o 1 y cant mewn amseroedd teithio i goridau allweddol (Coridor y Gogledd Orllewin, Coridor y Gogledd-ddwyrain, Coridor Dwyreiniol a Choridor Deheuol) o fabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol	Methiant i gyflawni gwelliant blynyddol o ran dibynadwyedd amseroedd teithio ar y bws o 1% am ddwy flynedd neu fwy yn olynol	Boddhad y Cyhoedd ynghylch dibynadwyedd amser taith bws (Arolwg Holi Caerdydd): 2015 = 50.4% 2016 = 55.2% Newid = +4.8%																								
Dadansoddiad																											
Mesurwyd boddhad o ran amseroedd taith bws, trwy grynhoi bob ateb 'Bodlon iawn' a 'Gweddol fodlon' o'r cwestiwn cyfatebol yn Arolwg Holi Caerdydd. Ceir crynodeb isod o'r cyfrifon –																											
<table border="1"> <tbody> <tr> <td></td> <td>2015</td> <td>2016</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Bodlon iawn</td> <td>448</td> <td>412</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Gweddol fodlon</td> <td>1,602</td> <td>1,544</td> <td></td> </tr> <tr> <td>Pob ateb</td> <td>4,067</td> <td>3,545</td> <td></td> </tr> <tr> <td>CYFANSWM Bodlon</td> <td>2,050</td> <td>1,956</td> <td>Newid</td> </tr> <tr> <td>CYFANSWM Bodlon (%)</td> <td>50.4%</td> <td>55.2%</td> <td>4.8%</td> </tr> </tbody> </table>					2015	2016		Bodlon iawn	448	412		Gweddol fodlon	1,602	1,544		Pob ateb	4,067	3,545		CYFANSWM Bodlon	2,050	1,956	Newid	CYFANSWM Bodlon (%)	50.4%	55.2%	4.8%
	2015	2016																									
Bodlon iawn	448	412																									
Gweddol fodlon	1,602	1,544																									
Pob ateb	4,067	3,545																									
CYFANSWM Bodlon	2,050	1,956	Newid																								
CYFANSWM Bodlon (%)	50.4%	55.2%	4.8%																								
Argymhellion																											
Defnyddio offer amgen i fonitro, wrth i'r rhain ddod ar gael.																											

Cyfeirnod OB1 EC21

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T4

Newidiadau Cyd-destunol: Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r Hyb Trafnidiaeth Integredig newydd ym mis Mawrth 2017.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Darparu hyb trafnidiaeth rhanbarthol	Bydd hyb trafnidiaeth rhanbarthol wedi ei ddarparu erbyn 2018	Methiant i ddarparu hyb trafnidiaeth rhanbarthol erbyn 2018	Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud mewn perthynas â'r uwchgynllunio ehangach a chyflenwi'r ardal ehangach a sicrhau caniatâd cynllunio i'r Hyb Trafndiaeth, mae cyflenwi'r project wedi llithro yn erbyn y terfynau amser a gynigiwyd yn wreiddiol
Dadansoddiad			
<p>Dyma'r brif ystyriaeth a cherrig milltir allweddol mewn perthynas â chyflenwi'r Hyb Trafnidiaeth Integredig newydd –</p> <ul style="list-style-type: none">• Roedd Gorsaf Fysiau flaenorol Caerdydd yn darparu ar gyfer 56 o wasanaethau a 765 o fysiau bob 12 awr (07:00-19:00); hyd yn hyn nid yw'n glir faint o wasanaethau fydd yn defnyddio'r cyfleuster newydd.• Cychwynnodd y broses o ddymchwel yr Orsaf hon ar 1^{af} Awst 2015, wedi'i ragflaenu gan newidiadau i gyffordd y Sgwâr Canolog, ac yna adeiladu Pencadlys newydd BBC Cymru Wales 150,000 tr. sg (ar gyfer 1,200 o staff) a ddechreuodd ar y 7^{fed} Rhagfyr 2015 (Sgwâr Canolog Cam 2 - Plot 3).• Cwblhawyd gwaith ar y 135,000 troedfedd sgwâr o ddatblygiad swyddfa yn Un Sgwâr Canolog ym Mawrth 2016 (Sgwâr Canolog 1 - Plot 1).• Cychwynnodd y broses o ddymchwel Marland House ym Mai 2016 a'i gwblhau ym mis Rhagfyr 2016, tra dechreuodd dymchwel maes parcio aml-lawr blaenorol Woodfield NCP ym mis Ionawr 2017 a'i gwblhau ym mis Mai 2017.• Y trefniant presennol yw bod y gwasanaethau a arferai ddefnyddio'r orsaf fysiau, bellach yn gweithredu o arosfannau stryd presennol ac ychwanegol, gyda stondinau seibiant hefyd yn cael eu darparu ar y stryd.			

- Y datblygwr ar gyfer yr hyb newydd yw Rightacres Property Co. Ltd, a bydd yn ffurfio Cam 3 o ailddatblygu'r Sgwâr Canolog, ar Blotiau 9-13.
- Rhoddwyd caniatâd cynllunio i'r cynllun arfaethedig ar 1^{af} Mawrth 2017, yn seiliedig ar gyfleuster 14 stondin, gyda threfniant Gyrru Mewn a Gyrru'n Ôl Allan (DIRO).
- Yn gynwysedig yn y dyluniad ar gyfer y Sgwâr Canolog mae - swyddfeydd, manwerthu ategol, fflatiau preswyl, llety myfyrwyr, seddi, toiledau a mwynderau, 225 o leoedd parcio preifat a chyfleuster storio beiciau cyhoeddus gyda lle i 500 o feiciau.
- Mae'r cynigion hefyd yn cynnwys gwelliannau i'r rhannau canlynol o'r rhwydwaith – y Sgwâr Canolog, Heol y Porth, Stryd Wood, Stryd Havelock, Heol Scott, Heol y Parc a Rhodfa Bute.
- Ariennir yr hyb gan y datblygwr, gyda chais am gyllid wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru i gwmpasu'r offer angenrheidiol i'w wneud yn addas, a disgwylir i gais ar wahân gael ei wneud fel rhan o Fargen y Ddinas.
- Mae adeiladu'r datblygiad swyddfeydd 100,000 troedfedd sgwâr yn Dau Sgwâr Canolog, bron wedi'i gwblhau ar hyn o bryd (Sgwâr Canolog Cam 2 - Plot 2).
- Disgwylir dymchwel y canlynol dros y misoedd cyfredol - Maes Parcio Saunders Road (Sgwâr Canolog Cam 3), Thompson House (Sgwâr Canolog Cam 4 - Plotiau 4, 5 & 8), ac yn olaf, St David's House (Sgwâr Canolog Cam 5 – Plotiau 6 & 7).

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC22

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2, KP6, KP8, T1-T9

Newidiadau Cyd-destunol: Dim newidiadau cyd-destunol arwyddocaol, ond arsylwi ar yr heriau a wynebwr o ran cyfyngiadau ariannu ar hyn o bryd a sicrhau ymgysylltiad gweithredol gan asiantau/ ymgynghorwyr perthnasol i ddarparu seilwaith trafndiaeth gynaliadwy priodol.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
Lleol Darparu seilwaith cludiant cynaliadwy newydd yn cynnwys: Coridorau Bws Cyflym, Canolfannau Cludiant a Chynlluniau Trafnidiaeth Lleol (CTLI) i liniaru effeithiau ar ddatblygiad a chefnogi symudiad moddol	Paratoi a gweithredu ystod o gynlluniau cludiant cynaliadwy yn cynnwys cynlluniau a bennwyd yng Nghynllun Trafnidiaeth Lleol Caerdydd sy'n cefnogi symudiad moddol a darparu egwyddorion uwchgyllunio sydd yn y CDLI	Methiant i ddarparu projectau a bennwyd yn amserlenni'r Cynllun Trafnidiaeth Lleol a/neu fethiant i ddarparu egwyddorion allweddol cynaliadwy y cyfeirir atynt yn OB4 SN12	Nid yw pob cynllun a nodwyd yn y CTLI a CDLI wedi gallu cael eu cyflenwi o fewn y amserlenni a nodwyd yn wreiddiol. Fodd bynnag, mae 3 chynllun yn gyflawn, ac mae 15 arall yn mynd yn eu blaenau ar hyn o bryd.

Dadansoddiad

Nododd cynnydd yn erbyn y CTLI a CDLI cynlluniau seilwaith trafndiaeth cynaliadwy ar gyfer y cyfnod 2015-2017; gweler crynodeb isod –

Amserlen	Math	Cynllun	Wedi'i gwblhau?	Sylwadau
2015-	Gwelliannau rheilffyrdd	Trydaneiddio Prif Lein De Cymru	Parhaus	Gwaith yn parhau cyn belled â Chaerdydd
2015-	Gwelliannau rheilffyrdd	Trydaneiddio Lein y Cymoedd	Parhaus	Disgwyllir iddynt ffurfio rhan o Fargen y Ddinas a masnachfaint rheilffordd newydd Cymru a'r Gororau
2015-	Gwelliannau rheilffyrdd	Gwelliannau Gorsafoedd eraill dan ganllawiau CCC fel y'u nodir yng Nghynllun Seilwaith y CDLI	Parhaus	Gwelliannau seilwaith rheilffyrdd o dan LIC
2015-	Hybiau Trafnidiaeth	Parcio a Theithio i'r Gogledd o Gyffordd 33 yr M4	Na	1,000 o lefydd Parcio a Theithio i fod i gael eu cyflenwi fel rhan o'r Safle Strategol (yn amodol ar arwyddo A106)

2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Llwybr Cymunedol Gogledd Caerdydd (NCCR) - Cam 4	Na	Llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd
2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 1 - Heath Halt Road	Na	I'w ddarparu fel rhan o'r Draffordd Gogledd-De
2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 1 - King George V Drive East	Na	I'w ddarparu fel rhan o'r Draffordd Gogledd-De
2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 5 (Coridor Heol Penarth) - Cam 2	Do	Cynllun wedi'i gwblhau in 2015
2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 50 (Stryd Wood-Leckwith Rd)	Do	Cynllun wedi'i gwblhau in 2015
2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 6 - Heol Ddwyreiniol/ Orllewinol y Bont-faen	Parhaus	Twcan Heol Ddwyreiniol y Bont-faen wedi'i gwblhau yn 2016; Cwblhawyd Pont Elái yn 2017; Dyluniad WCAT yn cael ei ddatblygu 2017/2018
2015/2016	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	WNP Llanrhyddni, Llaneirwg ac Elái a Chaerau - Cam 1	Parhaus	Cam 1 wedi'i gwblhau in 2015/2016; Cam 2 wedi'i gwblhau yn 2016/2017; Cam 3 i'w gwblhau yn 2017/2018
2015/2016	Gwelliannau rheilffyrdd	Gwelliannau mynediad i Orsafoedd Danescourt, Parc Waun-Gron a'r Tyllgoed	Na	Yn cael ei ddal yn ôl - disgwyl cyllid
2015/2016	Coridorau Bws Cyflym	A469 Cam 1: St Georges Road i Birchgrove Road	Parhaus	Ymgynghori wedi ei gwblhau, disgwyl cyllid; Rhai gwelliannau wedi'u gwneud i'r De o gyffordd Birchgrove Road
2015/2016	Coridorau Bws Cyflym	A470 Cam 1: Coryton i Gabalfa	Parhaus	Birchgrove Road i Caegwyn Road wedi'i gwblhau; y 2 ran sy'n weddill ar y gweill, yn aros am gyllid
2015-2017	Aml-foddol	Gwelliannau i gyffordd Heol Casnewydd / West Grove	Parhaus	Cam 1: East Grove/ Howard Place = cwblhawyd 05/05/16; Cam 2a: West Grove/ The Parade = cwblhawyd 25/08/16; Cam 2b: Heol Casnewydd/ West Grove = cwblhawyd 14/03/17; Cam 3: Heol Casnewydd/ Fitzalan Road = i'w wneud Ch3-Ch4 2017/2018

2016-	Gwelliannau rheilffyrdd	Gwelliannau Gorsaf Metro LIC: Gorsaf Llandaf	Parhaus	Gwaith yn parhau ers 05/12/16
2016-	Gwelliannau rheilffyrdd	Gwelliannau Gorsaf Metro LIC: Gorsaf Radur	Parhaus	Gwaith yn parhau ers 05/12/16
2016-	Coridorau Bws Cyflym	A469 Cam 3: I'r Gogledd o Maes-y-Coed Road	Parhaus	Ymgynghori wedi ei gwblhau, disgwyl cyllid
2016-	Coridorau Bws Cyflym	A470 Cam 2: Gabalfa i Ganol y Ddinas	Na	Yn cael ei ddal yn ôl - disgwyl cyllid
2016-	Coridorau Bws Cyflym	Gwelliannau canol y ddinas: Llwybrau Bysiau, Giatiaau Bysiau & Blaenoriaeth Bysiau	Parhaus	Dyluniad cysyniadol wedi'i gwblhau i Rodfa Bute a Rhodfa'r Orsaf/ Stuttgarter Strasse; Dylunio manwl yn mynd yn ei flaen
2016-	Coridorau Bws Cyflym	Llwybrau Bysiau rhan amser ar Llwybrau Strategol	Na	Ni fu angen am y rhain eto ond efallai y bydd eu hangen os oes gwrthdaro â gofynion parcio
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 3 (Casnewydd - Caerdydd) - Cam 1	Na	Llwybr beicio wedi'i wahanu ar Heol Casnewydd i'w ddarparu fel rhan o'r Draffordd Dwyrain-Gorllewin; Greenway Rd wedi'i nodi fel llwybr Map Rhwydwaith Integredig eilaidd
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 34 – defnydd yn cael ei rannu o Droetffordd Doc Bute	Na	Llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd cynllun 119
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 34 - Bute East Dock-Heol Hemingway	Na	Llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd cynllun 120
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 34 - Cysylltiad i Llwybr 3	Na	Llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 34 - Sanquahar/ Windsor Rd	Parhaus	Man croesi newydd wedi ei weithredu; llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 34 - Tyndall St/ Schooner Way)	Na	Llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd cynllun 138a
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 50	Na	Llwybr yn cael ei ddynodi yn llwybr Map Rhwydwaith integredig eilaidd

		(Lecwydd) - Cam 2		
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	Rhwydwaith Beicio Strategol Llwybr 6 – Cylchfan Pont Elái	Parhaus	Twcan Heol Ddwyreiniol y Bont-faen wedi'i gwblhau yn 2016; cwblhawyd Pont Elái yn 2017; Dyluniad WCAT yn cael ei ddatblygu 2017/2018
2016/2017	Rhwydweithiau Beicio / Teithio Llesol	WNP Sblot, Grangetown ac Ystum Taf - Cam 1	Parhaus	Map Rhwydwaith Integredig wedi disodli'r WNP; SRiC wedi ei weithredu yn yr ardal.
2016/2017	Gwelliannau rheilffyrdd	Gwelliannau mynediad i orsafoedd Radur, Ty-Glas & Birchgrove	Na	Yn cael ei ddal yn ôl - disgwyl cyllid
2016-2017	Coridorau Bws Cyflym	A469 Cam 2: Birchgrove Road i Maes-y-Coed Road	Do	Cyflenwyd yn 2016/2017

Argymhellion

Mae llawer o'r cynlluniau rhwydwaith beiciau uchod sydd heb eu cyflenwi yn cael eu datblygu drwy'r Map Rhwydwaith Integredig fel rhan o'r Strategaeth Beicio. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB1 EC23

Polisiâu CDLI perthnasol: R3

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL CCA Ffryntiadau wedi'u Diogelu yr Ardal Siopa Ganolog		Methiant i fabwysiadu'r CCA o fewn 12 mis o fabwysiadu'r Cynllun	Mae'r CCA Ffryntiadau wedi'u Diogelu yr Ardal Siopa Ganolog i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgyngori cyhoeddus ym mis Mawrth 2018.
Dadansoddiad			
Cychwynnodd y gwaith o baratoi'r CCA ac mae i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Mawrth 2018. Ceir diweddariad ar hyn yn yr 2il AMB yn 2018.			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC24

Polisiâu CDLI perthnasol: KP5

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL CCA Canllawiau i Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion		Methiant i fabwysiadu'r CCA o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun	CCA Canllawiau i Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgyngori cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017.
Dadansoddiad			
Mae'r gwaith paratoi ar y CCA yn ddatblygedig, ac mae i fod i gael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym mis Tachwedd 2017. Ceir diweddariad ar hyn yn yr 2il AMB yn 2018.			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB1 EC25

Polisiâu CDLI perthnasol: EC1, EC3

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL CCA Diogelu Tir Cyflogaeth ac Eiddo ar gyfer Busnesau, Diwydiant a Warysau		Methiant i fabwysiadu'r CCA o fewn 18 mis o fabwysiadu'r Cynllun	Mae'r CCA Diogelu Tir Cyflogaeth ac Eiddo ar gyfer Busnesau, Diwydiant a Warysau i'w gyhoeddi ar gyfer ymgyngori cyhoeddus ym Mehfin 2017 ac mae i fod i gael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor ym mis Hydref 2017
Dadansoddiad			
Cafodd y CCA ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyhoeddus ym Mehefin 2017 ac mae i fod i gael ei ystyried gan y Cabinet a'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Hydref 2017. Ceir diweddariad ar hyn yn yr 2il AMB yn 2018.			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Amcan 2 – Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt

Cyfeirnod OB2 S01

Polisiau CDLI perthnasol: KP1

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
CRAIDD Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai bresennol (TAN1)	Cynhelir cyflenwad o 5 mlynedd o leiaf o dir ar gyfer datblygiad preswyl drwy gyfnod y Cynllun.	Cofnodir cyflenwad o lai na 5 mlynedd o dir preswyl ar gyfer pob un blwyddyn.	Y cyflenwad tir ar gyfer tai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai bresennol (1 ^{af} Ebrill 2017) yw 3.6 blynedd.
Dadansoddiad			
<p><u>TAN1/Methodoleg Weddilliol</u></p> <p>Mae'n bwysig pwysleisio bod y Cyngor yn credu bod mwy o dir ar gael i'w ddatblygu mewn gwirionedd na'r ffigwr sy'n deillio o'r dull methodoleg gweddilliol anhyblyg a ragnodir yn y TAN, sydd wedi'i seilio'n unig ar ffigwr tai CDLI yn hytrach na chymryd i ystyriaeth gyfraddau adeiladu'r gorffennol. Yn hyn o beth, dylid nodi mai'r banc tir presennol (safleoedd dros 10 uned) yw 24,995 o anheddau, sy'n cymharu â 9,998 o anheddau sy'n cwrdd â gofynion proses adrodd JHLAS. Nid yw llawer o dir, tra'i fod ar gael yn ffisegol yng Nghaerdydd, yn gymwys i'w gynnwys yn y cyfrifiad 5 mlynedd. Mae hyn yn cynnwys safleoedd sy'n amodol ar lofnodi cytundeb A106¹ (328 uned) neu safleoedd gyda chaniatâd wedi'i gategoreiddio fel un a gyfyngir i gategorïau C3/C4 (14,629 uned). Nid yw'r categorïau hyn yn gymwys i'w cyfrif yn y JHLAS, ond gallant ychwanegu'n sylweddol (tua 4.8 mlynedd o dir) at y cyflenwad swyddogol o 3.6 mlynedd.</p> <p>Er na chaniateir ef mwyach, arferai TAN1 ganiatáu cymharu'r cyflenwad tir presennol â chyfraddau adeiladu yn y gorffennol. Cyflwynwyd y fethodoleg cyfradd adeiladu'r gorffennol yn 1992 gan PPG3 (Cymru) i ymdrin ag achosion lle nad yw'r cyfrifiad gweddilliol yn adlewyrchu'r cyflenwad yn gywir. Mae cymhariaeth â chyfradd adeiladu'r 10 mlynedd diwethaf a'r gyfradd adeiladu 5 mlynedd yn darparu ffigyrau cyflenwi tir ar gyfer Caerdydd o 9.6 mlynedd a 14.8 mlynedd, yn y drefn honno. Er y derbynnir y gallai'r cyfnodau adeiladu hyn adlewyrchu effeithiau'r dirwasgiad, serch hynny mae'n cynnig persbectif defnyddiol.</p>			

¹ Lle mae cytundeb Adran 106 yn parhau heb ei lofnodi am fwy na blwyddyn ar ôl dyddiad y penderfyniad i roi caniatâd cynllunio

Myfyrwyr

Yn hanesyddol, roedd llety myfyrwyr preifat yn gymwys i'w gynnwys yng nghyflenwad tir 5 mlynedd Caerdydd. Dyma oedd yr arferiad, gan fod myfyrwyr sy'n byw mewn llety myfyrwyr preifat wedi'u cynnwys yn y gofyniad anheddau sy'n sail i'r cynllun datblygu. Mae'r math hwn o lety hefyd yn lleihau'r pwysau ar y sector rhent preifat traddodiadol gan gyfrannu at y stoc cyffredinol. Cyflwynodd canllawiau diwygiedig TAN1 (Ionawr 2015) amod mai dim ond anheddau o fewn diffiniad Gorchymyn Dosbarth Defnydd C3 y gellir eu cyfrif tuag at y cyflenwad. Mae hyn yn cyfyngu ar lety myfyrwyr o'r JHLAS, a ystyrir yn *Sui Generis* yn hytrach na C3. Mae'r sector hwn wedi darparu ffynhonnell bwysig o lety yng Nghaerdydd dros y 15 mlynedd diwethaf, ac mae wedi cynyddu'n ddiweddar. Er mwyn rhoi arwydd o raddfa, roedd oddeutu 480 o unedau myfyrwyr yn gymwys i'w cynnwys yng nghyflenwad 5 mlynedd Caerdydd yn JHLAS 2014. Rhwng 1^{af} Ebrill 2014, a 1^{af} Ebrill 2016, cymeradwywyd 1,699 o unedau ychwanegol pellach (2,975 o leoedd gwely). Yn nodweddiadol, mae'r cynlluniau hyn wedi'u hadeiladu'n rhwydd heb brofi'r oedi sy'n effeithio ar gynlluniau preswyl traddodiadol. Mae'r dystiolaeth gyfredol yn dangos cryfder pellach y farchnad llety myfyrwyr yng Nghaerdydd.

Daeth y TAN1 diwygiedig i rym ar ôl cyflwyno CDLI Caerdydd ar gyfer Archwiliad, ac ni ragwelwyd y newid Polisi hwn gan nad oedd yn rhan o'r cynigion ymgynghori. O'r herwydd, mae rhagamcanion aelwydydd yn y CDLI mabwysiedig, a'r gofyniad anheddau dilynol (41,415) yn ystyried gofynion myfyrwyr sy'n byw mewn llety preifat, ond ni all llety myfyrwyr newydd gyfrannu'n dechnegol i'r cyflenwad. Cydnabu'r Arolygwyr y mater hwn yn ystod yr Archwiliad y CDLI, fel yr adroddwyd ym mharagraffau 4.18 a 4.19 o Adroddiad yr Arolygwyr. Bydd angen gwaith yn y dyfodol i ymdrin â'r mater hwn o gysoni galw a chyflenwi myfyrwyr cyn y broses o adolygu'r Cynllun.

Oedi Tymor-byr ar Safleoedd Strategol

Ar gyfer y cyfnod JHLAS cyfredol (2018-2022) roedd rhagolygon cwblhau yn gyfystyr â chyfraniad cyfunol o 8,030 o unedau ar safleoedd strategol. Rhagwelir y byddai 2,302 uned arall yn cael eu cwblhau cyn yr Astudiaeth, rhwng 2015 a 2017. Yn ystod y broses JHLAS eleni, derbyniodd y Cyngor ragolygon diwygiedig ar gyfer pob safle strategol sy'n cynrychioli cyfraniad cyfanswm o 5,498 o gyfraniadau dros y cyfnod 2018-2022. Arweiniodd hyn arwain at gollu 2,532 o unedau o'r cyflenwad 5 mlynedd disgwylidig, sy'n cyfateb i tua 0.8 mlynedd o gyflenwad. Yn yr un modd, dim ond 113 o anheddau a gwblhawyd hyd yma ar safleoedd strategol, sef diffyg o 2,189 o anheddau wedi'u cwblhau a ragwelwyd dros y cyfnod, sy'n cynrychioli 0.7 mlynedd. O dan y dull gweddilliol, mae unrhyw ddiffyg yn y nifer o anheddau y disgwylir eu cwblhau yn cael ei gynnwys yn y cyfrifiad (gofyniad gweddilliol) gan ei gwneud yn anoddach cyflawni cyflenwad 5 mlynedd.

Mae'r rhesymau dros oedi yn amrywio o safle i safle, ond mae'r dyddiadau cychwyn cyffredinol wedi llithro ar ôl mabwysiadu. Y mae'r Cyngor o'r farn bod yr oedi hwn yn rhannol gyfrifol o leiaf am y diffyg cyflenwad tir 5 mlynedd yng Nghaerdydd, ac nad yw Caerdydd yn wynebu mater cyflenwi mewn gwirionedd, ond yn hytrach, her o gyflenwi lle nad yw'r sector datblygu yn cyflenwi'r cyfraddau a ragwelwyd yn flaenorol.

Twf Poblogaeth

Mae amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru yn dangos bod gan Gaerdydd boblogaeth gyfredol o 361,468 (MYE 2016). Mae hyn yn awgrymu, hyd yma, bod twf poblogaeth wedi bod yn arafach nag a ragwelwyd yn flaenorol gan Lywodraeth Cymru, gyda'i hamcanestyniadau 2011 yn amcangyfrif poblogaeth o 366,761 yn 2016 (tua 5,300 o wahaniaeth). Er bod gofyniad anheddau'r CDLI a fabwysiadwyd yn parhau i fod yn is na'r hyn a ddynodwyd gan amcanestyniadau Llywodraeth Cymru 2011, nid yw'r twf poblogaeth sy'n sail i'r CDLI wedi dod i fodolaeth ychwaith hyd yma (tua 4,200 o wahaniaeth o'i gymharu â MYE 2016).

Ym Medi 2016, rhyddhaodd Llywodraeth Cymru ei amcanestyniadau poblogaeth diweddaraf (yn seiliedig ar 2014) ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ystod y cyfnod o 25 mlynedd, 2014 i 2039, rhagwelir y bydd poblogaeth Caerdydd yn cynyddu o 90,400 (25.5%) - mwy nag unrhyw awdurdod lleol arall yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r ffigyrau diweddaraf yn awgrymu bod twf Caerdydd yn is nag yn yr amcanestyniadau blaenorol, sy'n seiliedig ar 2011. Rhwng 2014 a 2036, mae twf rhagamcanol Caerdydd wedi gostwng o 27.2% (rhagamcanion yn seiliedig ar 2011) i 22.3% (rhagamcaniadau seiliedig ar 2014). Mae'r twf poblogaeth rhagamcanol hefyd wedi'i ostwng erbyn 2026, diwedd cyfnod y CDLI, o 412,801 i 395,679.

Noda PCC mai'r Amcanestyniadau Aelwydydd diweddaraf ddylai fod y man cychwyn ar gyfer asesu gofynion tai. Yn hyn o beth, dylid nodi bod amcanestyniadau poblogaeth yn dod yn gynyddol ansicr ymhellach i'r dyfodol y maent yn rhedeg, ac felly wrth i gyfnod y Cynllun fynd rhagddo, bydd yn fwyfwy pwysig monitro tystiolaeth ddemograffig newydd fel y nodir yn yr amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd swyddogol sydd ar ddod.

Persbectif Cenedlaethol

Dylid nodi nad yw'r diffyg cyflenwad 5 mlynedd yng Nghaerdydd yn eithriad pan y'i ystyrir yng nghyd-destun Cymru gyfan; mae llawer o ACLI'au wedi profi sefyllfaoedd cyflenwi tir tebyg, ar ôl mabwysiadu'r CDLI. Yn 2013, 2014 a 2015, yn y drefn honno, roedd gan 18 ACLI (72%) gyflenwad tir ar gyfer tai a oedd yn llai na 5 mlynedd. Nid yw'r sefyllfa wedi gwella dros amser, gyda 19 ACLI yn cofnodi cyflenwad tir is na 5 mlynedd yn 2016. Hefyd gostyngodd y cyflenwad tir cyfartalog ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn, o 4.3 blynedd yn 2013 i 2.5 mlynedd erbyn 2016. Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod yr anhawster cyffredinol o ran dangos cyflenwad 5 mlynedd o dir ar gyfer tai ar draws ACLIau Cymru, ac mae wedi cynnal ymchwil i'r materion sy'n ymwneud â chyflenwi. Er ei bod yn ymddangos bod hyfywedd yn ffactor allweddol ledled Cymru, mae ffactorau sylfaenol eraill yn amlwg yng Nghaerdydd, fel y disgrifir uchod.

Casgliad

Mae'r Cyngor hwn wedi nodi nifer o resymau sylfaenol y mae'n credu allai fod yn arwyddocaol wrth ystyried y ffigwr diweddaraf argaeledd tir ar gyfer tai a nodir yn JHLAS 2017. Mae'r Cyngor o'r farn bod y ffactorau technegol hyn yn ystumio'r realiti o gyflenwad llawer iachach o dai sy'n bodoli mewn gwirionedd, a her allweddol yw gallu'r sector tai i ddarparu'n effeithiol y cyfraddau adeiladu a hyrwyddir yn ystod

proses archwilio'r CDLI. Dylid ystyried y ffactorau hyn wrth briodoli pwysau i'r ffigwr 5 mlynedd o gyflenwad at ddibenion penderfynu ar geisiadau cynllunio.

Ystyrir bod y Cyngor yn rhagweithiol wrth ddilyn y dull galluogi a nodir gan Lywodraeth Cymru, ac mae deialog bositif yn cael ei chynnal gyda'r sector datblygu er mwyn cyflawni amcanion y ddwy ochr o gyflenwi dull a arweinir gan y cynllun. Bydd adolygiad parhaus o dystiolaeth newydd drwy'r broses AMB yn helpu i sicrhau bod y sefyllfa cyflenwi tir yn parhau i gael ei monitro'n agos.

Argymhellion

Er ei bod yn amlwg bod 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor yn cysylltu â pherchnogion tir a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi tafllwybr gwell o ddarpariaeth ar Safleoedd Strategol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogi hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth barhaus. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd.

Cyfeirnod OB2 S02

Polisiâu CDLI perthnasol: KP1

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
CRAIDD Nifer yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd	Darparu 22,555 net o anheddau marchnad cyffredinol dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun yn unol â'r targedau 2 flynedd cronol a welir isod: 2016: 2,495 2018: 4,096 2020: 4,153 2022: 4,042 2024: 4,010 2026: 3,759	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.	Cyfanswm nifer yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd yn ystod 2014/15 oedd 377. Cyfanswm nifer yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd yn ystod 2015/16 oedd 489. Cyfanswm cyfunol yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd erbyn 1 ^{af} Ebrill 2016 oedd 866.

Dadansoddiad

Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol, a dyma'r AMB cyntaf i'w baratoi. Felly, mae AMB eleni yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr a data gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn AMB'au dilynol. Bydd monitro yn y dyfodol dros gyfnod hwy yn galluogi nodi tueddiadau a dod i gasgliadau cadarnach.

Cafodd y cyfraddau cwblhau anheddau gwreiddiol a nodwyd yn sylfaen dystiolaeth y CDLI fel 'Datganiadau o Diroedd Cyffredin' ar gyfer pob un o'r dyraniadau safle strategol eu cyflwyno gan ddatblygwyr a pherchnogion tir a'u cytuno gyda'r Cyngor yn ystod mis Rhagfyr 2014. Mae'r broses o gyflwyno fesul cam ar y safleoedd strategol, fel y cytunwyd arni yn y Datganiadau Tiroedd Cyffredin hyn, yn cael ei hadlewyrchu yn y Fframwaith Monitro Blynnyddol hwn. Archwiliwyd y cyfraddau cwblhau anheddau disgwylidig gan Arolygwyr ym mis Ionawr 2015, ac ni wnaed unrhyw newidiadau yn ystod y broses archwilio nac yn Adroddiad yr Arolygydd.

Gan fod Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd wedi cael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016, ystyrir bod cymhlethdod sylweddol datblygiad y safleoedd strategol wedi arwain at gyfnodau cychwyn arafach o'i gymharu â'r cynlluniau graddol cytunedig gwreiddiol. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio o safle i safle, ond daeth yn amlwg bod oedi'n digwydd rhwng mabwysiadu'r CDLI a thai newydd yn cael eu cwblhau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/ materion technegol cyfreithiol rhwng Datblygwyr a pherchnogion tir, a hefyd y cymhlethdod o sicrhau caniatadau

cynllunio a Chytundebau Adran 106 atodol, sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor fel y'u nodir yn y CDLI.

Er ei bod yn anodd pennu tueddiadau pendant mewn perfformiad polisi yn ystod y flwyddyn gyntaf o adrodd, gwnaed cynnydd ar y rhan fwyaf o'r safleoedd strategol o safbwynt rhoi caniatâd i geisiadau cynllunio, neu ddechrau adeiladu.

Argymhellion

Er ei bod yn amlwg bod 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor yn cysylltu â pherchnogion tir a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi llwybr gwell ar gyfer darparu Safleoedd Strategol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogi hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth barhaus. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd.

Cyfeirnod OB2 S03

Polisiâu CDLI perthnasol: KP1, KP2, KP4, KP13, H3

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
CRAIDD Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net a adeiladwyd (TAN2)	Darparu 6,646 o unedau fforddiadwy net dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun (yn cynrychioli cyfartaledd o 22.8% o'r ddarpariaeth dai gyfan). Isod gweler y gyfradd gyflenwi ddisgwyliedig i gwrdd â'r targed: 2016: 735 2018: 1,207 2020: 1,224 2022: 1,191 2024: 1,181 2026: 1,108	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.	Cyfanswm nifer yr anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2014/15 oedd 105. Cyfanswm nifer yr anheddau fforddiadwy a ddarparwyd yn ystod 2015/16 oedd 244. Cyfanswm cyfunol yr anheddau fforddiadwy a ddarparwyd erbyn 1 ^{af} Ebrill 2016 oedd 349.
Dadansoddiad			
<p>Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol, a dyma'r AMB cyntaf i'w baratoi. Felly, mae AMB eleni yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr a data gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn AMB'au dilynol. Bydd monitro yn y dyfodol dros gyfnod hwy yn galluogi nodi tueddiadau a dod i gasgliadau cadarnach.</p> <p>Cafodd y cyfraddau cwblhau anheddau gwreiddiol a nodwyd yn sylfaen dystiolaeth y CDLI fel 'Datganiadau o Diroedd Cyffredin' ar gyfer pob un o'r dyraniadau safle strategol eu cyflwyno gan ddatblygwyr a pherchnogion tir a'u cytuno gyda'r Cyngor yn ystod mis Rhagfyr 2014. Mae'r broses o gyflwyno fesul cam ar y safleoedd strategol, fel y cytunwyd arni yn y Datganiadau Tiroedd Cyffredin hyn, yn cael ei hadlewyrchu yn y Fframwaith Monitro Blynyddol hwn. Archwiliwyd y cyfraddau cwblhau anheddau disgwyliedig gan Arolygwyr ym mis Ionawr 2015, ac ni wnaed unrhyw newidiadau yn ystod y broses archwilio nac yn Adroddiad yr Arolygydd.</p> <p>Gan fod Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd wedi cael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016, ystyrir bod cymhlethdod sylweddol datblygiad y safleoedd strategol wedi arwain at gyfnodau cychwyn arafach o'i gymharu â'r cynlluniau graddol cytunedig</p>			

gwreiddiol. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio o safle i safle, ond daeth yn amlwg bod oedi'n digwydd rhwng mabwysiadu'r CDLI a thai newydd yn cael eu cwblhau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/ materion technegol cyfreithiol rhwng Datblygwyr a pherchnogion tir, a hefyd y cymhlethdod o sicrhau caniatadau cynllunio a Chytundebau Adran 106 atodol, sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor fel y'u nodir yn y CDLI.

Er ei bod yn anodd pennu tueddiadau pendant mewn perfformiad polisi yn ystod y flwyddyn gyntaf o adrodd, gwnaed cynnydd ar y rhan fwyaf o'r safleoedd strategol o safbwynt rhoi caniatâd i geisiadau cynllunio, neu ddechrau adeiladu.

Yn ychwanegol at y cyflenwadau fforddiadwy a ddisgwylir o'r safleoedd strategol, bydd partneriaeth rhwng Cyngor Dinas Caerdydd a Wates Presidential: Cartrefi Caerdydd, yn darparu 1,500 o dai fforddiadwy newydd o ansawdd uchel a chynaliadwy ar draws nifer o leoliadau ledled Caerdydd.

Argymhellion

Er ei bod yn amlwg bod 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor yn cysylltu â pherchnogion tir a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi llwybr gwell ar gyfer darparu Safleoedd Strategol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogi hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth barhaus. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd.

Cyfeirnod OB2 S04

Polisiau CDLI perthnasol: KP1

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
CRAIDD Anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn (pob annedd)	Darparu 29,201 o anheddau dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun yn unol â'r targedau 2 flynedd cronol sydd i'w gweld isod: 2016: 3,230 2018: 5,303 2020: 5,377 2022: 5,233 2024: 5,191 2026: 4,866	Methiant i ddarparu'r nifer gofynnol o anheddau ar gyfer pob cyfnod o 2 flynedd.	Cyfanswm nifer yr holl anheddau a ddarparwyd yn ystod 2014/15 oedd 482. Cyfanswm nifer yr holl anheddau a ddarparwyd yn ystod 2015/16 oedd 733. Y cyfanswm cyfunol erbyn 1 ^{af} Ebrill 2016 oedd 1,215.
Dadansoddiad			
<p>Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol, a dyma'r AMB cyntaf i'w baratoi. Felly, mae AMB eleni yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr a data gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn AMB'au dilynol. Bydd monitro yn y dyfodol dros gyfnod hwy yn galluogi nodi tueddiadau a dod i gasgliadau cadarnach.</p> <p>Cafodd y cyfraddau cwblhau anheddau gwreiddiol a nodwyd yn sylfaen dystiolaeth y CDLI fel 'Datganiadau o Diroedd Cyffredin' ar gyfer pob un o'r dyraniadau safle strategol eu cyflwyno gan ddatblygwyr a pherchnogion tir a'u cytuno gyda'r Cyngor yn ystod mis Rhagfyr 2014. Mae'r broses o gyflwyno fesul cam ar y safleoedd strategol, fel y cytunwyd arni yn y Datganiadau Tiroedd Cyffredin hyn, yn cael ei hadlewyrchu yn y Fframwaith Monitro Blynyddol hwn. Archwiliwyd y cyfraddau cwblhau anheddau disgwylidig gan Arolygwyr ym mis Ionawr 2015, ac ni wnaed unrhyw newidiadau yn ystod y broses archwilio nac yn Adroddiad yr Arolygydd.</p> <p>Gan fod Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd wedi cael ei fabwysiadu ym mis Ionawr 2016, ystyrir bod cymhlethdod sylweddol datblygiad y safleoedd strategol wedi arwain at gyfnodau cychwyn arafach o'i gymharu â'r cynlluniau graddol cytunedig gwreiddiol. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio o safle i safle, ond daeth yn amlwg bod oedi'n digwydd rhwng mabwysiadu'r CDLI a thai newydd yn cael eu cwblhau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/ materion technegol cyfreithiol rhwng</p>			

Datblygwyr a pherchnogion tir, a hefyd y cymhlethdod o sicrhau caniatadau cynllunio a Chytundebau Adran 106 atodol, sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor fel y'u nodir yn y CDLI.

Er ei bod yn anodd pennu tueddiadau pendant mewn perfformiad polisi yn ystod y flwyddyn gyntaf o adrodd, gwnaed cynnydd ar y rhan fwyaf o'r safleoedd strategol o safbwynt rhoi caniatâd i geisiadau cynllunio, neu ddechrau adeiladu.

Argymhellion

Er ei bod yn amlwg bod 'oedi cyn cyflenwi' yn dilyn mabwysiadu'r CDLI, mae'r Cyngor yn cysylltu â pherchnogion tir a datblygwyr gyda'r nod o ysgogi llwybr gwell ar gyfer darparu Safleoedd Strategol. Y gobaith yw y bydd y dull rhagweithiol a galluogi hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, a bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth barhaus. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau blynyddol rheolaidd.

Cyfeirnod OB2 S05

Polisiâu CDLI perthnasol: KP1

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Nifer o unedau hap wedi eu cwblhau fesul blwyddyn ar bob safle	Y targed blynyddol o gyfraniadau hap a ragwelir i gyd ar gyfer gweddill cyfnod y cynllun - 488 annedd bob blwyddyn.	Mae'r cyflenwad yn amrywio o fwy na 10% yn uwch neu'n is na 488 o anheddau'r flwyddyn am unrhyw gyfnod o 2 flynedd yn olynol.	Y cyfanswm nifer o gyfraniadau hap yn ystod 2016/17 oed 449 o anheddau.
Dadansoddiad			
Yn ystod y cyfnod monitro 1 ^{af} Ebrill 2016 i 31 ^{ain} Mawrth 2017, cwblhawyd 449 o anheddau a oedd yn cael eu hystyried yn safleoedd 'hap' gan eu bod yn fwy na 10 o anheddau, nad oeddent yn ganlyniad i newid defnydd, ac nad oeddent yn rhan o safle dyranedig y CDLI. Mae'r 449 uned hap a gwblhawyd o fewn y glustogfa o 10% a nodir yn y sbardun.			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB2 S06

Polisiâu CDLI perthnasol: KP3(B) Ffiniau Aneddiadau EN1: Gwarchod Cefn Gwlad

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Nifer o anheddau a ganiateir yn flynyddol tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig nad ydynt yn boddhau polisiâu'r CDLI	Nifer o anheddau a ganiateir nad ydynt yn unol â KP3(B)	Un caniatâd neu fwy nad yw'n boddhau polisiâu'r CDLI	Dim ceisiadau wedi eu caniatáu tu allan i ffiniau aneddiadau nad ydynt yn bodloni polisi.
Dadansoddiad			
Yn ystod y cyfnod monitro, caniatwyd 5 cais am ddatblygiad preswyl y tu allan i ffin anheddiad. O'r ceisiadau hyn, roedd 4 lle'r oedd yr egwyddor o ddatblygiad preswyl ar y safle eisoes wedi'i sefydlu trwy gais cynharach. Yn achos y cais arall, ystyriwyd bod y cais yn bodloni'r canllawiau cynllunio cenedlaethol.			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB2 S07

Polisiâu CDLI perthnasol: H7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Cadw llygad ar safle Seawall Road a'i adolygu fel llety preswyl parhaol posibl i Sipiwn a Theithwyr		Safle heb ei gategoreiddio o fewn Parth Risg Llifogydd C2	Safle yn dal i fod wedi'i gategoreiddio o fewn Parth Risg Llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf
Dadansoddiad			
<p>Cynhwyswyd y safle hwn fel dyraniad ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr yn y CDLI Adnau ym mis Medi 2013. Fodd bynnag, cafodd y safle ei ddileu o'r Cynllun yn Archwiliad y CDLI yn 2015 gan ei fod wedi'i leoli mewn Parth Risg Llifogydd C2 lle mae Canllawiau Cynllunio Llywodraeth Cymru yn rhwystro datblygiad hynod agored i niwed fel safleoedd Sipsiwn a Theithwyr. Cytunwyd yn Archwiliad y CDLI y byddai dangosydd yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Monitro i gadw'r safle dan adolygiad pe bai'r sefyllfa o ran risg llifogydd yn newid yn ystod oes y Cynllun. Bydd hyn yn sicrhau y gellir parhau i ystyried y safle ynghyd â safleoedd eraill er mwyn bodloni'r angen am leiniau newydd i Sipsiwn a Theithwyr.</p> <p>Mae statws y safle o ran risg llifogydd yn parhau yr un fath, ac mae'r safle yn dal i orwedd o fewn Parth Risg Llifogydd C2 yn y Mapiau Cyngor Datblygu diweddaraf a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru.</p> <p>Cynhaliwyd Astudiaeth Ddichonolrwydd gan y Cyngor i ymchwilio i opsiynau i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd ar hyd blaendraeth Rover Way ac Afon Rhymni. Mae'r Astudiaeth hon yn argymhell dewisiadau dylunio ar gyfer gwella'r amddiffynfeydd llifogydd ar hyd y rhan hon o'r arfordir ac fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru am gyllid grant i weithredu'r gwaith a argymhellir.</p> <p>Pe bai arian yn dod ar gael a bod y gwaith yn cael ei weithredu, rhagwelir y gallai'r risg llifogydd sy'n gysylltiedig â'r safle newid, a pharheir i fonitro ac adrodd ar y cynllun hwn mewn AMB'au yn y dyfodol.</p>			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB2 SO8

Polisiâu CDLI perthnasol: H7

Newidiadau Cyd-destunol: Ym mis Tachwedd 2016 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2017. Noda hwn lai o angen am 72 o leiniau parhaol yn y ddinas erbyn 2026 (o'i gymharu â'r angen am 108 o leiniau yn y GTAA blaenorol yn 2013) ac angen rhanbarthol ar gyfer safle tramwy o 10 llain. O'r 72 o leiniau parhaol, mae 48 yn ofynnol yn y tymor byr yn y pum mlynedd nesaf o'i gymharu â 43 yn y GTAA blaenorol yn 2013.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Gwneir darpariaeth i ateb y galw a welwyd am lety parhaol i Sipsiwn a Theithwyr	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cytuno ar drefniadau rheoli project yn cynnwys cynrychiolwyr a strwythur – Gorffennaf 2015 2. Cytuno ar fethodoleg i wneud chwiliad ac aseiad safle – Rhagfyr 2015 3. Gwneud aseiad o anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer lleiniau parhaol a thramwy yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 – Chwe 2016 4. Gwneud chwiliad ac aseiad safle a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau – Gorff 2016 5. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) sydd eu hangen i ateb y galw tymor byr am 43 llain erbyn Mai 2017 6. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) a bennwyd i gwrdd â'r anghenion tymor hir am 65 o leiniau erbyn Mai 2021. 	Methiant i gwrdd â'r targedau hyn	<p>Yn y Cabinet ym mis Ionawr 2016, sefydlwyd trefniadau rheoli projectau, gan gynnwys strwythur adrodd, sefydlu cynrychiolwyr, a chymeradwyo'r fethodoleg ar gyfer ymgymryd â chwilio ac asesu safleoedd. Yn ogystal cymeradwywyd Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016.</p> <p>Nododd y Cabinet ym Medi 2016 fod cynnydd da wedi'i wneud wrth chwilio ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ond cytunodd nad yw'r aseiad wedi'i gwblhau'n llawn eto ac roedd angen clir i gynnal ymchwiliadau technegol manylach. Yn y Cabinet cytunwyd y byddai'n</p>

		<p>gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben, hyd nes y bo'r rhain wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Bu'r gwaith ar gynnal yr asesiadau technegol manylach hyn yn mynd yn ei flaen trwy gydol y flwyddyn. Pan fydd yr asesiadau hyn wedi'u cwblhau, bydd y Cyngor yn ystyried y canfyddiadau ac yn pennu ffordd ymlaen.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>
--	--	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Dadansoddiad

Mae'r Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei rheoli ar y cyd gan Swyddogion o'r adran Tai a'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r gwaith a wneir gan y Grŵp yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio, sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r adran Tai a'r Gwasanaeth Cynllunio ac Aelodau Cabinet perthnasol. Nod yr astudiaeth yw nodi'r angen am lety parhaol a thramwy Sipsiwn a Theithwyr yn y ddinas, a nodi safleoedd i ddiwallu'r angen hwn.

Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys cwblhau Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Noda hwn lai o angen am 72 o leiniau parhaol yn y ddinas erbyn 2026 (o'i gymharu â'r angen am 108 o leiniau yn y GTAA blaenorol yn 2013) ac angen rhanbarthol ar gyfer safle tramwy o 10 llain. O'r 72 o leiniau parhaol, mae 48 yn ofynnol yn y tymor byr yn y pum mlynedd nesaf o'i gymharu â 43 yn y GTAA blaenorol yn 2013.

Er mwyn cwrdd â'r angen hwn, chwiliwyd ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan ddefnyddio meini prawf dewis safleoedd a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2016. Mae'r meini prawf dethol safle a gymeradwywyd yn amlinellu meini prawf asesu o dan dri phrif bennawd sy'n ymwneud ag argaeledd, addasrwydd y safle a pha more debygol yw y bydd y rhain yn cael eu cyflawni. Mae ystyriaethau argaeledd yn cynnwys a yw'r safle yn wirioneddol ar gael yn yr hirdymor ac nad oes unrhyw faterion cyfreithiol ynghlwm. Mae ystyriaethau addasrwydd y safle yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gyfyngiadau polisi a ffisegol, ac mae ystyriaethau cyflenwi yn ymwneud ag ystyried cyfanswm y gost (gan gynnwys unrhyw gostau annormal) i sicrhau nad yw'n niweidio'r gallu i ddatblygu'r safle.

Hyd yma, gwnaed cynnydd da wrth ymgymryd â chwiliad ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a nododd y Cabinet ym mis Medi 2016 fod yr astudiaeth wedi cyrraedd y pwynt lle mae angen clir i ymchwilio ymhellach i agweddau technegol a nodwyd yn y fethodoleg gytunedig. O ystyried hyn, credai'r Cabinet y byddai'n gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben hyd nes y cynhaliwyd yr ymchwiliadau technegol manwl hyn, a chomisiynwyd ymchwiliadau technegol manwl, yn enwedig asesiadau risg llifogydd, i sefydlu'n llawn maint y risg ar hyn o bryd, ynghyd â chwmpas posibl mesurau lliniaru ac unrhyw faterion technegol perthnasol safle-benodol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n ystyried y wybodaeth ddiweddaraf o ran data risg llifogydd.

Mae'r ymchwiliadau safle hyn bellach wedi cyrraedd cam datblygedig. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'r ystyriaethau ar y ffordd ymlaen yn y dyfodol agos.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo rwymedigaeth i fynd ymlaen â'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned. Gallaf gadarnhau bod ymrwymiad cadarn a llwyr yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.

Parheir i fonitro ac adrodd ar gynnydd mewn AMB'au yn y dyfodol.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.

Cyfeirnod OB2 SO9

Polisiâu CDLI perthnasol: H7

Newidiadau Cyd-destunol: Ym mis Tachwedd 2016 cymeradwyodd Llywodraeth Cymru Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau ym mis Mawrth 2017. Noda hwn lai o angen am 72 o leiniau parhaol yn y ddinas erbyn 2026 (o'i gymharu â'r angen am 108 o leiniau yn y GTAA blaenorol yn 2013) ac angen rhanbarthol ar gyfer safle tramwy o 10 llain. O'r 72 o leiniau parhaol, mae 48 yn ofynnol yn y tymor byr yn y pum mlynedd nesaf o'i gymharu â 43 yn y GTAA blaenorol yn 2013.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Gwneir darpariaeth i ateb y galw a welwyd am lety tramwy i Sipsiwn a Theithwyr	<ol style="list-style-type: none"> 1. Cytuno ar drefniadau rheoli project yn cynnwys cynrychiolwyr a strwythur – Gorffennaf 2015 2. Cytuno ar fethodoleg i wneud chwiliad ac asesiad safle – Rhagfyr 2015 3. Gwneud asesiad o anghenion Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer lleiniau parhaol a thramwy yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 – Chwe 2016 4. Gwneud chwiliad ac asesiad safle a sicrhau cymeradwyaeth i'r canfyddiadau – Gorff 2016 5. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) sydd eu hangen i ateb y galw tymor byr am 43 llain erbyn Mai 2017 6. Sicrhau caniatâd cynllunio a chyllid (yn cynnwys unrhyw gyllido grant gan Lywodraeth Cymru) ar gyfer safle(oedd) a bennwyd i gwrdd â'r anghenion 	Methiant i gwrdd â'r targedau hyn	<p>Yn y Cabinet ym mis Ionawr 2016, sefydlwyd trefniadau rheoli projectau, gan gynnwys strwythur adrodd, sefydlu cynrychiolwyr, a chymeradwyo'r fethodoleg ar gyfer ymgymryd â chwilio ac asesu safleoedd. Yn ogystal cymeradwywyd Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016.</p> <p>Nododd y Cabinet ym Medi 2016 fod cynnydd da wedi'i wneud wrth chwilio ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr ond cytunodd nad yw'r asesiad wedi'i gwblhau'n llawn eto ac roedd angen clir i gynnal ymchwiliadau technegol manylach. Yn y Cabinet cytunwyd y byddai'n</p>

	<p>tymor hir am 65 o leiniau erbyn Mai 2021</p>	<p>gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben, hyd nes y bo'r rhain wedi cael eu cwblhau.</p> <p>Bu'r gwaith ar gynnal yr asesiadau technegol manylach hyn yn mynd yn ei flaen trwy gydol y flwyddyn. Pan fydd yr asesiadau hyn wedi'u cwblhau, bydd y Cyngor yn ystyried y canfyddiadau ac yn pennu ffordd ymlaen.</p> <p>Er bod hyn yn cynrychioli oedi i'r targedau cytunedig, mae'r Cyngor yn cydnabod ei bod yn amlwg bod ganddo rwymedigaeth i ddatblygu'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwysu hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned.</p> <p>Hefyd mae'r Cyngor yn gwbl ymrwymedig i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.</p>
--	-------------------------------------------------	--------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------

Dadansoddiad

Mae'r Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr yn cael ei rheoli ar y cyd gan Swyddogion o'r adran Tai a'r Gwasanaeth Cynllunio. Mae'r gwaith a wneir gan y Grŵp yn cael ei oruchwylio gan Grŵp Llywio, sy'n cynnwys uwch swyddogion o'r adran Tai a'r Gwasanaeth Cynllunio ac Aelodau Cabinet perthnasol. Nod yr astudiaeth yw nodi'r angen am lety parhaol a thramwy Sipsiwn a Theithwyr yn y ddinas, a nodi safleoedd i ddiwallu'r angen hwn.

Mae'r cynnydd hyd yn hyn yn cynnwys cwblhau Aseiad Llety Sipsiwn a Theithwyr (GTAA) wedi'i ddiweddarau, a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2016. Noda hwn lai o angen am 72 o leiniau parhaol yn y ddinas erbyn 2026 (o'i gymharu â'r angen am 108 o leiniau yn y GTAA blaenorol yn 2013) ac angen rhanbarthol ar gyfer safle tramwy o 10 llain. O'r 72 o leiniau parhaol, mae 48 yn ofynnol yn y tymor byr yn y pum mlynedd nesaf o'i gymharu â 43 yn y GTAA blaenorol yn 2013.

Er mwyn cwrdd â'r angen hwn, chwiliwyd ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, gan ddefnyddio meini prawf dewis safleoedd a gymeradwywyd gan Gabinet y Cyngor ym mis Ionawr 2016. Mae'r meini prawf dethol safle a gymeradwywyd yn amlinellu meini prawf asesu o dan dri phrif bennawd sy'n ymwneud ag argaeledd, addasrwydd y safle a pha more debygol yw y bydd y rhain yn cael eu cyflawni. Mae ystyriaethau argaeledd yn cynnwys a yw'r safle yn wirioneddol ar gael yn yr hirdymor ac nad oes unrhyw faterion cyfreithiol ynghlwm. Mae ystyriaethau addasrwydd y safle yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o gyfyngiadau polisi a ffisegol, ac mae ystyriaethau cyflenwi yn ymwneud ag ystyried cyfanswm y gost (gan gynnwys unrhyw gostau annormal) i sicrhau nad yw'n niweidio'r gallu i ddatblygu'r safle.

Hyd yma, gwnaed cynnydd da wrth ymgymryd â chwiliad ledled y ddinas am dir a allai fod yn addas ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr, a nododd y Cabinet ym mis Medi 2016 fod yr astudiaeth wedi cyrraedd y pwynt lle mae angen clir i ymchwilio ymhellach i agweddau technegol a nodwyd yn y fethodoleg gytunedig. O ystyried hyn, credai'r Cabinet y byddai'n gynamserol dod â'r broses asesu safle i ben hyd nes y cynhaliwyd yr ymchwiliadau technegol manwl hyn, a chomisiynwyd ymchwiliadau technegol manwl, yn enwedig asesiadau risg llifogydd, i sefydlu'n llawn maint y risg ar hyn o bryd, ynghyd â chwmpas posibl mesurau lliniaru ac unrhyw faterion technegol perthnasol safle-benodol. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud mewn cysylltiad â Chyfoeth Naturiol Cymru ac mae'n ystyried y wybodaeth ddiweddaraf o ran data risg llifogydd.

Mae'r ymchwiliadau safle hyn bellach wedi cyrraedd cam datblygedig. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn helpu i lywio'r ystyriaethau ar y ffordd ymlaen yn y dyfodol agos.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod ganddo rwymedigaeth i fynd ymlaen â'r asesiad safle cyn gynted ag y bo modd; fodd bynnag, mae angen cydbwyso hyn yn erbyn yr angen i ddod o hyd i'r safle gorau posibl i'r gymuned. Gallaf gadarnhau bod ymrwymiad cadarn a llwyr yn parhau i gydymffurfio â gofynion Deddf Tai (Cymru) 2014.

Parheir i fonitro ac adrodd ar gynnydd mewn AMB'au yn y dyfodol.

Argymhellion

Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro

Cyfeirnod OB2 SO10

Polisiâu CDLI perthnasol: H7

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
LLEOL Y cyfanswm o leiniau Sipsiwn a Theithwyr ar gyfer llety preswyl	Sicrhau bod y cyflenwad presennol o leiniau yn cael eu cynnal. (Os na fydd lleiniau ar gael bellach ceisir lleiniau amgen)	Unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau presennol i Sipsiwn a Theithwyr	Ni fu unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau presennol i Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro
Dadansoddiad			
Mae'r Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr wedi'i ddiweddarau (GTAA) a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru yn nodi bod 80 o leiniau ar ddau safle sy'n eiddo i awdurdod lleol yn Shirenewton (59 llain) a Rover Way (21 llain). Yn ogystal â hyn mae pedwar safle preifat awdurdodedig gyda chyfanswm o 22 llain, yn rhoi cyfanswm o 92 o leiniau yn y Sir gyfan. Ni chafwyd unrhyw golled net o ddarpariaeth lleiniau Sipsiwn a Theithwyr yn ystod y cyfnod monitro.			
Argymhellion			
Dim angen gweithredu ar hyn o bryd. Parhau i fonitro.			

Cyfeirnod OB2 SO11

Polisiâu CDLI perthnasol: KP2

Newidiadau Cyd-destunol: Ni fu unrhyw newidiadau cyd-destunol arwyddocaol yn ymwneud â'r maes polisi hwn yn ystod y cyfnod monitro.

Dangosydd	Targed	Sbardun	Perfformiad
	Nifer o drigolion sy'n gweithio yng Nghaerdydd, nifer o bobl yn teithio allan o Gaerdydd, nifer o bobl yn teithio i mewn i Gaerdydd	amh.	<p>Trigolion sy'n gweithio yng Nghaerdydd: 2015 = 131,400 2016 = 139,500 (+6%)</p> <p>Trigolion sy'n cymudo allan o Gaerdydd: 2015 = 34,000 2016 = 27,700 (-19%)</p> <p>Cymudo i Gaerdydd o'r tu allan: 2015 = 84,400 2016 = 89,700 (+7%)</p>	<p>Yn ôl data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth fel y cyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, mae 229,200 o bobl ar hyn o bryd yn gweithio yng Nghaerdydd. O'r rhain mae tua 139,500 yn byw yng Nghaerdydd, gyda'r 89,700 sy'n weddill wedi teithio o'r tu allan (pob dull). Yn y cyfamser, mae tua 27,700 o drigolion ar hyn o bryd yn cymudo y tu allan i'r awdurdod.</p> <p>Mae'r cyfanswm sy'n gweithio yng Nghaerdydd wedi cynyddu 6% ers 2015, gyda chynnydd o 7% yn yr un cyfnod o'r rhai sy'n cymudo i Gaerdydd o'r tu allan. Dengys y data hefyd ostyngiad mawr yn nifer y trigolion sy'n gweithio y tu allan i Gaerdydd (-19%), i weithio yn hytrach o fewn yr awdurdod. Gallai hyn fod o ganlyniad i fwy o gyfleoedd cyflogaeth deniadol yn y blynyddoedd diwethaf yng Nghaerdydd ei hun, gan arwain at ostyngiad mewn angen i deithio y tu allan er mwyn ceisio cyflogaeth.</p> <p>Darperir nifer a chyfran y rhai sy'n teithio i Gaerdydd i weithio yn ôl tarddiad yn y tabl isod –</p>

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau			
			Cyfanswm sy'n gweithio yng Nghaerdydd: 2015 = 215,400 2016 = 229,200 (+6%)	Tarddiad	2015	2016	Newid
				Blaenau Gwent	1,000 (0.5%)	1,100 (0.5%)	10%
				Pen-y-bont ar Ogwr	6,200 (3%)	7,700 (3%)	24%
				Caerffili	13,200 (6%)	14,300 (6%)	8%
				Caerdydd (Mewnol)	131,400 (61%)	139,500 (61%)	6%
				Merthyr Tudful	1,500 (1%)	2,700 (1%)	80%
				Sir Fynwy	2,500 (1%)	2,300 (1%)	-8%
				Casnewydd	9,700 (5%)	8,100 (4%)	-16%
				Rhondda Cynon Taf	18,800 (9%)	22,000 (10%)	17%
				Bro Morgannwg	20,300 (9%)	20,100 (9%)	-1%
				Torfaen	3,100 (1%)	3,500 (2%)	13%
				CYFANSWM O'r Rhanbarth (heblaw Caerdydd)	76,300 (35%)	81,800 (36%)	7%
				CYFANSWM O'r tu allan i'r Rhanbarth	7,700 (4%)	7,900 (3%)	3%
				CYFANSWM Cymudo i mewn	84,000 (39%)	89,700 (39%)	7%
				Cyfanswm sy'n gweithio yng Nghaerdydd	215,400 (100%)	229,200 (100%)	6%

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<p>Fel y gwelir o'r uchod, mae tua 81,000 yn cymudo ar hyn o bryd i Gaerdydd o ranbarth De-ddwyrain Cymru. O'r rhain mae'r gyfran fwyaf sylweddol yn dod o Rhondda Cynon Taf (10% o'r cyfanswm sy'n gweithio yng Nghaerdydd), Bro Morgannwg (9%), Caerffili (6%), Casnewydd (4%), a Phen-y-bont ar Ogwr (3%).</p> <p>Mae'r nifer sy'n cymudo o'r rhanbarth wedi codi 7% ers 2015, gyda chynnydd mawr dros y cyfnod hwn o Ferthyr Tudful (+80%), Pen-y-bont ar Ogwr (+24%), Rhondda Cynon Taf (+17%), a Thorfaen (+13%). Yn y cyfamser, mae'r gyfran o Gasnewydd a Sir Fynwy wedi gostwng dros yr un cyfnod, o 16% ac 8% yn y drefn honno.</p>
	Rhaniad moddol	O leiaf 50% o'r holl deithiau ar rwydwaith trafnidiaeth Caerdydd yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy erbyn diwedd cyfnod y Cynllun yn 2026	<p>Gwerthoedd absoliwt: 2015 = 46.0% 2016 = 50.3%</p> <p>Cyfartaledd treigl 5 mlynedd: 2015 = 47.6% 2016 = 48.0%</p>	<p>Cofnodir teithio fesul modd bob blwyddyn yn Arolwg Holi Caerdydd ar gyfer y pwrpasau teithio canlynol - Gwaith, Addysg, Siopa (Canol y Ddinas), Siopa (Arall) a Hamdden. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ystyried teithiau sy'n gysylltiedig â busnes, teithiau hebrwng nad ydynt yn ymwneud ag addysg, neu deithiau ar gyfer busnes personol. Felly, er mwyn rhoi cyfrif am y pwrpasau teithio sydd heb eu nodi, mae angen defnyddio data o'r Arolwg Teithio Cenedlaethol (NTS), fel y'i cyhoeddir yn flynyddol gan y DfT yn Nhabl NTS0409. Sylwer fod dadansoddiadau blaenorol TEMPRO y DfT wedi eu defnyddio yn y gorffennol. Defnyddir yr un set ddata NTS hefyd i greu cyfran gymharol pob pwrpas teithio er mwyn cyrraedd ffigwr sengl ar gyfer defnyddio dulliau cynaliadwy i bob taith. Dengys y ffigyrau canlyniadol bod 50% o'r holl deithiau yn 2016 eisoes yn cael eu gwneud drwy ddulliau cynaliadwy, cynnydd o 46.0% yn 2015. Er ei bod yn ymddangos bod y targed 2026</p>

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau																																																								
				<p>eisoes wedi'i gyflawni - ond wrth gymryd cyfartaledd treigl 5 mlynedd mwy cynrychioliadol, mae'r duedd bresennol yn 48.0%, o'i gymharu â 47.6% yn 2015. Serch hynny, y realiti yw y bydd angen ymdrechion sylweddol er mwyn cynnal rhaniad moddol o 50%, yn wyneb y pwysau cynyddol o gynnydd o 12% yn y boblogaeth a ragwelir rhwng 2016 a 2026, a chyda thwf cyfatebol yn y nifer o deithiau.</p> <p>Darperir isod ddadansoddiad o gyfrannau'r holl deithiau sy'n teithio'n gynaliadwy yn ôl bob pwrpas teithio, yn seiliedig ar y fethodoleg a ddisgrifiwyd yn flaenorol –</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th>Gwaith</th> <th>Addysg</th> <th>Hamdden</th> <th>Siopa</th> <th>Arall</th> <th>Bob taith</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>2010</td> <td>6.4%</td> <td>6.9%</td> <td>20.2%</td> <td>11.5%</td> <td>6%</td> <td>50.7%</td> </tr> <tr> <td>2011</td> <td>6.8%</td> <td>7.4%</td> <td>17.5%</td> <td>10.7%</td> <td>6%</td> <td>48.2%</td> </tr> <tr> <td>2012</td> <td>6.7%</td> <td>8.0%</td> <td>17.3%</td> <td>10.4%</td> <td>6%</td> <td>48.0%</td> </tr> <tr> <td>2013</td> <td>6.7%</td> <td>7.8%</td> <td>16.8%</td> <td>10.2%</td> <td>6%</td> <td>47.0%</td> </tr> <tr> <td>2014</td> <td>7.3%</td> <td>7.1%</td> <td>18.1%</td> <td>10.5%</td> <td>6%</td> <td>48.6%</td> </tr> <tr> <td>2015</td> <td>7.0%</td> <td>6.1%</td> <td>16.8%</td> <td>10.6%</td> <td>5%</td> <td>46.0%</td> </tr> <tr> <td>2016</td> <td>7.3%</td> <td>7.3%</td> <td>19.2%</td> <td>11.1%</td> <td>5%</td> <td>50.3%</td> </tr> </tbody> </table> <p>Dangosir yr uchod ar ffurf graffigol yn y siart wedi'i stacio isod. O bawb sy'n teithio'n gynaliadwy ar hyn o bryd, dengys y siart bod y gyfran fwyaf ar gyfer teithiau Hamdden. Ar hyn o bryd, nid yw teithiau Gwaith ac 'Arall' yn cyflawni'r targed cynaliadwy o 50%, ar 48% a 25%, yn ôl eu trefn. Mae hyn er</p>		Gwaith	Addysg	Hamdden	Siopa	Arall	Bob taith	2010	6.4%	6.9%	20.2%	11.5%	6%	50.7%	2011	6.8%	7.4%	17.5%	10.7%	6%	48.2%	2012	6.7%	8.0%	17.3%	10.4%	6%	48.0%	2013	6.7%	7.8%	16.8%	10.2%	6%	47.0%	2014	7.3%	7.1%	18.1%	10.5%	6%	48.6%	2015	7.0%	6.1%	16.8%	10.6%	5%	46.0%	2016	7.3%	7.3%	19.2%	11.1%	5%	50.3%
	Gwaith	Addysg	Hamdden	Siopa	Arall	Bob taith																																																						
2010	6.4%	6.9%	20.2%	11.5%	6%	50.7%																																																						
2011	6.8%	7.4%	17.5%	10.7%	6%	48.2%																																																						
2012	6.7%	8.0%	17.3%	10.4%	6%	48.0%																																																						
2013	6.7%	7.8%	16.8%	10.2%	6%	47.0%																																																						
2014	7.3%	7.1%	18.1%	10.5%	6%	48.6%																																																						
2015	7.0%	6.1%	16.8%	10.6%	5%	46.0%																																																						
2016	7.3%	7.3%	19.2%	11.1%	5%	50.3%																																																						

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<p>gwaethaf teithiau sy'n gysylltiedig â Gwaith yn ffurfio 15% o'r galw cyffredinol, a theithiau 'Arall' yn cyfrif am 22% pellach (37% gyda'i gilydd). Felly, mae hyn yn dangos pwysigrwydd y pwrpasau teithio hyn tuag at gyflawni'r rhaniad moddol 50:50 ar gyfer pob taith erbyn 2026 -</p> <p>Ystyriaeth bellach yw bod y mesur uchod yn ymwneud â chyfartaledd ar draws y diwrnod. Fodd bynnag, gwyddys bod y pwysau mwyaf yn digwydd yn ystod cyfnodau brig, pan fydd cyfran uwch o symudiadau yn cael eu gwneud mewn car.</p>
	Darparu seilwaith trafnidiaeth fel rhan o Safleoedd Strategol allweddol	Yn ôl y CDLI ac uwchgyngluniau safle	Ardal Chwilio Strategol Ardal Fenter Canol Caerdydd - Cyfraniadau Cyllido A106:	<p>Cytunwyd ar gyflenwi'r seilwaith a'r mentrau cynaliadwy canlynol fel rhan o'r safleoedd strategol allweddol, a fydd yn helpu i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr –</p> <p>Ardal Chwilio Strategol Ardal Fenter Canol Caerdydd</p> <p>16/02731/MJR - Hyb Trafnidiaeth Integredig:</p>

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
			<ul style="list-style-type: none"> • 16/02731/MJ R Hyb Trafnidiaeth Integredig (Disgwyl llofnodi A106) <p>SSC. G-O Caerdydd - Cyfraniadau Cyllido A106:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14/02157/MJ R - Tir i'r Gogledd a'r De o Llantrisant Road £605,000 (£5,000 Wedi'i dderbyn) • 14/02733/ MJR – Plasdwr £26.03 miliwn (Yn 	<ul style="list-style-type: none"> • Hyb Trafnidiaeth Integredig, seiliedig ar 14 stondin gyda threfniant DIRO • Cyfleuster Storio beiciau gyda 500 lle <p>SSC. G-O Caerdydd</p> <p>14/02157/MJR – Tir i'r Gogledd a'r De o Llantrisant Road:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parcio beiciau, gan gynnwys Gorsaf Radur • 3 x cyfnewidfa mynediad blaenoriaeth newydd 3x ar Heol Casnewydd, gyda llwybrau troed, llwybrau beiciau a chyfleusterau croesi • Lôn fysiau newydd 3m o led i'r dwyrain ar Llantrisant Road gyda safleoedd bws cysylltiedig • Cyffordd rheoli signal traffig newydd yn Llantrisant Road/ Heol Isaf, gyda chyfleusterau Twcan ar bob cangen, lôn fysiau ar y gangen ddeheuol, a llwybrau troed a llwybrau beicio cysylltiedig • Cylchfan ddyrchafedig newydd gyda chroesfan sebra ar Heol Casnewydd • Cyfleusterau croesi Twcan newydd x 2 • Cymhorthdal i ddarparu estyniad i wasanaethau bws presennol am 2 flynedd rhwng Danescourt a Clos Parc Radur • Darparu tocyn teithio bws 1-flwyddyn am ddim a £50 taleb beicio i'r deiliaid preswyl cyntaf <p>14/02733/MJR - Plasdwr:</p>

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
			<p>destun i'r amserlen)</p> <ul style="list-style-type: none"> • 16/00106/MJ R - Goitre Fach Farm £1.29 miliwn (Yn destun i'r amserlen) • 14/02188/MJ R - I'r De o Bentre-baen £1.33 miliwn (Yn destun i'r amserlen) <p>SSD. I'r Gogledd o C33 - Cyfraniadau Cyllido A106:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14/00852/DCO – I'r Gogledd o C33 (Disgwyl llofnodi A106) 	<ul style="list-style-type: none"> • Cyffordd rheoli traffig newydd yn Llantrisant Road/Crofft-y-Genau, gyda chyfleusterau Twcan ar bob cangen (C1) • Croesfan sebra ddyrchafedig newydd ar Rhydlafer Drive, gyda lledu troedffordd a rhannu defnydd • Diogelu coridor ar gyfer darparu lôn fysiau tua'r gogledd Crofft-y-Genau Road • Triniaeth ffordd ddosbarthu ar Crofft-y-Genau Road • Cyffordd mynediad â rheolaeth draffig newydd ar Llantrisant Road, gyda lonydd bwydo beiciau a chyrbau wedi'u gostwng (C2) • Diogelu tir ar gyfer darparu llwybr bws tua'r gogledd ar y fraich ddeheuol i C2 • Cyffordd rheoli traffig newydd yn Llantrisant Road/Clos Park Radur, gyda chroesfannau ffurfiol i gysylltu llwybrau beicio a ffyrdd bwydo beiciau (C3) • Llwybr bysiau tua'r gogledd newydd ar y gangen ddeheuol i C3 • 3x cyffordd mynediad blaenoriaeth newydd ar Llantrisant Road, gyda chyfleusterau croesi, troedffyrdd, lonydd beicio, rhannu defnydd & byrddau dyrchafedig (J4-6) • Cyffordd rheoli traffig newydd ar Pentrebane Road/Waterhall Road, gyda lonydd beiciau dau-gyfeiriad 3m o led cysylltiedig & Croesfannau Twcan ar bob cangen (C11) • Cyfleuster beicio wedi'i wahanu newydd rhwng Amethyst Road a C11

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
			<p>SSF. G-Dd Caerdydd - Cyfraniadau Cyllido A106:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 14/02891/MJ R - Churchlands (Disgwyl llofnodi A106) <p>SSG. St Ederm - Cyfraniadau Cyllido A106:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 13/00578/DC O - St Ederm £2.79 miliwn (£6,500 Wedi'i dderbyn) 	<ul style="list-style-type: none"> • 2x cyffordd mynediad blaenoriaeth newydd ar Pentrebane Road, gyda lonydd beiciau dau-gyfeiriad 3m o led cysylltiedig, cyfleusterau croesi & cyrbau gostyngol (C12-13) • Diogelu tir ar gyfer darparu a llwybr bysiau tua'r de ar y gangen ogleddol i C12 • Ail-alinio Crofft-y-Genau Road i Pentrebane Road, gan ddarparu mynediad beicwyr a cherddwyr i St Brides Road (C14) • Cau Pentrebane Road, a darparu cyswllt rhannu defnydd • Gât traffig ANPR i gyfyngu mynediad llif llanw i Crofft-y-Genau Road • 2x cyffordd mynediad blaenoriaeth newydd ar Crofft-y-Genau Road, gyda gât traffig ANPR cysylltiedig a mynediad ar gyfer symudiadau bysiau (C15-16) • 270m llwybr bysiau tua'r de yn Bridge Road, ffordd feicio a throedffordd wedi'i rhannu a chyffordd â signalau yn Llantrisant Road • Cardiff Road/Fairwater Road - uwchraddio signalau traffig • Cardiff Road – gwelliannau beicio ac arosfannau bws rhwng Ely Road a Fairwater Road • Darparu lôn feicio oddi ar y ffordd wedi'i gwahanu ar hen reilffordd segur • 90m o lwybr bysiau tua'r de ar ffordd ddynesu Fairwater Road i St Fagans Road • Heol Isaf - gwelliannau i gerddwyr a beicwyr

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<ul style="list-style-type: none"> • Llantrisant Road lôn feicio wedi'i gwahanu ar yr ochr ddeheuol rhwng Gorsaf Danescourt a Cardiff Road • 300m lôn bus tua'r dwyrain & lôn feicio a throedfordd a rennir ar yr ochr ddeheuol i St Fagans Road • Gwelliannau diogelwch i St Fagans Road • 100m llwybr bysiau tua'r gorllewin ar Waun-Gron Road • A48 gwelliannau cyffordd Western Avenue/Waun-Gron Road • Stryd beicio Amethyst Road rhwng Plasmawr Road a Keyston Road • Cardiff Road - gwelliannau llwybr bysiau tua'r gogledd ar gyffordd Western Avenue • Prif lwybr beicio Dwyrain-Gorllewin, Llandaf • Cyffordd rheoli traffig newydd yn Llantrisant Road/Danescourt Road East • Cyffordd rheoli traffig newydd yn Llantrisant Road/Danescourt Road West • Llantrisant Road - lôn feicio a throedfordd a rennir rhwng Danescourt Road East/West • Llantrisant Road - lôn feicio a throedfordd a rennir rhwng Waterhall Road a Heol Aradur • Gostegu traffig & gwelliannau beicio yn Pwllmelin Road a Fairwater Road • Radyr Court Road - gostegu traffig ar y llwybr beicio • Radyr Court Road – diogelwch cerddwyr a beicwyr a gwelliannau mynediad, gyda chroesfan sebra ar Bridge Road • Radyr Court Road – uwchraddio'r cyswllt beicio i Llantrisant Road

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<ul style="list-style-type: none"> • Western Avenue i Gylchfan Elái tua'r de – cyn-signalau traffig • Croesfordd Twcan ar gyffordd Western Avenue/Ely Road (Dwyrain) • Western Avenue i Waun-Gron Road - lôn feicio a throedfordd a rennir ar yr ochr orllewinol • Cyffordd Cardiff Road/Palace Road, gwelliannau i gerddwyr a gostegu traffig • Darparu £12 miliwn o gymorthdaliadau bws, i ddarparu gwasanaethau'n cysylltu'r datblygiadau, Pentre-baen, Radur, Canol Dinas Caerdydd (drwy Llantrisant Road & Pentrebane Road), Pontyclun/Talbot Green, Ysbyty'r Heath, Parcio a Theithio C33, Cyfnewidfa Gorllewin Caerdydd, Bae Caerdydd (drwy Ely Mill), a'r Eglwys Newydd (drwy Llandaf) <p>16/00106/MJR - Goitre Fach Farm:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Parcio beiciau • Cyffordd mynediad â signalau traffig newydd ar Llantrisant Road gyda chyfleusterau croesi Twcan a Puffin • Ail-alinio lôn feicio wedi'i gwahanu ar Llantrisant Road • Cyfleusterau cludiant cyhoeddus newydd, cyfleusterau cerddwyr a beicwyr newydd ar hyd Llantrisant Road • Cyfleuster croesi dyrchafedig newydd ar Llantrisant Road

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<ul style="list-style-type: none"> • Ffordd ddosbarthu newydd gyda throedffordd 2m o led, lôn feicio wedi'i gwahanu 3m o led, a cherbyttffordd 6.3m o led • Cyfraniad bws i Llantrisant Road (sy'n destun i feddiannaeth) • Mesurau beicio ar A4119 rhwng cylchfan Waterhall Road a Penhill Road • Darparu tocyn teithio bws 1-flwyddyn am ddim a thaleb beicio £50 i'r deiliaid preswyl cyntaf <p>14/02188/MJR - I'r De o Bentre-baen:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyffordd â mynediad blaenoriaeth newydd yn Pentrebane Road i gynnwys symudiadau bws diogel a chyfleus 2-ffordd, gyda darpariaeth troedffordd a beicio cysylltiedig • Darparu arosfan bws & cylch troi bws, gyda lonydd beicio wedi'u gwahanu 3m o led, troedffyrdd 2m o led a 6.1m o gerbyddffordd i hyrwyddo teithio cynaliadwy • Parcio beiciau diogel, yn cynnwys parcio beiciau â gorchudd yng Ngorsaf y Tyllgoed ac mewn arosfannau bws allweddol • Gwelliannau i Llantrisant Road & Pentrebane Road fel rhan o raglen Coridor y Gogledd-orllewin • Cyfraniad bws (yn unol â phwyntiau sbardun a gosodiadau) • Darparu tocyn teithio bws 1-flwyddyn am ddim a thaleb beicio £50 i'r deiliaid preswyl cyntaf

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<p>SSD. I'r Gogledd o C33</p> <p>14/00852/DCO - I'r Gogledd o C33:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfleuster Parcio a Theithio 1000 o lefydd, gyda 3/4 yn cael mynediad o C33 & 1/4 yn cael mynediad o A4119 (yn amodol ar lofnodi A106 sydd ar fin digwydd) • Cyffyrdd newydd ar Llantrisant Road, yn cynnwys cyfleusterau croesi, darpariaeth beiciau a llwybrau troed cysylltiedig, a lonydd bysiau (yn amodol ar lofnodi A106 sydd ar fin digwydd) • Seilwaith trafnidiaeth cyhoeddus ar y safle, lonydd bws a beicio (yn amodol ar lofnodi A106 sydd ar fin digwydd) • Cyfraniad ariannol tuag at wasanaethau bws newydd a gwell (yn amodol ar lofnodi A106 sydd ar fin digwydd) <p>SSF. G-Dd Caerdydd</p> <p>14/02891/MJR – Churchlands (<i>Seilwaith heb ei gadarnhau, gan y disgwylir am lofnodi'r A106</i>)</p> <p>SSG. St Edern</p> <p>13/00578/DCO - St Edern:</p>

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
				<ul style="list-style-type: none"> • Darparu cyswllt coll i Lwybr Rhymni, i'r De o A48 rhwng Cyfnewidfa Cyswllt Pentwyn a datblygiadau, yn cynnwys uwchraddio'r danffordd A48 • Llefydd parcio beiciau • Archwiliad & darparu a llwybr bysiau tua'r gogledd ar yr A4232 • Estyniad gwasanaeth bws o'r datblygiad i Ganol y Ddinas yn gwasanaethu Church Road a St Mellons Road • Archwiliad & darparu estyniad gwasanaeth bws ar yr A48 o'r A4232 • Cynllun i ddangos gweithrediad effeithiol Cylchfan Heol Pontpennau, yn cynnwys mesurau blaenoriaethau bws, cyfleusterau croesi Twcan, a darpariaeth gysylltiedig i gerddwyr a beicwyr • Triniaeth ffordd ddosbarthu ar ffordd fynediad, yn cynnwys darparu lôn bws • Lledu'r troedffyrdd presennol sy'n cysylltu'r Groesfan Twcan a chroesffordd â signalau Heol Pontpennau • Cynllun i ddarparu lôn a rennir i'r De o Gylchfan Heol Pontpennau, yn rhoi cyswllt uniongyrchol di-draffig i Gyfnewidfa'r A48 gyda Church Road • Cynllun i ostwng y cyflymder gyrru ar Gyswllt Pentwyn tuag at C30 o 50mya i 40mya • Cynllun i rwystro cerbydau rhag cael mynediad drwy St Mellons Road a Bridge Road, trwy osod gatiâu bws ar bob pen • Darparu pont newydd ar draws Afon Tredelerch i gerddwyr a beicwyr i Laneirwg

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
	Caniatâd a roddwyd i ddatblygiadau hynod agored i niwed mewn ardaloedd risg llifogydd C1 a C2	0	0	Ni roddwyd caniatâd i unrhyw geisiadau am ddatblygiadau hynod agored i niwed mewn ardaloedd risg llifogydd C1 a C2 yn ystod y cyfnod monitro.
5. Diogelu a gwella treftadaeth hanesyddol a diwylliannol	Nifer yr adeiladau rhestredig, ardaloedd cadwraeth, ayb.	Dim gostyngiad	Dim gostyngiad	Ni fu gostyngiad yn nifer y dynodiadau lleol, cenedlaethol neu ryngwladol o ganlyniad i geisiadau a gymeradwywyd yn ystod y cyfnod monitro. Ystyrir bod yr holl geisiadau perthnasol a ganiateir yn ystod y cyfnod monitro yn cydymffurfio â pholisi yn destun i osod amodau/argymhellion ar y caniatâd.
6. Helpu i sicrhau twf economi gynaliadwy ac amrywiol	Creu swyddi net dros weddill cyfnod y Cynllun	40,000 net o swyddi ychwanegol dros gyfnod y cynllun, 20,900 rhwng 2006 and 2015	12,000 ers 2009	Cyfanswm swyddi yng Nghaerdydd - 202,000 yn 2015 (ffigyrau diweddaraf Nomisweb.co.uk, Mai 2017). Mae hyn yn cymharu â ffigwr cyfatebol yn 2009 o 190,000 o swyddi yng Nghaerdydd, sy'n cynrychioli cynnydd o 12,000 mewn swyddi dros y cyfnod hwnnw.
7. Gwella iechyd a llesiant	Cyflenwi seilwaith cymunedol fel rhan o safleoedd datblygu allweddol			O fis Mehefin 2017, rhoddwyd caniatâd/ caniatadau cynllunio yn Safleoedd Strategol C (Gogledd-orllewin Caerdydd), F (Gogledd-ddwyrain Caerdydd – l'r Gorllewin o Bontpennau) a G (l'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontpennau). Mae cytundebau A106 cysylltiedig yn cysylltu â'r ddarpariaeth seilwaith a nodwyd trwy bolisïau KP2 (A-H). Hyd yn hyn, dim ond ar Safle G y mae'r gwaith adeiladu wedi cychwyn, a bydd darpariaeth y seilwaith a nodwyd trwy'r cytundebau A106

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau																																																																
				cysylltiedig yn cael ei fonitro wrth i'r cynlluniau fynd rhagddynt dros y blynyddoedd i ddod.																																																																
	% o deithiau a wneir drwy gerdded/beicio	Cynnydd	<p>Gwaith: 2015 = 26.6% 2016 = 29.2% (+2.6%)</p> <p>Addysg: 2015 = 31.5% 2016 = 37.2% (+5.7%)</p> <p>Siopa (Canol y Ddinas): 2015 = 22.4% 2016 = 25.0% (+2.6%)</p> <p>Siopa (Arall): 2015 = 27.5% 2016 = 29.5% (+2.0%)</p> <p>Hamdden: 2015 = 28.5% 2016 = 31.8% (+3.3%)</p> <p>Bob taith: 2015 = 24.4%</p>	<p>Yn seiliedig ar ddata o Arolwg Holi Caerdydd, mae'r gyfran o deithiau a wneir gan ddulliau teithio llesol (h.y. cerdded a beicio), wedi cynyddu rhwng 2015 a 2016. At ei gilydd, cyfrifir bod y gyfran o'r rhain yn 27.4% o'r holl deithiau yn 2016, o'i gymharu â 24.4% yn 2015, sy'n cyfateb i gynnydd o tua 3%. Cyflwynir y gyfran sy'n cerdded a beicio i bob pwrpas teithio yn y tabl isod –</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th></th> <th colspan="2">Cerdded</th> <th colspan="2">Beicio</th> <th colspan="3">Cerdded & Beicio</th> </tr> <tr> <th></th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>Newid</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwaith</td> <td>17%</td> <td>18%</td> <td>10%</td> <td>11%</td> <td>27%</td> <td>29%</td> <td>3%</td> </tr> <tr> <td>Addysg</td> <td>23%</td> <td>28%</td> <td>9%</td> <td>10%</td> <td>32%</td> <td>37%</td> <td>6%</td> </tr> <tr> <td>Siopa (Canol y Ddinas)</td> <td>17%</td> <td>18%</td> <td>6%</td> <td>7%</td> <td>22%</td> <td>25%</td> <td>3%</td> </tr> <tr> <td>Siopa (Arall)</td> <td>22%</td> <td>24%</td> <td>5%</td> <td>6%</td> <td>28%</td> <td>30%</td> <td>2%</td> </tr> <tr> <td>Hamdden</td> <td>19%</td> <td>22%</td> <td>10%</td> <td>10%</td> <td>29%</td> <td>32%</td> <td>3%</td> </tr> <tr> <td>Bob taith</td> <td>18%</td> <td>20%</td> <td>6%</td> <td>7%</td> <td>24%</td> <td>27%</td> <td>3%</td> </tr> </tbody> </table>		Cerdded		Beicio		Cerdded & Beicio				2015	2016	2015	2016	2015	2016	Newid	Gwaith	17%	18%	10%	11%	27%	29%	3%	Addysg	23%	28%	9%	10%	32%	37%	6%	Siopa (Canol y Ddinas)	17%	18%	6%	7%	22%	25%	3%	Siopa (Arall)	22%	24%	5%	6%	28%	30%	2%	Hamdden	19%	22%	10%	10%	29%	32%	3%	Bob taith	18%	20%	6%	7%	24%	27%	3%
	Cerdded		Beicio		Cerdded & Beicio																																																															
	2015	2016	2015	2016	2015	2016	Newid																																																													
Gwaith	17%	18%	10%	11%	27%	29%	3%																																																													
Addysg	23%	28%	9%	10%	32%	37%	6%																																																													
Siopa (Canol y Ddinas)	17%	18%	6%	7%	22%	25%	3%																																																													
Siopa (Arall)	22%	24%	5%	6%	28%	30%	2%																																																													
Hamdden	19%	22%	10%	10%	29%	32%	3%																																																													
Bob taith	18%	20%	6%	7%	24%	27%	3%																																																													

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
			2016 = 27.4% (+3.0%)	
	Canran y boblogaeth yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru am amgylchedd ffisegol	Gostyngiad	28%	Dengys data'r Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru diweddaraf data o 2015 bod 28% o boblogaeth Caerdydd yn y 100 ward mwyaf amddifad yng Nghymru am amgylchedd ffisegol.
8. Diogelu a gwella'r dirwedd	Cyflawni gofynion man agored gweithredol	2.43ha fesul 1,000 o boblogaeth	1.18ha fesul 1,000 o boblogaeth	Dengys y ffigyrau diweddaraf 1.18 ha o fan agored gweithredol fesul 1,000 o boblogaeth yng Nghaerdydd. I bob math o fan agored, y ffigwr cyfatebol yw 7.44 ha o fan agored fesul 1,000 o boblogaeth.
	Ardaloedd Tirwedd Arbennig	Pum ATA wedi'u dynodi trwy fabwysiadu'r cynllun	Pum ATA wedi'u dynodi	Pum ATA wedi'u dynodi yn: <ul style="list-style-type: none"> • Iseldiroedd Sain Ffagan a Chwm Elái • Rhodfeydd Garth Hill a Phentyrch • Fforest Fawr a Chrib Caerffili • Lefelau Gwynllŵg • Ynys Echni
9. Defnyddio adnoddau naturiol yn effeithlon a diogelu eu hansawdd	Canran y tai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen	60%	84.2%	Ar gyfer 2016/17 roedd 84.2% o dai ar dir a ddatblygwyd o'r blaen.
	Cyfartaledd dwysedd		118.7 o anheddau fesul	Ar gyfer 2016/17 roedd dwysedd cyfartalog datblygiad tai newydd yng Nghaerdydd yn 118.7 annedd yr hectar.

Amcan AG	Dangosydd	Targed	Data	Sylwadau
	datblygiadau newydd		hectar	
	Arwynebedd o dir wedi'i lygru a gafodd ei glirio	>0	Amh.	Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddata ar gael i fonitro'r dangosydd hwn. Ailasesir y sefyllfa yn yr adroddiad monitro nesaf.
10. Ymateb i newidiadau demograffig mewn ffordd gynaliadwy	Cyfanswm y boblogaeth	amh.	361,468	Mae'r amcangyfrif canol blwyddyn diweddaraf ar gyfer Caerdydd a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod gan Gaerdydd boblogaeth o 361,468 yn 2016.
	Nifer o gartrefi yng Nghaerdydd	45,400 net o gartrefi ychwanegol erbyn 2026	14,247 wedi'i gwblhau 2006 i 2017	Ers dyddiad sylfaen y Cynllun yn 2006 cwblhawyd 14,247 o anheddau, gan adael 27,168 ar ôl i'w cwblhau.
11. Lleihau gwastraff, cynyddu aildefnyddio ac ailgylchu	Cyfradd lleihau gwastraff	Gostyngiad fesul cartref	+2.6%	Cynyddodd y gwastraff a gynhyrchir fesul cartref yng Nghaerdydd o 1.16 i 1.19 tunnell fetrig fesul cartref rhwng 2014/15 a 2015/16, sy'n cynrychioli cynnydd o 2.6%.

7. Casgliadau

Dyma'r AMB cyntaf i'w baratoi ers mabwysiadu CDLI Caerdydd ac mae'n darparu datganiad sefyllfa tymor byr ar effeithiau cychwynol y CDLI. Er ei bod yn anodd pennu tueddiadau pendant mewn perfformiad polisi, casgliad allweddol yr AMB cyntaf hwn yw y cafwyd cynnydd da yn gyffredinol wrth gyflawni'r targedau a'r canlyniadau monitro a nodwyd, ac nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen adolygiad llawn neu rannol o'r CDLI ar y cam cynnar hwn yn ei weithrediad. Mae canfyddiadau'r adroddiad hwn yn darparu ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn AMB'au dilynol a bydd monitro'r fframwaith polisi dros gyfnod hwy yn galluogi nodi tueddiadau a dod i gasgliadau cadarnach.

Mae canllawiau gweithdrefnol Llywodraeth Cymru 'Cynlluniau Datblygu Lleol Cymru (Argraffiad 2 2015)', (para 4.3) yn nodi saith cwestiwn y dylai'r AMB ymdrin â hwy. Ystyriwyd y materion a gynhwysir yn y cwestiynau hyn trwy'r AMB fel rhan o'r dadansoddiad o'r data monitro.

- Pa faterion newydd sydd wedi digwydd yn yr ardal neu mewn polisi lleol/cenedlaethol (newidiadau polisi allweddol cyd-destunol a chenedlaethol diweddar, rhagolygon yn y dyfodol)?
- Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLI a'i bolisïau a thargedau allweddol?
- Pa safleoedd sydd wedi'u datblygu neu eu hoedi o ran disgwyliadau'r cynllun ar leoliad ac amseriad?
- Beth fu effeithiolrwydd cyflwyno polisïau, ac o wrth-annog datblygiad anaddas?

Mae'r adran hon yn gasgliad o ganfyddiadau'r broses fonitro ac mae'n ymateb yn uniongyrchol i gwestiynau'r LDPW, gan sicrhau ymdrin yn llawn â'r canllawiau gweithdrefnol.

Pa faterion newydd sydd wedi digwydd yn yr ardal neu mewn polisi lleol/cenedlaethol (newidiadau polisi allweddol cyd-destunol a chenedlaethol diweddar, rhagolygon yn y dyfodol)?

Mae Adran 3 yn cynnwys gwybodaeth gyd-destunol sy'n amlinellu'r newidiadau i'r canllawiau polisi cynllunio cenedlaethol a'r cyngor technegol sydd wedi digwydd dros y cyfnod monitro. Er y bydd angen ymgorffori'r newidiadau hyn mewn unrhyw adolygiad o bolisïau'r CDLI yn y dyfodol, ni chredir eu bod o'r fath raddfa fel bod angen ailystyried strategaeth y Cynllun na pholisïau unigol ar hyn o bryd.

Pa mor berthnasol, priodol a chyfredol yw strategaeth y CDLI a'i bolisïau a thargedau allweddol?

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd drwy'r broses AMB yn nodi bod cynnydd yn cael ei wneud wrth weithredu'r strategaeth ofodol, ac mae'n parhau i fod yn gadarn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'n anodd penderfynu ar dueddiadau pendant ar hyn o bryd gan mai dyma'r cyfnod monitro cyntaf.

Darpara Adran 5 asesiad manwl o sut mae polisïau strategol y Cynllun, a'r polisïau ategol cysylltiedig, yn perfformio yn erbyn y targedau a'r canlyniadau monitro

allweddol a nodwyd, a p'un a yw strategaeth ac amcanion y CDLI yn cael eu cyflenwi. Galluogodd hyn y Cyngor i wneud dyfarniad gwybodus o gynnydd y Cynllun wrth gyflenwi'r targedau/ canlyniadau a pholisïau monitro yn ystod y cyfnod monitro hwn. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg gweledol o effeithiolrwydd polisiâu'r Cynllun yn ystod y cyfnod monitro, yn seiliedig ar y raddfa goleuadau traffig a ddefnyddir yn yr asesiad:

Parhau i fonitro (Gwyrdd)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac nad oes unrhyw achos i'w hadolygu.	80
Angen Hyfforddiant (Glas)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisiâu'r CDLI yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd a bod angen hyfforddiant pellach ar swyddogion neu aelodau.	0
Angen Canllawiau Cynllunio Atodol (Porffor)	
Gall y dangosyddion awgrymu bod angen darparu rhagor o ganllawiau yn ychwanegol at y rhai sydd eisoes yn y Cynllun.	0
Ymchwil Pellach (Melyn)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu nad yw polisiâu'r CDLI mor effeithiol ag y dylent fod, a bod angen ymchwil ac archwiliad pellach.	22
Adolygiad Polisi (Oren)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod polisiâu'r CDLI yn methu â gweithredu'r strategaeth a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Polisi. Efallai y bydd angen ymchwil ac archwiliad pellach cyn cadarnhau'r penderfyniad i adolygu'n ffurfiol.	0
Adolygiad Cynllun (Coch)	
Lle mae'r dangosyddion yn awgrymu bod strategaeth y CDLI yn methu a bod angen adolygiad ffurfiol o'r Cynllun. Bydd angen ymchwilio'n llawn i'r opsiwn hwn i adolygu'r Cynllun a'i wneud yn dilyn ystyriaeth ddifrifol.	0

Pa safleoedd sydd wedi'u datblygu neu eu hoedi o ran disgwyliadau'r cynllun ar leoliad ac amseriad?

Dengys y dadansoddiad nad oes unrhyw dargedau dangosyddion polisi/ canlyniadau monitro sy'n achosi pryderon ynghylch gweithredu polisi (graddfa goleuadau traffig coch). Fodd bynnag, mae nifer nad ydynt yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, ond heb unrhyw bryderon cyfatebol ynghylch gweithredu polisi (graddfa goleuadau traffig melyn). Dangosodd archwiliad pellach bod rhesymau cyfiawn dros y perfformiad a gofnodwyd, ac nad yw hyn yn cynrychioli unrhyw faterion sylfaenol wrth weithredu'r fframwaith neu'r strategaeth bolisi ar hyn o bryd. Gweler y canfyddiadau mwyaf arwyddocaol mewn perthynas â'r rhain yn y canfyddiadau allweddol isod.

Prif ganfyddiadau

Fel y nodir uchod, mae'n bwysig nodi mai hwn yw'r AMB cyntaf i'w baratoi, ac mae AMB eleni yn darparu datganiad sefyllfa 1-flwyddyn tymor byr a data gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol mewn AMB'au dilynol.

Ar y cyfan, mae canfyddiadau'r AMB cyntaf ar gyfer blwyddyn 1 yn gyffredinol gadarnhaol gyda'r mwyafrif o'r dangosyddion yn wyrdd, sy'n arwydd bod y mwyafrif o bolisiau'r CDLI yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft:

- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gwrdd â'r newid moddol 50:50 ar gyfer yr holl bwrpasau teithio erbyn 2026 dros y cyfnod monitro, a rhagorwyd ar y targedau a nodwyd yn yr AMB i bob pwrpas teithio.
- Bu'r defnydd o dir cyflogaeth yn gryf dros y cyfnod monitro a chyflawnwyd y targedau a nodwyd yn yr AMB.
- Gwnaed cynnydd sylweddol wrth gynhyrchu rhaglen o Ganllawiau Cynllunio Atodol newydd (CCA) i gefnogi'r polisiau yn y Cynllun mabwysiedig, ac mae Cynllun Seilwaith Caerdydd wedi cael ei ddiweddarau. Bydd y gwaith ar y rhaglen CCA hon yn parhau trwy'r deuddeg mis nesaf a cheir tystiolaeth yn yr AMB nesaf.

Ceir rhai dangosyddion nad ydynt yn cael eu dangos yn wyrdd ac mae'r rhain yn cynrychioli meysydd lle mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddeall ac ymdrin yn llawn â materion perthnasol.

Er enghraifft, nid yw'r tai a gwblhawyd o Safleoedd Strategol a neilltuwyd yn y CDLI wedi bod yn dod ymlaen ar y cyfraddau a nodwyd yn wreiddiol gan Ddatblygwyr. Mae'r rhesymau dros hyn yn amrywio o safle i safle, ond daeth yn amlwg bod oedi'n digwydd rhwng mabwysiadu'r CDLI a thai newydd yn cael eu cwblhau - yn rhannol yn adlewyrchu perchnogaeth tir/materion technegol cyfreithiol rhwng Datblygwyr a pherchnogion tir, a hefyd cymhlethdod sicrhau caniatâd cynllunio a Chytundebau Adran 106 atodol sy'n cyflenwi'n llawn ddyheadau'r Cyngor, fel y nodir yn y CDLI.

Fodd bynnag, gwnaed gwaith sylweddol eisoes wrth ymdrin â'r mater hwn er mwyn ysgogi tafl-lwybr gwell o ddarpariaeth. Eisoes mae deialog ragweithiol yn digwydd gyda'r holl Ddatblygwyr perthnasol, gyda'r nod o alluogi a chyflwyno cartrefi newydd o fewn y fframwaith uwchgynllunio a seilwaith a nodir yn y CDLI. Mae'r sefyllfa bresennol yn fwy calonogol gyda sawl caniatâd cynllunio wedi ei roi bellach, a gweithgaredd

Rheoli Datblygiad parhaus ar ystod o Safleoedd Strategol a gwahanol allfeydd o fewn y safleoedd. Ystyrir felly y bydd y dull rhagweithiol hwn, dros amser, yn sicrhau cyfraddau cyflenwi gwell yn y blynyddoedd i ddod, ac y bydd y mater yn parhau'n flaenoriaeth gyfredol. Bydd AMB'au yn y dyfodol yn darparu diweddariadau ffurfiol blynyddol rheolaidd.

Yn ychwanegol, cafwyd oedi yn y gwaith sy'n mynd yn ei flaen i adnabod safleoedd i ddiwallu'r angen a nodwyd o ran safleoedd parhaus a thramwy i Sipsiwn a Theithwyr oherwydd yr angen i ymgymryd ag ymchwiliadau manwl ar safleoedd. Mae'r ymchwiliadau safle hyn bellach wedi cyrraedd cam datblygedig. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn helpu i hysbysu'r ystyriaethau ar y ffordd ymlaen yn y dyfodol agos.

Mae monitro'r AG yn darparu datganiad sefyllfa tymor byr ar berfformiad y Cynllun yn erbyn nifer o ddangosyddion cynaliadwyedd. O'r herwydd, mae'n darparu gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol lle y gall AMB'au yn y dyfodol weld tystiolaeth o dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod angen adolygiad llawn neu rannol o'r CDLI ar y cam cynnar hwn o'i weithredu. Dyma'r flwyddyn gyntaf y mae'r CDLI wedi bod yn weithredol a dyma'r AMB cyntaf i'w baratoi ar ôl mabwysiadu'r Cynllun. Darpara'r AMB hwn ddata gwaelodlin ar gyfer dadansoddiad cymharol yn y dyfodol a chasgliadau rhagarweiniol, lle y gall AMB'au yn y dyfodol weld tystiolaeth o sut mae tueddiadau yn dod i'r amlwg.

Beth fu effeithiolrwydd cyflwyno polisiau, ac o wrth-annog datblygiad anaddas?

Bu'r polisiau yn effeithiol iawn o ran gwrth-annog datblygiadau anaddas, ac nid yw'r Cyngor yn ystyried bod angen addasu nac amnewid unrhyw agweddau ar y Cynllun ar hyn o bryd.

Casgliadau:

1. Dim angen gweithredu ar hyn o bryd o ran adolygiad cynllun llawn neu rannol.
2. Cyflwyno'r AMB cyntaf 2017 i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Hydref 2017 yn unol â gofynion statudol. Cyhoeddi'r AMB ar wefan y Cyngor.
3. Parhau i fonitro'r Cynllun trwy baratoi AMB'au dilynol. Bydd angen monitro agos i bennu effeithiolrwydd fframwaith gofodol a fframwaith polisi'r Cynllun yn enwedig mewn perthynas â chyflenwi tai, gan gynnwys dyraniadau safleoedd tai strategol, darparu tai fforddiadwy a'r cynnydd ar safleoedd cyflogaeth strategol.
4. Paratoi yr ail AMB 2018, adrodd i'r Cabinet, a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad cau gofynnol, 31 Hydref 2018.

Atodiad 1: Tabl yn nodi crynodeb o'r canfyddiadau

Amcan 1 – Ymateb i anghenion economaidd y mae tystiolaeth ohonynt a darparu'r seilwaith angenrheidiol i gyflenwi datblygiad

		Tudalen
OB1 EC1	Tir cyflogaeth a ganiateir (ha) ar safleoedd a neilltuwyd fel canran o'r holl ddyraniadau cyflogaeth	24
OB1 EC2	Defnydd Tir Cyflogaeth Blynyddol yng Nghaerdydd	26
OB1 EC3	Y maint o dir cyflogaeth a gollwyd i ddefnyddiau nad ydynt yn ymwneud â chyflogaeth mewn safleoedd cyflogaeth lleol a phrif safleoedd cyflogaeth (Polisi EC1)	27
OB1 EC4	Darpariaeth gyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd KP2 (A)	28
OB1 EC5	Darpariaeth gyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd KP2 (C)	31
OB1 EC6	Darpariaeth gyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd KP2 (D & E)	32
OB1 EC7	Darpariaeth gyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd KP2 (F)	33
OB1 EC8	Darpariaeth gyflogaeth ar safleoedd a neilltuwyd KP2 (H)	34
OB1 EC9	Nifer net y swyddi sydd i gael eu creu dros y cyfnod sy'n weddill o'r Cynllun	35
OB1 EC10	Unedau A1 (manwerthu) gweithredol o fewn Canolfannau Ardal a Lleol yn parhau i fod y prif ddefnydd	36
OB1 EC11	Y gyfran o ffryntiadau siop Canol Dinas a ddiogelir gyda mwy na 50% o unedau (Siop) Dosbarth A1	39
OB1 EC12	Canran unedau manwerthu gwag ar y llawr isaf yn yr Ardal Siopa Ganolog, Canolfannau Ardal a Lleol	40
OB1 EC13	Nifer o Ddatblygiadau Manwerthu a ganiateir y tu allan i'r Ardal Siopa Ganolog a'r Canolfannau Ardal nad ydynt yn unol â Pholisi R6	43
OB1 EC14	Cyflawni rhaniad moddol 50:50 i bob taith erbyn 2026	45
OB1 EC15	% o bobl yn cerdded	47
OB1 EC16	% o bobl yn beicio	49
OB1 EC17	% o bobl sy'n teithio gyda bws	52
OB1 EC18	% o bobl sy'n teithio gyda thrên	55
OB1 EC19	Gwelliant yn yr amseroedd teithio ar fws	57
OB1 EC20	Gwelliant o ran dibynadwyedd amseroedd teithio ar y bws	58
OB1 EC21	Darparu hyb trafndiaeth rhanbarthol	59
OB1 EC22	Darparu seilwaith cludiant cynaliadwy newydd	61
OB1 EC23	CCA Ffryntiadau wedi'u Diogelu yr Ardal Siopa Ganolog	65
OB1 EC24	CCA Canllawiau i Ffryntiadau Siopau ac Arwyddion	66
OB1 EC25	CCA Diogelu Tir Cyflogaeth ac Eiddo	67

Amcan 2 - Ymateb i anghenion cymdeithasol y mae tystiolaeth ohonynt

Tudalen

OB2 SO1	Y cyflenwad tir i dai a gymerwyd o'r Astudiaeth Argaeledd Tir ar gyfer Tai presennol (TAN1)	68
OB2 SO2	Nifer yr anheddau marchnad cyffredinol net a adeiladwyd	72
OB2 SO3	Nifer yr anheddau fforddiadwy ychwanegol net a adeiladwyd (TAN2)	74
OB2 SO4	Anheddau a gwblhawyd bob blwyddyn (pob annedd)	76
OB2 SO5	Nifer o unedau hap wedi eu cwblhau y flwyddyn ar bob safle	78
OB2 SO6	Nifer o anheddau a ganiateir yn flynyddol tu allan i ffiniau aneddiadau diffiniedig nad ydynt yn boddhau polisïau'r CDLI	79
OB2 SO7	H7 - Seawall Road	80
OB2 SO8	H7 - Parhaol	81
OB2 SO9	H7 - Tramwy	84
OB2 SO10	H7 – Darpariaeth bresennol	87
OB2 SO11	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol A – Ardal Fenter Canol Caerdydd	88
OB2 SO12	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol B – Gwaith Nwy, Ferry Road	89
OB2 SO13	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol C – Gogledd-orllewin Caerdydd	90
OB2 SO14	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol D – I'r Gogledd o Gyffordd 33	92
OB2 SO15	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol E – I'r De o Creigiau	93
OB2 SO16	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol F – Gogledd-ddwyrain Caerdydd (I'r Gorllewin o Bontpennau)	94
OB2 SO17	Cyfanswm anheddau a gwblhawyd yn flynyddol ar Safle Tai Strategol G – I'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontpennau	96
OB2 SO18	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol A – Ardal Fenter Canol Caerdydd	97
OB2 SO19	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol B – Gwaith Nwy, Ferry Road	98
OB2 SO20	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol C – Gogledd-orllewin Caerdydd	99
OB2 SO21	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol D - I'r Gogledd o Gyffordd 33	101
OB2 SO22	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol E – I'r De o Creigiau	102
OB2 SO23	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol F - Gogledd-ddwyrain Caerdydd (I'r Gorllewin o Bontpennau)	103

OB2 SO24	Tai fforddiadwy wedi'u cwblhau'n flynyddol ar Safle Tai Strategol G – I'r Dwyrain o Ffordd Gyswllt Pontpennau	105
OB2 SO25	Newidiadau yng ngwerth marchnad eiddo yng Nghaerdydd ar ardaloedd Maes Glas a Thir Llwyd	106
OB2 SO26	Angen i ryddhau tir tai ychwanegol wedi'i bennu yn y lwfans hyblygrwydd	107
OB2 SO27	CCA Tai Fforddiadwy	108
OB2 SO28	CCA Tai Amlfeddiannaeth	109
OB2 SO29	CCA Goblygiadau Cynllunio	111
OB2 SO30	CCA Cyfleusterau Cymunedol a Datblygiad Preswyl	111
OB2 SO31	CCA Cyfleusterau Gofal Plant	112
OB2 SO32	CCA Iechyd	113
OB2 SO33	CCA Sipsiwn a Theithwyr	114

Amcan 3 - Cyflenwi'r anghenion economaidd a chymdeithasol mewn ffordd gydlynol sy'n parchu amgylchedd Caerdydd ac yn ymateb i heriau'r newid yn yr hinsawdd

Tudalen

OB3 EN1	EN14 C1	115
OB3 EN2	EN14 C2	116
OB3 EN3	Canran o gyrff dŵr o statws da	117
OB3 EN4	Y nifer o ganiatadau a roddwyd lle mae risg hysbys i ddirywiad mewn statws	118
OB3 EN5	Nifer y caniatadau sy'n cynnwys mesurau wedi eu llunio i wella ansawdd dŵr lle bo'n briodol	119
OB3 EN6	Nifer y caniatadau cynllunio a roddir yn wahanol i gyngor y cwmni cyflenwi dŵr sy'n ymwneud â lefelau digonol o ansawdd a maint y dŵr a'r ddarpariaeth ddŵr gwastraff	120
OB3 EN7	Y nifer o ddatblygiadau amhriodol a ganiateir o fewn y Lletem Las nad ydynt yn bodloni polisiau CDLI	121
OB3 EN8	Y nifer o ganiatadau cynllunio a roddwyd yn erbyn Polisi EN3 a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i Ardaloedd Tirwedd Arbennig	122
OB3 EN9	Coetir Hynafol Lled Naturiol	123
OB3 EN10	Y nifer o ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd mewn ardaloedd SoDdGA neu Ardal o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur dynodedig	124
OB3 EN11	Nifer o ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd sy'n cael effaith andwyol ar uniondeb safle Natura 2000	125
OB3 EN12	Nifer o ganiatadau cynllunio a gymeradwywyd a fyddai'n arwain at effaith niweidiol ar statws gadwraeth ffafriol rhywogaethau a ddiogelir gan yr UE yn eu cartref naturiol neu niwed sylweddol i rywogaethau sydd wedi'u diogelu gan statud arall	126

OB3 EN13	Cyflawni gofyniad man agored gweithredol ar draws Caerdydd fel y nodwyd ym Mholisi C5	127
OB3 EN14	Nifer o Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer	128
OB3 EN15	CCA Mannau Agored	129
OB3 EN16	CCA Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Datblygu	130
OB3 EN17	CCA Coed a Datblygu	131
OB3 EN18	CCA Bioamrywiaeth	132
OB3 EN19	CCA Llifogydd	133
OB3 EN20	CCA Rhwydwaith Treftadaeth Naturiol	134
OB3 EN21	CCA Ardaloedd Archeolegol Sensitif	135

Amcan 4 - Creu cymdogaethau cynaliadwy sy'n ffurfio rhan o ddinas gynaliadwy

Tudalen

OB4 SN1	Y nifer a chapasiti'r datblygiadau ynni adnewyddadwy a ganiateir	136
OB4 SN2	Cynnal maint digonol o dir a chyfleusterau i ddarparu ar gyfer capasiti gwastraff Caerdydd	137
OB4 SN3	Maint y gwastraff cartref a ailgylchir	138
OB4 SN4	Ceisiadau a dderbyniwyd am ddefnyddiau rheoli gwastraff ar safleoedd B2	139
OB4 SN5	Cadw cronfa dir 10 mlynedd o leiaf o gronfeydd creigiau mât	140
OB4 SN6	Maint y datblygiad yn yr Ardal Gadwraeth Glanfeydd Tywod	141
OB4 SN7	Maint y datblygiad a ganiateir o fewn ardal diogelu mwynau	142
OB4 SN8	Nifer y caniatadau cynllunio a roddir ar gyfer echdynnu mwynau agreg nad ydynt yn cyd-fynd â Pholisi M2	143
OB4 SN9	Nifer y caniatadau cynllunio i ddatblygiad amhriodol e.e. anheddau/ gwaith mwynau, a ganiateir mewn Clustogfeydd Mwynau yn groes i Bolisi M4	144
OB4 SN10	Nifer y gorchmynion gwahardd a roddwyd ar safleoedd segur	145
OB4 SN11	Nifer y ceisiadau sydd i gael eu caniatáu yn mynd yn groes i Bolisi EN9 a fyddai'n cael effaith niweidiol ar Henebion Rhestredig, Gerddi a Pharciau Hanesyddol Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth neu Adeiladau Rhestredig	146
OB4 SN12	Darparu pob egwyddor allweddol o'r Fframwaith Uwchgynllunio Safleoedd Strategol fel y mae wedi ei gynnwys yn y CDLI i sicrhau darpariaeth seilwaith allweddol gan gynnwys ymyriadau cludiant cynaliadwy, cyfleusterau cymunedol a chymdeithasol ynghyd â gofynion uwchgynllunio allweddol eraill	147
OB4 SN13	Paratoi Cynllun Seilwaith blynyddol a Diweddariad i'r Adroddiad Darparu Cynllun Seilwaith	148
OB4 SN14	CCA Canllaw ar Gynllunio a Pharcio	149

OB4 SN15	CCA Lleoli Cyfleusterau Rheoli Gwastraff	150
OB4 SN16	CCA Canllaw ar Ddylunio Safleoedd Mewnlenwi	151
OB4 SN17	CCA Canllaw Adeiladau Uchel	152
OB4 SN18	CCA Cynllunio i Ddeiliad Cartrefi	153
OB4 SN19	CCA Celf Gyhoeddus	154
OB4 SN20	CCA Defnydd a Safleoedd Bwyd, Diod a Hamddena gyfer Bwyta, Yfed ac Adloniant yng Nghanol Dinas Caerdydd	155
OB4 SN21	CCA Cyfleusterau Casglu a Storio Gwastraff	156
OB4 SN22	CCA Canllawiau a Safonau Dylunio ar gyfer Addasu Fflatiau	157
OB4 SN23	CCA Aseidiadau Ynni Adnewyddadwy	158